ECO'R WYDDFA

RHIF 341 CHWEFROR 2007 PRIS 40c

Yn y Rhifyn Hwn:

- **Arolygiad Ysgol Brynrefail**
- **Portreadau**
- **Clwtyn Criw Triw**

Yr Eira Olaf

LLUN O LYN PADARN wedi rhewi'n gorn yn 1895 oedd ar dudalen flaen rhifyn Nadolig yr *Eco* – llun oedd yn gwneud inni ryfeddu a rhamantu wrth feddwl ei bod yn annhebygol iawn y byddem ni'n gweld golygfa debyg yn ystod ein hoes ni. Anodd yw credu felly fod tebygolrwydd y bydd y llun hwn o'r Wyddfa dan eira'n peri'r un anghrediniaeth mewn llai nag ugain mlynedd, yn ôl adroddiadau diweddar yn y wasg.

Mae gwaith ymchwil gan Brifysgol Bangor a Chyngor Cefn Gwlad Cymru yn dangos bod lefelau eira wedi gostwng tua 35% dros y 10 mlynedd diwethaf ac mae'r llinell eira presennol tua 300 medr yn unig o'r copa wrth i dymheredd y gwanwyn godi 2.5 Gradd C ar Yr Wyddfa dros y 30 mlynedd diwethaf.

Mae nifer o ffactorau'n gyfrifol am y newid sylweddol hwn yn ein hinsawdd – alloriannau carbon monocsid a carbon deuocsid, llygredd a sbwriel gwenwynig. Mae'n sefyllfa ddyrys iawn ond mi allwn ni wneud rhywbeth i geisio lleddfu'r broblem, yn ôl Gwenllian Dafydd, Swyddog Gwastraff ac Ailgylchu Cyngor Gwynedd,

'Mae pob un cyngor yn derbyn targedau ailgylchu'n flynyddol er mwyn lleihau'r maint o wastraff a gynhyrchir bob blwyddyn. Yma yng Ngwynedd, mae'n rhaid inni gyrraedd y nod o ailgylchu 40% o'n gwastraff erbyn 2009–2010, sy'n ffigwr uchelgeisiol iawn o gofio mai dim ond 25% o'n sbwriel 'dan ni'n ailgylchu ar hyn o bryd.'

Mae pob un ohonom sy'n darllen papur newydd neu'n gwylio'r teledu yn ymwybodol o ddifrifoldeb cynhesu byd eang ond faint ohonom sy'n poeni o ddifri am yr effaith andwyol mae'n ffordd ni o fyw yn ei gael ar ein hamgylchedd? Faint ohonom sy'n ailgylchu'n rheolaidd? Mae gan sawl cartref yng Ngwynedd focs glas ar gyfer ailgylchu papur gwyn, tuniau, gwydr, dillad a sgidia ac mae croeso i bobl ffonio'r Cyngor os ydyn nhw angen mwy o'r bocsys hyn. Yn ôl Gwenllian Dafydd,

'Mae llawer o bobl yn gofyn inni a oes gwasanaeth ailgylchu plastig ar gael yn yr ardal, a'n gobaith ni yw y bydd hynny'n bosib o fewn y misoedd nesaf. Y broblem fwyaf efo ailgylchu plastig yw ei fod yn cymryd llawer o le ond nid yw'n pwyso llawer; ond, wedi cynllun peilot llwyddiannus iawn yn Llanrug, rydan ni'n ffyddiog y bydd gweddill y sir yn elwa yn fuan. Yn y cyfamser, mae posib ichi gludo'ch gwastraff plastig i un o'n canolfannau ailgylchu. Yr un agosaf yw parc diwydiannol Llandegai, Bangor.'

Cynllun newydd arall sydd ar y gweill yw gosod biniau olwyn brown mewn 8,000 o gartrefi yn Arfon er mwyn ailgylchu gwastraff gardd – chwyn, gwair a hen blanhigion – a fydd yn cael eu casglu bob pythefnos. Os ydach chi'n arddwyr brwdfrydig mae modd ichi gael biniau compost yn rhad ac am ddim gan y cyngor – er mwyn ailgylchu'ch gwastraff gardd a'ch gwastraff cegin.

Yn ôl Gwenllian, 'Drwy gynnig nifer o wasanaethau ailgylchu amrywiol, ein gobaith yw y bydd Gwynedd yn sir werdd iawn erbyn 2009/10, a gyda'n canolfan newydd 'Caergylchu' yn agor yng Nghibyn, Caernarfon, cyn bo hir dylai'r dyletswydd sydd ar bob un ohonom ni i ailgylchu fod yn haws i'w weithredu.'

* * *

O fewn yr wythnosau nesaf NI FYDD modd gadael mwy nag un llond bin olwynion neu dair sach du o sbwriel ar gyfer y lori sbwriel, mewn ymgais i geisio lleihau maint y sbwriel rydan ni'n cael gwared ohono'n wythnosol. **Felly bydd yn RHAID i bawb ailgylchu.**

Os am fwy o wybodaeth ffoniwch adran ailgylchu Cyngor Gwynedd ar: (01286) 679872 neu e-bostiwch ailgylchu@gwynedd.gov.uk

ECO'R WYDDFA

RHIF 341
CHWEFROR 2007
Argraffwyd gan Wasg Gwynedd Cibyn, Caernarfon

Cydnabyddir cefnogaeth Bwrdd yr Iaith Gymraeg i'r cyhoeddiad hwn.

SWYDDOGION A GOHEBWYR

Erthyglau a newyddion at ohebwyr pentref neu

Penarth
Ffordd yr Orsaf
LLANRUG
LL55 4BA

Ymholiadau Golygyddol
Llinos Jones
01248 374 962
llinoshaf@hotmail.com
(07733) 211332

CADEIRYDD Y PWYLLGOR GWAITH
Geraint Elis

GOLYGYDD CHWARAEON
Richard Ll. Jones, 5 Y Ddôl, Bethel. (01248) 670115

FFOTOGRAFFWR
Gwyndaf Hughes, Glasgoed, Llanrug (677263)

TREFNYDD HYSBYSEBION
John Roberts, Bedw Gwynion, Ffordd Glanffynnon, Llanrug (675605)
e-bost: johnroberts@prjr.wales.com

TREFNYDD ARIANNOL
Goronwy Hughes, Eithinog, 14 Afon Rhos, Llanrug (674839)

TREFNYDD GWERTHIANT POST
Olwen Hughes, Eithinog, 14 Afon Rhos, Llanrug (674839)

TREFNYDD PLYGU
Shioned Griffith (650570)

TREFNYDD BWNDELU
Marian Jones, Minallt, 7 Bro Elidir, Dinorwig (870292)

GOHEBWYR PENTREFI

BETHEL: Geraint Elis, Cilgeran (01248) 670726
BRYNREFAIL: Mrs Lowri Prys Roberts-Williams, Godre'r Coed (870580)
CAEATHRO: Clive James, Hafan, Bryn Gwna (677438)
CEUNANT: Trystan a Sioned Larsen, Bodafon, Ceunant (650799)
CWM-Y-GLO: Mrs Iris Rowlands, Glanrafon (872275)
DINORWIG: Marian Jones, Minallt, 7 Bro Elidir, Dinorwig (870292)
LLANBERIS: Gwyneth ac Eifion Roberts, Sŵn-y-Gwynt (870740)
LLANRUG: Eryl Roberts, 3 Bryn Moelyn (675384)
NANT PERIS: Llinos Jones, 6 Nant Ffynnon (871820)
PENISARWAUN: Mrs Ann Evans, Sycharth (872407)
TAN-Y-COED: Miss Anwen Parry, Ael-y-Bryn (872276)
WAUNFAWR: Mrs Nan Roberts, Pantafon, Waunfawr (650570)

Y RHIFYN NESAF
Deunydd i law'r golygyddion perthnasol
NOS LUN, 19 CHWEFROR
Os gwelwch yn dda
Daw'r rhifyn nesaf o'r wasg
NOS IAU, 1 Mawrth

DYDDIAD A LLEOLIAD PLYGU'R ECO

Trefnydd Plygu: Mrs Shioned Griffith, Pantafon, Waunfawr. (01286) 650570

Rhifyn	Dyddiad Copi	Dyddiad Plygu	Ble	Cysylltu â	Rhif Ffôn
Mawrth	19 Chwefror	1 Mawrth	Llanrug	Dafydd Wh Thomas	673515

Llythyrau

Gerllyn
Llanberis

Enw Gwirion

Be nesa, deudwch? Enwi pentra bach Llanbêr yn Vevislond, neu Deiniolen yn Drostwffods?

Enw cwbwl anaddas? Ydy. Be mae o'n ei olygu, deudwch, gan mai'r Wyddfa ydy'r Wyddfa, beth ydi Eryri, ac am hafod fe all hwn fod yn unrhyw hafod! Da chi, Mr Phillips, P.W. A.P.C.E., calliwch – a dewiswch enw gwell ar 'Frenhines Eryri', chwedl Jâms Niclas yn ei gerdd am yr Wyddfa. Pen neu Gopa, ia, ond nid hafod!

Mi fyddai Copa neu Ganolfan Copa'r Wyddfa wedi bod yn well enw o'r hanner. A be ddigwyddodd i'r enw a gynigiwyd gan Clive, Caeathro?

Cofion lu a phob dymuniad da i Eco'r Wyddfa.

J.R. Jones

Annwyl Olygydd,
Mae'n ddrwg gennyf glywed eich bod wedi derbyn llythyr o safon wael gennym yn ddiweddar, a'n bod wedi gofyn i chi ymateb yn Saesneg. Mae ymrwymiad yr Asiantaeth Sgiliau Sylfaenol wrth yr iaith Gymraeg yn bwysig iawn inni, ac anfonwyd y llythyr atoch trwy gamgymeriad yn ein trefn arferol o dan bwysau amser. Nid yw hyn yn esgusodi anfon llythyr o'r fath ac rwyf wedi cael gair â'r aelod o'r staff a oedd yn gyfrifol am hyn. Rwyf yn ddiolchgar i'm cydweithwyr yn y maes yng Nghymru am drosglwyddo'ch pryderon mor fuan.

Mae ein cynllun iaith Gymraeg o dan drafodaeth ar hyn o bryd (gweler www.basic-skills-wales.org). Sicrhaf y bydd ein staff yn Llundain ac yng Nghymru yn glynu'n agos ato.

Dymuniadau gorau

Dilys Alam
Dirprwy Gyfarwyddwr
Hyrwyddo a Marchnata
Yr Asiantaeth Sgiliau Sylfaenol

Rhianfa
Waunfawr

At y Golygyddion diwyd
Gweld yn eich rhifyn diwethaf eich bod ishio barn darllenwyr ynghylch yr enw ar yr adeilad ar gopa'r Wyddfa.

Tybed a gynrychiolwyd ni'r cyhoedd, ran bod rhai aelodau o ddalgylch *Eco'r Wyddfa*, ym Mhlas Tan-y-bwlch adeg y 'Cyfrif Mawr a'r Didol Enwau'? Pam cynnal y cyfarfod mewn 'stafell gaeedig ym Maentwrog? Beth oedd o'i le mewn cynnal cyfarfod gyda'r nos, hefo plant a phobl y Waun, Llanberis ei hunan, a phentrefi cyfagos, yn bresennol?

Dewiswyd 'Hafod Eryri'. Er mawr cywilydd i'r person â'i creodd, enw cwbwl ddwl, rwj mae'n flin gennyf ei ddweud ydyw hwn. Sothach diddychymyg o greadigaeth, ac mi ddywedaf wrthych – ynghylch y gair 'Hafod' – a hynny gyda chymorth manwl *Geiriadur Prifysgol Cymru*:

'Hafod' meddir, 'ydyw llety haf' (sylwch), 'trigfa ar ucheldir, yr arferai amaethwr' (sylwch! nid teithwyr) 'a'i dylwyth symud iddo dros dymor yr haf o Galan Mai hyd Awst neu Fedi ... fferm uchel i gadw defaid.'

Sylwch 'o Galan Mai hyd Fedi'. Y mae tymor ymwelwyr yn wahanol, a does ond rhaid meddwl am y cyfnod y mae Rheilffordd yr Wyddfa ar agor – yn sicr, nid o Galan Mai hyd fis Medi!

Yna'r anwybodaeth! Ie, yn fwriadol-gïaidd disodli'r enw Wyddfa, a defnyddio'r gair hyfryd 'Eryri' yn ei le. Onid 'bro' ydyw Eryri, s'n cynnwys pentrefi, ardaloedd, llynnoedd a mynyddoedd, gan gynnwys yr Wyddfa? Petae 'Hafod (yn) Eryri' wedi ei ddewis, yna byddai hwnnw hefyd yr un mor ddisynnwyr ran enw!

Yn fy marn i dylid cael gwared o baneli anwybodus, a boddi'r enw 'Hafod Eryri' yn un o lynnoedd dyfnaf mynyddoedd Eryri a dewis enw mwy ystyrlon yn ei le, a chofiwch fod gennych hefyd ieithyddwyr Cymreig, a chryn nifer o hen wagiau ieuainc a hen, hyd yn oed ym mro *Eco'r Wyddfa*,. sydd hefo'r arbenigedd ieithyddol a chariad at iaith, i fynd ati. Ond nid tu ôl i ddyrsau caeedig i ddewis gwell enw nac a gafwyd.

Sonia Lewis

Sŵn y Gwynt
Padarn Road
Llanberis

Annwyl Ddarllenwyr
Roedd y llun ar dudalen flaen rhifyn Nadolig/Ionawr o bobl Llanberis yn sefyll ar y rhew dros Lyn Padarn wedi colli'r hanes gwreiddiol oedd i gyd-fynd ag ef.

Yn dilyn erthygl Dafydd Guto yn rhifyn Rhagfyr am aeaf oer 1895, cofiais fod llun o'r cyfnod gennyf ac fe'i hanfonais i mewn.

Llun o aeaf 1895, nid 1852 oedd ar glawr yr *Eco*.

Eifion Roberts

Ni fydd golygyddion yr Eco yn cyhoeddi unrhyw lythyr di-enw

Bod Eilian
35 Stryd Dinorwic
Caernarfon

Annwyl Olygydd,
Rwyf yn anfon deunydd byr i chwi gan feddwl hwyrach y byddai gennych ddiddordeb yn ei gyhoeddi yn yr *Eco*.

Darn ydyw o ddyddiadur wedi ei ysgrifennu gan Mr Evan Parry-Jones, Tŷ'r Mawn, Llanberis, o'r flwyddyn 1898 hyd y flwyddyn 1947. Felly mae digon o ddefnydd os y buasech yn awyddus.

R. Elwyn Griffith

Dyddiadur Can Mlynedd yn Ôl

Dyma rai o ddigwyddiadau'r hen ddyffryn a gofnodwyd gan Evan Parry-Jones, Tŷ'r Mawn, Llanberis, ganrif yn ôl, gan ddechrau ym mis Tachwedd 1906.

28 Tach, 1906: Priodi Griffith Jones, Ty'n Twll, Nant Uchaf

30 Tach: Priodi Joseph Parry, Llainwen.

14 Rhagfyr: Priodi Griffith A. Williams, Tŷ Newydd.

24 Ionawr, 1907: Fe dorrodd William Griffith Jones, Ty'n Twll, ei goes i ffwrdd yn bonc Eban, Gilfach Ddu, a marw mewn ychydig funudau.

26 Ionawr: Claddu gwraig Robert Parry, Lodge.

30 Ionawr: Marw Morris Thomas, Dolbadarn Hotel, yn yr hen dŷ bugail.

1 Chwefror: Priodi William Williams, Bryn Coch.

2 Chwefror: Marw Robart Griffith, mab Llain Wlad.

15 Chwefror: Cafodd Owen Jones, Dwyran, Môn, ei ladd yn Sinc Pant Ceubrarn trwy i ddarn o'r graig syrthio ar ei gefen a'i ladd yn y fan.

19 Chwefror: Claddu Mrs Jones, Beach Bank.

28 Chwefror: Claddu Thomas M. Jones, Fatry, Llanberis

RHODDION

£25: Eirlys Pierce.
£20: Mr Cledwyn Jones, Peris, 56 Glanffynnon, Llanrug.
£10: Mrs Beryl Griffith, 5 Maes Gwylfa, Deiniolen; Pwyllgor Eisteddfod Bentref Llanrug a Chwm-y-glo; Betty Roberts, 10 Bryn Tirion, Penisarwaun; Teulu y diweddar Hugh John, Caernarfon.
£5.00: Bet Lloyd Jones, Lyndale, Ffordd yr Orsaf, Llanrug; Garry ac Elin Wakeham, Llanberis; Elfed a Doris Roberts, Dwyros, Waunfawr; Mrs O.T. Jones, Bryn Gwenallt, Waunfawr; Eirian Jones, 11 Stryd Newydd, Deiniolen.

PORTREADAU
Duncan Brown, Waunfawr



O wrando ar Duncan Brown yn siarad mewn Cymraeg rhugl ar y rhaglen fore Sadwrn *Galwad Cynnar* ar Radio Cymru, mae'n bur anodd credu mai 'Dysgwr' ydyw, ac er cario enw gwir Albanaidd 'does yna ddim diferyn o waed yr Alban yn ei wythiennau.

Ganwyd Duncan Brown yn swydd Derby, ac oherwydd bod ei dad yn un o uchel swyddogion cwmni Bernard Wardle, fe'i symudwyd yn 1949 i sefydlu cangen o'r cwmni hwnnw yn Peblig, tu allan i Gaernarfon. Ymsefydlodd y teulu yn y Waunfawr, ble mae bellach wedi ail-sefydlu.

Aeth Duncan i'r ysgol leol, ble y daeth o dan ddylanwad y diweddar Tom Ellis Jones, athro y mae Duncan yn teimlo yn hynod ddyledus iddo. Rhaid cofio nad oedd wedi clywed yr un gair o Gymraeg cyn hynny gan mai Saesneg oedd iaith yr aelwyd. Yna ymhen amser aeth yn ddisgybl i Ysgol Syr Hugh Owen, Caernarfon, ac oherwydd yr ansicrwydd mawr rhwng ei gefndir Seisnigaidd a'i ychydig iawn o ddefnydd o'r iaith Gymraeg, roedd elfennau o ansicrwydd yn naturiol wedi ymddangos yn ei bersonoliaeth ifanc tuag at Gymru yn ogystal.

Aeth o Ysgol Syr Hugh i astudio Celf i Goleg Cheltenham yn Sir Gaerloyw, cwrs blwyddyn ac yna dair blynedd arall mewn Coleg Celf yn Norwich, gan ganolbwyntio ar Arlunio. Ar derfyn ei gwrs yn Norwich wedi cael gradd, yn sydyn teimlodd am y tro cyntaf yn ei yrfa awydd amlwg i ddychwelyd i Gymru. Wedi hyfforddiant ym Mhrifysgol Caerdydd fe'i apwyntiwyd yn athro'r Celfi Cain yn Ysgol Uwchradd Aberhonddu.

Ond roedd un ffaith bwysig yn dylanwadu'n fawr ar ei fywyd erbyn hyn – yr oedd Duncan mewn cariad! Yn wir mewn cariad go danbaid gan ei fod ef a'i gariad, Gill – a ddaeth yn y man yn wraig iddo – wedi anfon llythyron i'w gilydd bob dydd am dair blynedd! Roedd y ddau wedi cyfarfod yng Ngholeg Cheltenham ble'r oedd Gill, sydd hefyd yn arlunydd tra derbyniol, yn astudio crochenwaith.

Wedi tair blynedd hiraethus yn dysgu yn Aberhonddu, ble'r oedd wedi ymroi yn gyson i bob gweithgaredd cadwriaethol, bu'n llwyddiannus i gael swydd yn 1974 fel Warden y Mynydd Du a mannau eraill, gydag Awdurdod Parc Bannau Brycheiniog, er dioddef tipyn go lew o ostyngiad yn ei gyflog, ac yntau wedi priodi yn ogystal.

Llwyddodd i ennill diploma o Brifysgol Llundain mewn 'Bywydeg Maes' i'w gynorthwyo yn ei alwedigaeth newydd.

Yna o fewn blwyddyn roedd Cyngor Gwarchod Natur, oedd â'i bencadlys ym Mangor, yn gwahodd ceisiadau am swydd 'Warden Morfa Harlech' a bu Duncan yn llwyddiannus. Ei arwr bryd hynny, ac y mae o hyd o ran hynny, oedd yr adarwr o fri o Ynys Môn, Peter Hope Jones: *'Ceisiais gyrraedd safon Peter, os oedd modd,'* yw cyffesiad parod Duncan.

Wrth weithio ym Morfa Harlech daeth hefyd o dan ddylanwad y diweddar William Jones, Croesor, un oedd yn gydweithiwr profiadol ac yn barod i gynghori'r Duncan ifanc. Wrth reswm mae Duncan yn cydnabod iddo ddysgu llawer gan William. Adfer y twyni tywod trwy drawsblannu'r moresg ar y Morfa oedd y dasg a, thrwy ddyfal barhad, fe fu'n llwyddiant mawr.

Wedi sawl blwyddyn fe'i apwyntiwyd yn ben warden ar wahanol warchodfeydd, gan gynnwys Gwarchodfa Abergwyngregyn ac, o 1984 ymlaen, yno y bu nes ymddeol yn 2006. Does dim amheuon fod sefydlu'r warchodfa honno wedi rhoi ac yn dal i roi pleser mawr i Duncan, heb anghofio'r planhigion anghyffredin a geir yno, ond yn fwy na dim astudio'r cen ar y gwahanol goed yn y warchodfa. Trefnwyd taith gerdded drwy'r goedwig i'r hanner can mil o ymwelwyr sydd yn ymweld ag Aber yn flynyddol. Ac, wrth gwrs, i fwynhau rhyferthwy'r rhaeadr – ac mae cynifer â hyn o ymwelwyr yn golygu fod angen cydweithrediad y gymuned yn Abergwyngregyn, ac mae'r cydweithio hwnnw wedi rhoi boddhad i Duncan.

Cyn cloi, ni ellir anghofio ei wybodaeth eang o ystlumod. Yn ôl Duncan Brown mae deuddeg gwahanol fath ohonynt yng Nghymru a rhai mathau yn prinhau yn arw. Os oes ystlumod yn eich cartref dylech, yn ôl cyfraith gwlad, hysbysu'r awdurdodau, gan fod ystlum yn anifail wedi'i warchod.

Er iddo ymddeol ers llynedd, mae'n dal yn brysur. Y gaeaf dwytha cynhaliwyd dosbarth Addysg y Gweithwyr ganddo yn Abersoch. Mae hefyd yn hoffi garddio, beicio a gwarchod plant Beca, y ferch.

Nid syndod oedd canfod mai pryder Duncan bellach yw'r newid a geir yn yr hinsawdd ac er y cred fod y cyfnod presennol yn gyfnod cyffrous ym myd natur a'r amgylchedd, a newidiadau pellgyrhaeddol yn cymryd lle, er mwyn y rhai sydd yn dod ar ein hôl, dylem gymryd y newidiadau hyn yn llawer mwy o ddifrif yw cyngor Duncan Brown.

Ar ddechrau blwyddyn newydd, bydd yn ymestyn at ei ddyddiadur – mae wedi llenwi pob dydd o'i ddyddiaduron ers 1986. Tipyn o gamp yn ogystal yw'r llyfnder eglur o enau'r hogyn bach o swydd Derby gynt wrth drin yr Iaith Gymraeg y dyddiau hyn.

ROL WILLIAMS

(Ers ysgrifennu'r ysgrif hon daeth newyddion trist am farwolaeth mam Duncan. Derbyniwch ein cydymdeimlad llwyraf â chwi fel teulu yn eich profedigaeth.)

Un funud fach
Goody, Napoli a ni

Jade druan. Bosib iawn ei bod hi'n hogan wirion, ac yn fwli, a gwaeth. Welais i, a chlywais i mo Ms Goody'n gwneud sôn amdani ei hun ar *Big Brother* yn ddiweddar. Ond beth bynnag wnaeth hi, choelia i fawr ei bod yn haeddu'r sylw na'r feirniadaeth a gafodd ar o leiaf ddau gyfandir. Wrth gwrs fod aflonyddu hiliol yn beth ddrwg. Ond pwy sydd waethaf, dwy neu dair o genod uchel eu cloch mewn tŷ bach twt o stiwdio, ynteu'r cynhyrchwyr a'u gosododd hwy yno'n fwriadol er mwyn eu gweld yn dadlau ac yn ffraeo efo actores ddiarth o'r India? A beth sydd fwyaf trist, Jade a'i geiriau brwnt, ynteu'r miliynau a ddechreuodd wylio'r rhaglen unwaith y clywson nhw fod yr hiliaeth honedig ar droed? Er ein holl brotestiadau, roeddem yn mwynhau'r ffraeo a'r bwlio.

Ia, ychydig sydd ei angen i dynnu'r gwaethaf ohonom. Rhywbeth bach fel llongddrylliad, er enghraifft. Welsoch chi'r tyrfaoedd ar draethau Dyfnaint yn cario popeth, o glytiau babis i foto beics, i'w ceir a'u faniau wedi i long y Napoli daro'r creigiau? Mae'n hawdd deall yr ysbeilwyr yn cymryd bwyd a dillad o siopau gwag ar ôl daeargryn neu lifogydd mawr. Ond daeth yr ysbeilwyr hyn, o bell ac agos, ac o glydwch eu cartrefi i gymryd beth bynnag a allent ei gario o'r traethau.

Faint tybed o'r ysbeilwyr a fu ar draethau Branscombe fu'n gwylio *Big Brother?* Faint ohonynt a ffoniodd Offcom i gwyno am sylwadau hiliol Jade? A welwyd rhai o'i beirniaid yn clochdar yn gwbl ddigywilydd ar y teledu am y pethau a 'achubwyd' ganddynt o'r traeth? 'Y galon sydd fwy ei thwyll na dim' yn ôl Y Beibl. Ac mor barod ydym i gredu ein bod yn well nag ydym; i weld beiau pobl eraill, heb weld ein beiau ni; i gyfrif rhai pechodau yn waeth nag eraill. Ydy iaith hiliol, er enghraifft, yn waeth na lladrata? Ydy iaith anweddus yn waeth na meddyliau drwg? Ydy treisio'n waeth na thwyllo? Pechod yw'r cyfan yng ngolwg y Duw Byw.

Mae'r pechod hwnnw ynom i gyd. Mae Jade a'r ysbeilwyr yn dangos hynny; mae ein calonnau ninnau'n ategu'r peth. Does angen fawr ddim i ddod â'r pechod hwn i'r amlwg. Dim ond i rywun sathru'n traed, efallai, neu sbïo'n gas arnom, buan iawn y bydd chwerwder ac atgasedd yn dechrau mudferwi o'n mewn. Dim ond y cyfle lleiaf, o bosib, sydd ei angen i ni geisio mantais ar draul cydweithiwr neu gymydog.

Diolch byth mai dod at gleifion wnaeth yr Iesu ac nid at rai cyfiawn.

JOHN PRITCHARD

Garry Owen ar daith papurau bro
Y Post Cyntaf

TEIAR FFLAT y tu fas i gapel y Tabernacl! Dyna sut y dechreuodd taith papurau bro y *Post Cyntaf*. Ond doedd dim byd yn fflat am y drafodaeth y tu mewn i'r capel wrth i griw o bapur yr *Hogwr* ddod at ei gilydd i wthio'r cwch i'r dŵr, fel petai... yn llythrennol felly gan 'i bod hi yn bwrw hen wragedd a ffyn y bore hwnnw!

Arbrawf newydd oedd hwn ar y cyd rhwng newyddiadurwyr rhaglen newyddion foreol y *Post Cyntaf* ar Radio Cymru, a thimau o wirfoddolwyr sy'n cynhyrchu rhai o'n papurau bro ni. Y bwriad oedd rhoi chwarter awr o'r rhaglen bob bore am wythnos i'r papurau i baratoi rhaglen gylchgrawn fer yn adlewyrchu eu hardaloedd. Fe fydden nhw wedyn yn dewis y storïau, y gwesteion a'r pynciau. Nhw hefyd fydde'n gyfrifol am adolygu papurau newyddion y dydd bob bore. Roedd hi'n dipyn o her, ond roedd pob un yn barod amdani ac am y gorau yn cynhyrchu pecynnau newyddion, ffendio storïau a gwahodd cyfrannwyr i'r rhaglen

Pryder am ddyfodol corau meibion, ac yn wir dyfodol ein papurau bro ni hefyd, aeth â bryd pobol Penybont ar Ogwr a'r cylch, a'r criw yn ddigon parod i ddweud eu dweud. Mae'n werth nodi mai dyma lle 'nethon ni ddarganfod un o golofnwyr y dyfodol, merch ifanc sy'n dal yn yr ysgol gynradd ond sy' eisoes yn cyfrannu adolygiadau llyfrau i'r *Hogwr*. Dechre'n ifanc fan hyn mae'n amlwg!

Siwrne i'r gorllewin wedyn i ardal Crymych a phapur *Clebran*. Roedden ni'n darlledu o gaffi Beca... ac roedd hi'n dipyn o sioc i gyrraedd cyn chwech y bore a gweld bod y drysau ar agor led y pen, a'r brechdanau bacwn eisoes yn barod gan y perchennog rhadlon. Roedd tîm y *Post Cyntaf* wrth eu boddau... roedd hyn yn dipyn gwell na'r coffi mewn cwpane polystyrene sydd ar gael yn y stiwdios yn Llandaf! Roedd digon i'w drafod fan hyn hefyd... er ei bod hi'n demtasiwn i fynd am ddishgled bob pum muned, gan bod arogl y coffi ffres yn treiddio drwy'r lle. Dyma beth oedd darlledu mewn steil, a'r criw yn cael blas arni mewn mwy nag un ffordd.

Roedd y daith y pnawn hwnnw yn siwrne a hanner. Cyrraedd Dyffryn Banw oedd y nod er mwyn cwrdd â thîm *Plu'r Gweunydd*. Roedd swyddfeydd post yn cau mewn ardaloedd gwledig yn un o'r storïau a ddewiswyd gan y tîm yma. Roedd angen felly galw yn swyddfa bost Meifod ar y ffordd. Bu bron i'r ymweliad droi yn stori – fe gafodd allweddi y car eu cloi YN y car! Dyna halibalw a rhaid oedd galw am gymorth yr AA (Yr eildro mewn tridiau... ond cadwch hynny'n gyfrinach!)

Roedd y siwrne o Meifod i Ddyffryn Banw hefyd yn ddiddorol a dweud y lleia, diolch yn bennaf i'r tywydd garw. Do, daeth y gwynt a'r glaw. Ond digon cynnes fu'r croeso ar fws BBC Cymru yn Llangadfan, gyda thîm papur *Plu'r Gweunydd* ar y bore Mercher – a ninnau hanner ffordd drwy'r daith.

Roedd y tywydd yn dal i achosi hafoc wrth deithio i Lanrug hefyd. Doedd dim posib croesi'r bont ym Machynlleth ac felly lan â ni i Lanwrin, ar y 'scenic route'! Ac ar ôl cyrraedd bu bron iawn i holl waith caled papur *Eco'r Wyddfa* fynd yn ofer. Roedd gwyntoedd cryfion dychrynllyd yn Llanrug yn achosi probleme difrifol i'r ddysgl lloeren oedd i fod i sicrhau bod gyda ni signal i ddarlledu o'r 'Stiwt'. Yr unig ateb oedd gofyn i'r peiriannydd sain amyneddgar eistedd ar ben to y car yn dal y ddysgl, a hynny yn nannedd y gwynt, trwy gydol y rhaglen. Fe gafodd hi baned am ei hymdrech!

Daeth y siwrne i ben yn yr Wyddgrug, cartref y brifwyl eleni, a'r Eisteddfod wrth gwrs ar frig yr agenda fan hyn, a'r paratoadau ar gyfer yr wythnos fawr yn destun trafod. Roedd y bythol-wyrdd Aled Lloyd Davies wrth ei fodd yn ymateb i'r tynnu coes pan wnes i awgrymu'n hy - ei fod e braidd yn hen i fod yn gadeirydd y pwyllgor gwaith.

'Arhoswch i fi gael mynd i nôl fy ffon,' medde fe a gwen ddireidus ar ei wyneb.

Daeth yr wythnos i ben yn rhy sydyn o lawer, ond mae paratoadau ar y gweill i fynd mas eto i gwrdd â'n cyfeillion yn y papurau bro. Mae papur Llambed *Clonc* wedi ein gwahodd ni draw eisoes.

Os hoffech i ni ddod i'ch gweld chi, croeso i chi gysylltu â ni, ond rhowch ddigon o rybudd er mwyn i ni bacio'r cotiau glaw, yr hetiau a'r mapiau ac, wrth gwrs, i wneud yn siŵr ein bod ni wedi talu am aelodaeth lawn gyda phob cymdeithas foduro – rhag ofn!

BWRDD YR IAITH GYMRAEG · WELSH LANGUAGE BOARD

Noddir gan Lywodraeth Cynulliad Cymru

CERIS JONES
Teglan, Stâd Talybont
LLANRUG
677362
neu symudol
07979 620996
- Trwsio ceir a faniau
- Gwaith MOT
- Mecanic profiadol iawn
- Prisiau cystadleuol

Blodau Racca
(Alwyn and Sarah Jones)
Ffôn **870605**
- Basgedi Planhigion, Blodau Ffres a Silc
- Danfon blodau 7 diwrnod yr wythnos drwy'r fro
- Gwasanaeth Tudalennau Siarad/*Talking Pages* 0800 600900
- Hefyd, Hamperi o Lysiau a Ffrwythau Ffres

RHODD O'R GALON YW BLODAU

Harddwch eich cartref gyda
FFENESTRI CELTIC WINDOWS
FFENESTRI • DRYSAU • CONSERFATERIS
CYFLENWYR AWDURDODAU LLEOL
Busnes teuluol gyda blynyddoedd o brofiad
Ffoniwch – 'dio'n costio dim i gael pris
HEN YSGOL GLANMOELYN
LLANRUG LL55 2RG
NHBC
(01286) 678618 (dydd)
(01248) 670081 (nos)

BWS BACH AR LOG
Bws 22 sedd ar gael ar gyfer pob math o logi preifat – nosweithiau allan, partïon, tripiau ac ati.
Gwasanaeth personol a thelerau rhesymol gan
(01248) 361044
D. P. OWENS RHIWLAS

CHEZ DUDLEY
Chwilio am Gystadleuwyr!!
Yn dilyn llwyddiant CHEZ DUDLEY y llynedd yn ardal Provence, Ffrainc, mae Dudley yn hel ei bac unwaith eto ac yn ei heglu hi am yr Eidal! Ydych chi'n mwynhau coginio? Yn mwynhau dangos eich doniau yn y gegin?
Eisiau'r cyfle i dreulio amser mewn ysgol goginio yn yr Eidal? OES?! Mae CASA DUDLEY yn disgwyl amdanoch chi!
Am fwy o fanylion a ffurflen gais cysylltwch â:
Teledu Opus, 60 Severn Grove, Pontcanna, Caerdydd CF5 1JP
neu ffoniwch: 029 20 22 34 56 neu gyrrwch ebost at: opus@opustf.com
Dyddiad cau: 30ain Mawrth

Colofn y Plant

Cwtyn Criw Triw

Annwyl Blant,

Rargianiaetholeithus, can mil diolch i Sbonach Mawr am fy helpu cyn y 'Dolig. Dwribidiw! y mae o'n brysur ar hyn o bryd yn darllen yr holl lythyra a ddanfonwyd gennych ato, a'r rhan fwya ohonynt, ewadd bach! yn adrodd hanesion creaduriaid doniol. Y tro diwetha welais i Sbonach Mawr roedd o i fyny at ei wddw a'i 'sgwydda hefo amlenni! Mi gewch yr hanesion i gyd y mis nesa.

Diolch i L. ac M. Jones, Llanbêr, am ddanfon llythyr ata i. Yn anffodus ni wnaethoch adael eich cyfeiriad. Roeddwn wedi paratoi llythyr crand er mwyn diolch i chi, ac anrheg bychan, ond heb gyfeiriad ni fedraf eu danfon atoch. Felly, cofiwch blant, pan fyddwch yn danfon stwff i Sbonach Bach a Mawr, Colofn y Plant, Penarth, Ffordd yr Orsaf, Llanrug LL55 4BA, rhaid gofyn caniatâd eich rhieni a rhoi oedran, enw a chyfeiriad yn llawn ar y gwaith! Mae llythyr L. ac M. Jones, Llanbêr fel a ganlyn:

Annwyl Shonach Bach,
[Sbonach ddylai hwn'na fod ac nid Shonach!]
Mae fy chwaer a finna yn casglu darnau o lestri wedi eu malu, ac yn cael hwyl dda arni! Y mae 'na gannoedd o ddarna llestri ym mhridd yr ardd gefn ble rydan ni'n byw. Dyma ffotograff a gymerodd dad o un darn.
L. ac M. Jones, Llanbêr

Diolch L. ac M. Cofiwch blant na allwch dyllu'n rhwla rwla, a bod angen cymryd gofal. Y mae tiroedd sydd wedi eu gwarchod, neu'n eiddo pobol eraill, ac ni chewch dyllu ynddynt. Peth arall, rhaid gofalu peidio mynd i

domeni sbwriel i dyllu. Mae yno beryglon. Cofiwch olchi eich dwylo'n lân bob amser wedi i chwi fod yn gafael mewn darna a fu o'r golwg yn y pridd.

Annwyl L. ac M.,
Mi gefais air hefo Mared Wyn McAleavey yn Amgueddfa Werin Cymru, Sain Ffagan, Caerdydd. *'Rwy'n meddwl,'* ebe hi, *'mai darn o blât ar gyfer cigoedd sydd yn eich meddiant, y math fyddai'n cael eu harddangos ar silff uchaf dresel.'* Patrwm ffesantod Asia sydd ar y llestr ac y mae dros gan mlwydd oed! Dwbrididw! Hei encoes ninna! Dyna be ydy bod yn hen! Beth am hy'na L. ac M?

Gyda llaw, os oes gennych ddiddordeb mewn hel hen gardiau te, ceir neu ddoliau, ac yn y blaen, beth am daro gair a llun, neu ffotograff ata i.
Hwyl dibridw,
Oddi wrth SBONACH BACH

Y CYNLLUN IEUENCTID

Mae bron i ddwy flynedd ers i'r syniad o gael gweithiwr ieuenctid Cristnogol ar gyfer dalgylch *Eco'r Wyddfa* gael ei gyflwyno gyntaf. Ers y cyfarfod cyntaf a gawsom ym mis Ebrill 2005 bu criw ohonom yn datblygu'r syniad yn ofalus.

Mae llawer wedi ei wneud ers hynny dan arweiniad y Parchg Dafydd Lloyd Hughes. Ers iddo gynnig y syniad i eglwysi'r fro, mae Mr Hughes wedi ymddeol o fod yn weinidog yn Llanrug a Bethel, ond mae aelodau'r pwyllgor yn falch ei fod yn parhau i arwain y fenter hon i sicrhau gweithiwr ieuenctid a all helpu'r eglwysi i gyflwyno Iesu Grist i ieuenctid y fro. Mrs Susan Williams, Ceunant, yw'r ysgrifenyddes a Mr Clive James, Caeathro, a fu'n bennaf cyfrifol am lunio'r ceisiadau ariannol ar ein rhan hyd yma. Gwerthfawrogwn eu gwaith caled. Cewch wybod pwy arall sydd ar y pwyllgor dros y misoedd nesaf, gyda chaniatad y golygyddion!

Dyma fraslun i chi o'r hyn a wnaed eisoes gan y pwyllgor sy'n cynrychioli eglwysi a chapeli o wahanol enwadau yn y fro. Dosbarthwyd holiadur ddechrau hydref 2005 a ddangosodd yn glir fod yna gefnogaeth amlwg yn y fro i'r bwriad o gael gweithiwr ieuenctid Cristnogol. Cysylltwyd â Christnogion mewn rhannau eraill o Gymru a lwyddodd i greu swyddi a phenodi gweithwyr. Mae un cynllun ym Mhen Llŷn ac un arall yng Nghaerdydd yn arbennig o lwyddiannus, ac yn eu ffyrdd eu hunain yn batrwm ar gyfer y math o waith y gobeithiwn ni ei ddatblygu yn lleol.

Anfonwyd dogfen at yr eglwysi i nodi'n gobeithion, gyda disgrifiad o'r swydd a'r gost o'i chynnal am dair blynedd. Cafwyd ymateb cadarnhaol i'r ddogfen oddi wrth nifer o'r eglwysi. Cadarnhaol hefyd fu'r ymateb o du prifathrawon yr ysgolion cynradd ac uwchradd; ac yr ydym yn falch o hynny gan ei fod yn fwriad i'r gweithiwr fynd i'r ysgolion yn ogystal â gweithio trwy'r eglwysi.

Un peth pwysig a ddigwyddodd ar y cychwyn cyntaf oedd bod y syniad wedi troi yn fater gweddi i ni. Cynhaliwyd cyfarfod gweddi yn gyson i weddïo dros yr holl gynllun. Erbyn hyn mae'r cyfarfod gweddi a'r pwyllgor wedi mynd yn un, gyda phob noson bwyllgor yn dechrau gyda chyfarfod gweddi.

Bydd yn costio £78,000 i gynnal y swydd am dair blynedd. O'r cychwyn yr ydym wedi rhagweld y daw'r arian hwnnw o dri chyfeiriad: mudiadau elusennol; yr enwadau yng Nghymru; a'r eglwysi lleol. Mae'r sylw mwyaf hyd yma wedi bod ar y cyntaf o'r tri hyn, ac yn arbennig Gronfa Pantyfedwen sy'n dosbarthu symiau sylweddol i wahanol fudiadau. Cyflwynwyd cais i'r Gronfa hon ddiwedd 2006, ac yr ydym yn eithriadol o ddiolchgar o ddeall ein bod wedi cael addewid o £25,500, ar yr amod, yn naturiol, y llwyddwn i sicrhau gweddill yr arian.

Yr ydym hefyd wedi dechrau cyflwyno'r ceisiadau i'r enwadau, ac eisoes wedi cael rhai addewidion. Hyderwn y bydd y ffaith i ni gael yr addewid gan Gronfa Pantyfedwen yn help i sicrhau cefnogaeth yr enwadau. Cewch wybod gennym yn fuan am ein cynlluniau ar gyfer codi gweddill yr arian yn lleol. Eisoes cafwyd rhai rhoddion. Diolch, er enghraifft, am yr addewid fod oddeutu £500 i ddod i ni drwy'r cyflwyniad o 'Ffordd Tangnefedd' gan aelodau eglwysi Llanberis adeg y Nadolig.

Mae gennym waith mawr i'w wneud dros y misoedd nesaf gan fod angen sicrhau'r arian erbyn diwedd y flwyddyn.

Am y tro felly, carwn bwyso arnoch i weddïo dros ymdrechion y pwyllgor. Os yw fy syms i'n gywir, mae angen £52,500 erbyn diwedd y flwyddyn. Wnewch chi un peth gyda ni ar hyn o bryd os gwelwch yn dda? Os ydych chi'n gweddïo, yna gweddiwch dros ein hymdrechion i sicrhau'r arian hwn eleni fel y gallwn benodi gweithiwr mor fuan ag y bo modd.

Gyda llaw, mae 'Cynllun Gweithiwr Cristnogol ar gyfer Ieuenctid Dalgylch *Eco'r Wyddfa*' yn ormod o lond ceg o'r hanner. Os gall rhywun ohonoch gynnig enw addas i'r cynllun, rhowch wybod i mi os gwelwch yn dda. Gallaf eich sicrhau, os defnyddiwn eich awgrym, **NA FYDDWN** yn rhoi'r unrhyw fath o wobr i chi! Fel y gwelwch, mae angen pob ceiniog arnom.

JOHN PRITCHARD
Cilfynydd, Llanberis

Asesu Dawns trwy gyfrwng y Gymraeg – cyfle gwaith

Mae rhai ysgolion yn dysgu Safon Uwch Dawns, ac ysgolion uwchradd cyfrwng-Cymraeg yn eu plith. Sut bynnag, ar hyn o bryd ceir diffyg enbyd o arholwyr â phrofiad addas a all arholi gwaith cwrs a phapurau arholi ymgeiswyr trwy gyfrwng y Gymraeg.

Ar ran corff dyfarnu, mae'r Adran dros Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau yn Llywodraeth Cynulliad Cymru yn chwilio am bobl fyddai'n gweithio ar eu liwtiau eu hunain i asesu arholiadau dawns ymarferol ac ysgrifenedig myfyrwyr.

Wrth reswm, caiff arholwyr eu talu gan y corff dyfarnu. Maent yn marcio papurau arholi ac ymweld ag ysgolion cyfrwng-Cymraeg er mwyn asesu arholiadau ymarferol y myfyrwyr. Byddai'n rhaid i arholwyr hefyd wneud peth asesu trwy gyfrwng y Saesneg, fel y gallai'r corff dyfarnu sicrhau cysondeb. Mae manteision y gwaith hwn yn cynnwys:

- cynnal agwella ymwybyddiaeth o'r gwaith mae ymgeiswyr yn ei gyflawni ar gyfer Safon Uwch;
- gweld canlyniadau amryw o dechnegau addysgu;
- meithrin cysylltiadau ag ysgolion uwchradd yng Nghymru.

Rhaid wrth Gymraeg rhugl a phrofiad addysgu dawns ar gyfer y gwaith hwn.

Am fwy o fanylion ac i gael gwybod sut i ymgeisio i'r corff dyfarnu dan sylw, cysylltwch â'r Dr Miranda Morton ar 029 20375433 neu miranda.morton @wales.gsi.gov.uk

BETHEL

Geraint Elis, Cilgeran. Ffôn: (01248) 670726

CYMDEITHAS LENYDDOL. Bu'r aelodau yn dathlu Gŵyl y Geni mewn noson lwyddiannus ychydig cyn y Nadolig. Croesawyd pawb ynghyd gan y Llywydd, Ieuan Williams, diolchwyd i Rita Dauncey Williams am drefnu'r noson ac anfonwyd cofion at nifer o'r aelodau oedd yn methu â bod yn bresennol.

Cafwyd darlleniadau a gweddi gan unigolion, dwy eitem gan barti o ferched yn canu ac yn llefaru, a bu i bawb ymuno i ganu nifer o garolau, gyda Beti Owen yn cyfeilio. Yn dilyn y cyfan mwynhawyd lluniaeth ysgafn wedi ei baratoi gan y merched.

CYMDEITHAS LENYDDOL. Cynhaliwyd cyfarfod i aelodau'r Gymdeithas yn ddiweddar yng nghwmni Dei Tomos, Nant Peris. Croesawyd pawb ynghyd gan y Llywydd, Ieuan Williams, a chafwyd sgwrs ddiddorol iawn ar y testun, 'Ymwelwyr Cyntaf Eryri'. Soniodd y siaradwr am nifer o bersonau a ddaeth i'r ardal o'r flwyddyn 1500 ymlaen, gan gofnodi hanesion a sylwadau am y bobl a'r tirwedd. Sylweddolwyd yn fuan iawn bod teithio yn Eryri y pryd hynny yn dipyn gwahanol i deithio y dyddiau hyn. Diolchwyd yn gynnes iawn iddo gan Gwyndaf Williams.

Bydd y cyfarfod nesaf ymhen y mis yn cael ei noddi gan Yr Acaademi, gyda Geraint Jones, Trefor, yn annerch ar y testun, 'Cyrn y Diafol'.

CAPEL Y CYSEGR. Roedd nifer dda o aelodau'r capeli lleol a chyfeillion yn yr Oedfa Gymun fore dydd Nadfolig. Y Parchedig Marcus Wyn Robinson oedd yng ngofal y gwasanaeth ac, yn dilyn gair o groeso gan Geraint Elis ar ran Y Cysegr, cymerwyd rhan gan Ieuan Williams, Capel Bethel (A); Delyth Williams, Capel Saron a Gwyneth Jones, Capel Seion. Darllenwyd rhannau o'r Ysgrythur gan J. Elwyn Hughes a Rita Dauncey Williams, Capel Y Cysegr.

Dosbarthwyd yr elfennau i dros chwe deg o bersonau gan Richard Lloyd Jones a Geraint Elis, a'r organydd oedd Glenys Griffiths. Addurnwyd y Capel yn chwaethus iawn gan Edwina Morris a braf oedd cael addoli a chymuno mewn awyrgylch gynnes a chlos. Diolch yn arbennig i ddarpar weinidog Y Cysegr am ymgymeryd â'r gwasanaeth.

Parhad ar dudalen 23

Mynd ar eich beic i losgi calorïau'r Nadolig

DROS GYFNOD y Nadolig, fe fydd mwy na deg miliwn o drycwn wedi cael eu bwyta yn y DU. Ar ôl gwledda cymaint, fe fydd nifer o bobl yn chwilio am ffyrdd o losgi rhywfaint o'r calorïau ychwanegol yna. A pha well ffordd o wneud hyn na mentro ar eich beic i weld rhai o olygfeydd mwyaf bendigedig Cymru?

Mae'r Cyngor Cefn Gwlad yn ariannu gwith a fydd yn gwella cyflwr dau o lwybrau cyhoeddus 'Lonydd Glas' Gwynedd – sef Lôn Menai a Lôn Eifion.

Cyngor Gwynedd sy'n cynnal y gwaith. Bydd giatiau mochyn yn cael eu dosodli gan fynedfa tarmac, gan ei gwneud hi'n haws i feiciau, pramiau a chadeiriau olwyn gael mynediad.

Mae'r gwaith hefyd yn cynnwys:

- Paentio symbolau a llinellau ar hyd y llwybr;
- Ailosod rhannau o'r ffensys, pyst a rheiliau;
- Creu rampiau cyfymder;
- Torri gordyfiant;
- Symud prennau, canghennau a sbrwiel ymaith.

Yn ôl Molly Lovatt, Swyddog Hamdden a Mynediad y Cyngor Cefn Gwlad: *'Fe fydd y gwelliannau'n annog mwy o bobl i fwynhau golygfeydd ysblennydd cefn gwlad Gwynedd mewn ffordd ganaliadwy. Gallwch losgi 400 o galorïau bob awr wrth feicio ar dir gwastad – ac fe fydd hyn yn rhoi hwb i iechyd a lles y defnyddwyr. Ac wrth ddenu mwy o feicwyr, fe fydd yr ecommi leol hefyd ar ei hennill.'*

Medd Richard Glynne Jones, Swyddog Datblygu Beicio a Theithio Gwyrdd Cyngor Gwynedd: *'Fe fydd y gwaith yma'n gwella diogelwch y llwybrau ac yn eu gwneud yn haws eu defnyddio, gan alluogi'r cyhoedd i fwynhau mwy ar y Lonydd Glas. Yr un pryd, fe fydd gwelliannau o'r fath yn cyfrannu at rôl y Lonydd Glas o ran helpu i ddiogelu'r bywyd gwyllt amrywiol a geir ar hyd ymylon y llwybrau.'*

Cwblhawyd y gwaith ar Lôn Las Menai yn gynharach eleni a bydd Lôn Las Eifion yn barod yn y Flwyddyn Newydd.

Llwybr 6.5 cilomedr o hyd yw Lôn Las Menai, ac mae'n rhedeg rhwng tref hanesyddol Caernarfon a phentref Y Felinheli. Llwch wedi ei gywasgu yw deunydd y llwybr, ac mae'n dilyn Y Fenai gan arwain trwy ardaloedd trefol a llecynnau cefn gwlad fel ei gilydd. Yn y pentref ei hun, fe fydd y llwybr yn eich tywys trwy Ffordd y Traeth at y Stryd Fawr, cyn ailymuno â'r llwybr llwch wrth ymyl y cae chwarae.

Mae'r Lonydd Glas, a grëwyd ar hyd hen reilffyrdd, yn rhan o rwydwaith helaeth o lwybrau beicio a cherdded sy'n ymestyn am 50.5 cilomedr ar draws Gwynedd.

Ceir arwyddion ar eu hyd, a gellir cael llawer o wasanaethau cyhoeddus – er enghraifft ffonau a siopau – mewn pentrefi ar hyd y llwybr.

- Ar feic, gallwch deithio hyd at 1037 cilomedr ar yr un ynni ag y byddech yn ei ddefnyddio wrth losgi un litr o bethrol.
- Mae'r Rhwydwaith Beicio Cenedlaethol enwog, Lôn Las Cymru neu Lwybr 8, yn eich tywys o Gaergybi i Gaerdydd. Rhwydwaith lleol yw'r Lonydd Glas o fewn y llwybr cenedlaethol. www.systrans.org.uk.
- Mae'r Cyngor Cefn Gwlad yn hyrwyddo amgylchedd a thirweddau Cymru a dyfroedd ei glannau fel ffynonellau cyfoeth naturiol a diwylliannol, fel sail i weithgarwch economaidd a chymdeithasol, ac fel llefydd y gellir hamddena a dysgu ynddynt. Ein nod yw gwneud yr amgylchedd yn rhan werthfawr o fywydau pawb yng Nghymru. Gellir cael mwy o wybodaeth am ein gwaith ar www.ccw.gov.uk.
- Cyngor Gwynedd – Mae'r Awdurdod wedi cydnabod pwysigrwydd beicio o'r cychwyn – nid yn unig y teithiau byrion hynny a wneir yn lleol, ond hefyd trwy gyfrwng y buddion a ddaw yn sgil twristiaeth gweithgareddau. Yn ychwanegol, gall beicio ar hyd Lonydd Glas a lonydd cefn gwlad Gwynedd gyfrannu at iechyd a lles pobl yr ardal.



GWYNANT PIERCE

Cynyrchion Coed:
Gatiau, Ffensus ac ati
am brisiau cystadleuol

Uned 1, Fferm Bryn Afon
LLANRUG
Ffôn: (01286) 674183
(0589) 899901

CARPEDI GLÂN ERYRI

- PELLTER DDIM YN BROBLEM
- DIM UN DASG YN RHY FACH

CWMNI LLEOL

ffôn
07917116615

ebost: carpediglaneryri@hotmail.com

AMCAN BRIS AM DDIM

CAEATHRO

Clive James, Hafan, Bryn Gwna.
Ffôn: (01286) 679501 (gwaith). 677438 (cartref)

TYNFA MISOL. Enillwyr Tynfa Misol Pwllgor Cae Chwarae Caeathro am fis Rhagfyr oedd: £40: (96) Norma Evans, Llecyn Clyd; £25: (98) Iona Ceiriog, 4 Erw Wen; (15: (40) Arwel Griffith, 4 Tai Glangwna; £5: (107) Keith Jones, Bodawel.

Y canlynol oedd yn llwyddiannus gyda'r Bonws Nadolig o £10 yr un: (6) Viv Morgan, Tyddyn Uchaf; (48) Wil Hughes, Cefn Gwern; (30) Glyn Evans, Llwyn Alice; (39) Dic Jones, Gregws; (108) Tŷ'r Ysgol; (10) Dafydd Morris, Frondeg; (73) Marian Huws, Tŷ Mawr; (54) Peris Thomas, 4 Bryn y Gof; (28) Oliver Thomas, Llwyn Celyn; (62) Jason Thorman, 5 Erw Wen.

Enillwyr Tynfa mis Ionawr oedd: £40: (34) Aled Thomas, Llwyn Onn, Stad Glandŵr; £25: (19) Karen Jones, Plas Glangwna Uchaf; £15: (111) John Morris, 7 Bryn y Gof; £5: (108) Tŷ'r Ysgol.

NEWID SWYDD. Ar ô blynyddoedd lawer o godi'n blygeiniol er mwyn dosbarthu'r post i drigolion y fro, mae Norman Hughes, Llwyngele, wedi newid ei swydd. Ers dechrau'r flwyddyn mae o wedi dechrau gyrfa newydd fel Swyddog Cefnogol Cymunedol gyda Heddlu Gogledd Cymru.

CYDYMDEIMLWN yn ddiffuant â theulu Dolgynfynydd Uchaf ar farwolaeth Selwyn Thomas.

Y GWRTHRYFELWYR. Bu hogia lleol Caeathro: Owain Jones, Daniel Griffiths a Jac Jones, gyda Rhodri Farrer o Gaernarfon, yn perfformio gyda'u band, 'Rebellion' ym Mhafiliwn Llangollen ar 16 Rhagfyr. Maent hefyd yn cystadlu mewn 'Brwydr y Bandiau' o dan 16 oed ar 27 Ionawr. Llongyfarchiadau mawr iddynt a phob lwc i'r dyfodol.

PEN-BLWYDDI O BWYS. Yn ystod mis Rhagfyr cafodd Mrs Eirlys Pritchard, 8 Bryn y Gof, ei phen-blwydd yn 80 oed. Hefyd, ym mis Ionawr cyrhaeddodd Mrs Ellen Burke, Arosfa, Caeathro Bach ei 80 mlwydd oed. Yn ogystal mae Iona Ceiriog, Erw Wen, wedi dathlu ei phen-blwydd yn 40 oed.

ADREF O'R YSBYTY. Croeso adref i 1 Stad Glandŵr i John Evans ar ôl cyfnod mewn ysbyty.

CYDYMDEIMLWN â Tracy Jones, Islwyn, Stad Glandŵr, ar farwolaeth ei thad ar ôl cyfnod mewn ysbyty.

TRIGOLION NEWYDD. Croeso i Huw Edwin a'i wraig, Sue, fel preswylwyr newydd rhif 4 Stad Glandŵr.

GWASANAETHAU'R CAPEL. Cynhelir y gwasanaethau canlynol yn ystod mis Chwefror:

4: 11.00 Ysgol Sul
2.00: Parch Emrys Thomas
11: 11.00 Ysgol Sul
18: 2.00: Parch Reuben Roberts (Cymun)
25: Dim Gwasanaethau

Pryd wnaethoch chi gymryd

golwg ...

... ar Gymru a'ch ardal chi?

Mae Golwg wedi newid, gyda rhagor o straeon a mwy o'r rheiny'n dod o'ch ardal chi

Dyma rai sydd wedi ymddangos yn y rhifynnau diwetha' ...

Eisiau gweld mwy?

Dyma restr o'r siopau lleol lle mae Golwg ar gael. Os na allwch ei weld, gofynnwch!

- Palas Print, Caernarfon
- Spar Llanrug
- Spar Llanberis
- Snowdon Honey Farm, Llanberis
- Premier Late Shop, Deiniolen
- Garej Beran, Deiniolen
- Swyddfa Bost Brynrefail
- Swyddfa Bost Bethel, Saron
- Siop Twthill, Caernarfon
- Castle News, Caernarfon
- Richards, Caernarfon
- Roberts y Newyddion, Caernarfon
- Siop Iwan, Caernarfon
- W H Smith, Caernarfon
- Post Bach Newsagents, Caernarfon
- Min y Nant Stores, Caernarfon
- Gwalia Garage, Caeathro
- Siop Gwyled, Rhostryfan
- Swyddfa Bost Groeslon
- Safeway, Caernarfon
- Tesco, Caernarfon
- Costcutter, Caban, Llanberis

Os nac oes siop yn gyfleus, gallwch archebu trwy'r post – 01570 423529 neu www.golwg.com

bob dydd iau

PENISARWAUN

Mrs Ann Evans, Sycharth. Ffôn: (01286) 872407

PÊL BONWS LOTERI.
Llongyfarchiadau i enillydd mis Rhagfyr, (rhif 14): Eric Jones, 17 Bryntirion.

PRIODAS ARIAN.
Llongyfarchiadau i Wil a Jean, 24 Bryntirion ar ddathlu eu Priodas Arian ar 6 Chwefror. Sws fawr gan Haydn, Sean a Jordan a'r teulu oll.

CYDYMDEIMLIR yn ddwys â Mrs Catherine Williams, 20 Bryntirion, ar golli mab-yng-nghyfraith, Mr Richard Healy o Gaernarfon.

DEUNAW OED. Llongyfarchiadau a phob bendith i Sera Woodcock ar achlysur ei phen-blwydd yn ddeunaw oed ar 3 Chwefror.

YSGOL SUL BOSRA. Wedi Gwasanaeth Nadolig yn olrhain hanes y Garol hyfryd 'Dawel Nos', ailgychwynnwyd yr ysgol Sul ar 14 Ionawr a chafwyd cyfle i olrhain hanes Santes Dwynwen a gwneud cardiau arbennig ar gyfer 25 Ionawr. Gobeithir trefnu gweithgareddau ar gyfer 2007 tuag at Apêl y Capel.

PWYLLGOR NEUADD. Enillwyr Clwb Cant Ionawr oedd 1. Mrs Gwyneth Jones, 25 Bryntirion; 2. Iwan Parry, Tawelfa; 3. Philip Jones, 8 Bryntirion.

Atgoffir chi yn garedig yr adnewyddir yr aelodaeth o fis Ionawr: 50c y mis; £1 y flwyddyn neu drwy Archeb Banc. Croesewir aelodau newydd a diolchir i'r ffyddloniaid.

Bwriedir cynnal 'Ras Peli' i lawr Lôn Cae Hywel ar nos Wener, 16 Mai a, 6.00 o'r gloch. Pris 'pêl' fydd £1. Gobeithio y cawn eich cefnogaeth i'r weithgaredd newydd hon.

Cynhaliwyd Cyfarfod Cyhoeddus nos Lun, 22 Ionawr, a chafwyd y cofnodion yn rhai cywir.

EISTEDDFOD BENTREF.
Cynhelir yr Eisteddfod eleni nos Wener, 11 Mai. Nodwch y dyddiad pwysig hwn yn eich dyddiadur! Bydd ymarferion yn cael eu cynnal ar nos Lun a Mercher i blant ac oedolion. Dowch ac ymunwch yn yr hwyl.

NOSON GOFFI. Cynhelir Noson Goffi er budd yr Eisteddfod Bentref nos Iau, 15 Mawrth am 6.30 y.h. yn y Neuadd Gymuned. Bydd cyfle i chwi gael Testunau ar y noson.

GWELLHAD. Anfonir ein cofion anwylaf at Mrs Annie Hughes, Cae Hywel, ac Anest Bryn, Tai Arthur, wedi'u triniaethau yn Ysbyty Gwynedd. Brysiwch wella. Ein cofion annwyl hefyd at bawb arall sy'n teimlo'n sâl. Brysiwch wella.

EIN LLONGYFARCHIADAU fel pentrefwyr i Dr Huw Tegid, Arwel, ar ennill Doethuriaeth gan Brifysgol Bangor ar Hanes yr Eglwys. Pob bendith i'r dyfodol.

EGLWYS SANTES HELEN.
Llongyferchir Dr Huw Tegid Roberts BA, MTh. ar ennill ei radd Doethuriaeth. Bu Huw yn addoli yn yr eglwys ers ei blentyndod ac mae bellach yn Warden ac yn cynorthwyo yn yr ysgol Sul ac yn arwain gwasanaethau pan fo'r angen.

Ar 18 Chwefror bydd Warden arall yr eglwys, Mrs Mary Davies, yn dathlu pen-blwydd arbennig. Ers nifer o flynyddoedd mae 'Anti Mary' wedi bod yn cyflawni dyletswyddau'r Wardeniaeth yn ffyddlon a dymunir yn dda iddi i'r dyfodol. Gwerthfawrogir y rhai sy'n cadw ein heglwysi'n fyw ac ar agor.

PEN-BLWYDDI ARBENNIG.
Llongyferchir Mrs Ruby Walters, 3 Llys y Gwynt, a Mrs Mary Davies, Llys y Gwynt ar eu pen-blwyddi arbennig ar 7 ac 18 Chwefror.

I genedlaethau o blant Ysgol Tan y Coed ac Eglwys Santes Helen, yr un yw Anti Mary o hyd – ei gwallt yn dal yn ddu, ei thraed yn sionc a'i hatgofion am blant y pentref yn fyw yn ei chof. Rydym fel pentrefwyr yn dymuno pen-blwydd hapus iawn i'r ddwy ohonoch.

FFILM ARBENNIG. Gobeithio i bawb ohonoch fwynhau y ffilm awr a hanner, un o uchafbwyntiau S4C ar ddydd Nadolig, sef *Llythyrau Ellis Williams*, Fferm y Gors, Waun. Ffilm yn seiliedig ar gasgliad o lythyrau go iawn a anfonwyd adref gan Ellis Williams at ei deulu yn adrodd ei hanes.

Pan oedd yn 28 oed, ac wedi'i gyhuddo o botsio ffesant ar dir Stad y Faenol, fe'i gorfodwyd i adael Penisarwaun neu wynebu colli fferm y Gors, oedd yn eiddo i'r stad. Felly, yn 1908, aeth i Batagonia ond daeth cysgod y Rhyfel Mawr yn 1914 a chafodd ei ladd ym Mrwydr y Somme ac yntau ond yn 38 mlwydd oed.

Roedd y llinyn cerddorol cryf oedd yn rhedeg trwy'r ffilm yn ychwanegu at ei chryfder. Braf iawn oedd gwrando ar Ynyr, aelod o Brigyn, yn canu un o'r caneuon. Mae CD o'r gerddoriaeth ar gael i'w phrynu.

Llongyferchir Dyfrig Evans, Penygroes, oedd yn actio rhan y prif gymeriad, Ellis Williams. Mae Dyfrig yn fab i Glenys Evans (Bryntirion gynt). Dymunir dyfodol disglair iddo fel actor.

Ysgol Sul Bosra, yn olrhain hanes y garol 'Dawel Nos' gyda Tudur Huws Jones a'i gitâr – fel Franz Gruber.

LLANRUG

Eryl Roberts, 3 Bryn Moelyn. Ffôn: (01286) 675384

EISTEDDFOD BENTREF

Dymuna Pwyllgor Eisteddfod Llanrug a Chwm y Glo ddiolch o waelod calon i holl noddwyr Eisteddfod 2006, sef

Arvonia Coaches; Becws Bryngwyn; Ciropodydd, E. Ll. Parry; Edgar a Pat, Swyddfa'r Post, Llanrug; Gwynfa Pritchard, Gwerthwr Llefrith; Haf Roberts, Cwmni Cyfieithu Sillaf; Irfon Hughes, London Garage, Cwm y Glo; Londis, Llanrug; Merched y Wawr, Llanrug; Oriel Cwm y Glo; Bryn Williams, Siop Gig Wavell.

Canlyniadau Llwyfan

Dosbarth Derbyn: Unawd: 1. Elain; 2. Iwan; 3. Leisa; *Adrodd*: 1. Leisa; 2. Iwan; 3. Elain.

Blwyddyn 1 a 2: Unawd: 1. Lleucu Brookes; 2. Ceri Griffith; 3. Miriam Catrin. *Adrodd*: 1. Ceri; 2. Beca; 3. Harri.

Blwyddyn 3 a 4: Unawd: Gwern Brookes; 2. Gwydion Williams; 3. Llinos Roberts. *Adrodd*: 1. Math Roberts; 2. Osian Edwards; Cydradd 3. Gwydion Williams ac Owain Gibbard.

Blwyddyn 5 a 6: Unawd: 1. Anna Wyn Jones; 2. Mari Gibbard; 3. Hanna Huws Tulliver. *Adrodd*: 1. Anna Wyn Jones; 2. Hanna Huws Tulliver; 3. Bethan Roberts.

Cynradd / Uwchradd. Deuawd: 1. Hanna Huws Tulliver a Mari Elin Gibbard.

Cynradd. Parti / Côr Unsain: 1. Parti Bl.5; 2. Parti Bl.6; 3. Parti Bl.3 (oll o Lanrug). *Parti Llefaru:* 1. Parti'r Genethod; 2. Parti'r Bechgyn (oll o Lanrug. *Unawd Offerynol:* 1. Math Roberts; 2. Chloe Roberts (bl.6); Cydradd 3; Deian Williams a Beca George. *Parti Dawns Werin:* 1. Parti Sgidia' Swnllyd.

Unawd/Deuawd Stepio Cynradd/ Uwchradd: 1. Lois Medi Roberts a Mared Lois Williams. *Dawnsio Disgo Unigolyn/Grŵp:* 1. Chloe Roberts.

Uwchradd. Cyflwyniad Cerddorol Unigol: 1. Rhodri Brookes; 2. Heledd Anna Roberts. *Unawd Offerynnol:* 1. Cheryl Roberts; 2. Elain Roberts; 3. Rhodri G. Williams.

Canlyniadau Llenyddiaeth

Rhyddiaith a Barddoniaeth.

Blwyddyn 3 a 4: 1. Hannah Lloyd Owen, Llanrug; 2. Caitlin, Cwm y glo; 3. Lilac, Cwm y glo.

Blwyddyn 5 a 6: 1. Emma Smith; 2. Katie Roberts; 3. Rebekha Owen (oll o Gwm y glo).

Blwyddyn 8 a 9: 1. Llywelyn Williams; 2. Ffion Haf Roberts.

Blwyddyn 10 ac 11: 1. Siôn Emyr; 2. Caron Williams; Cydradd 3. Catrin Cadmore a Lois Angharad.

Blwyddyn 12 a 13: 1. Cai Dyfan.

Tlws yr Eisteddfod: 1. Llywelyn Williams.

Cadair yr Eisteddfod: 1. Cai Dyfan; 2. Siôn Emyr.

Arlunio

Meithrin/Derbyn: 1. Leisa Gwenllian; 2. Rhydian Llŷr Williams; 3. Guto Whiteside Thomas.

Blwyddyn 1 a 2: 1. Siôn Eifion Land; 2. Siôn Eifion Land; 3. Miriam Catrin.

Blwyddyn 3 a 4: 1. Math Roberts; 2. Holly Smith; Cydradd 3. Corrie Rose a Lee Williams.

Blwyddyn 5 a 6: 1. Christopher Hulme; Cydradd 2. Sophie a Chloe; 3. Iwan Rhys Jones.

Blwyddyn 7 ac 8: 1. Rhodri Llŷn Brookes; 2. Deian Williams; 3. Tomos Huws Tulliver.

Blwyddyn 9 a 10: 1. Llywelyn Williams; 2. Llywelyn Williams.

Cwpan Emma Bernard i'r Arlunydd Gorau yn yr Eisteddfod: Siôn Eifion Land.

Dyluniad Cyfrifiadurol

Babanod: 1. Siôn Eifion Land; 2. Osian Wyn Parry Evans; Cydradd 3. Ffion Haf Roberts a Robin Whiteside Thomas.

Adran Iau: 1. Mared Lois Williams; 2. Anna Wyn Jones; Cydradd 3. Owain Bryn Gibbard a Mari Elin Gibbard.

Uwchradd: 1. Deian Williams; 2. Darren Jones.

Coginio

Meithrin/Derbyn: Cydradd 1. Enlli Gwyn a Iolo Garton Jones; 2. Anna Whiteside Thomas; 3. Guto Whiteside Thomas.

Blwyddyn 1 a 2: 1. Deio Garton Jones; 2. Siôn Eifion Land; Cydradd 3. Teleri Medi Jones a Gethin Wyn Jones.

Blwyddyn 3 a 4: 1. Gwydion Rhys Williams; Cydradd 2. Math Roberts ac Owain Bryn Gibbard; 3. Nia Haf Williams.

Blwyddyn 5 a 6: 1. Rhun Meirion Williams; Cydradd 2. Mared Lois Williams a Mari Elin Gibbard; Cydradd 3. Rhun Meirion Williams ac Anna Wyn Jones.

Uwchradd: 1. Deian Illtud Williams; 2. Rhodri G. Williams; 3. R. Llywelyn Williams.

Agored. 1. Heledd Anna Roberts; 2. Siân Wheway; 3. Rhian Whiteside Thomas. *Agored Dynion:* 1. Dafydd M. Roberts; Cydradd 2. Vaughan Willims a Dyfed Whiteside Thomas; 3. Dylan Wyn Williams. *Agored*: 1. Beca Llwyd; 2. Mannon Williams. *Agored*: 1. Dafydd M. Roberts; 2. Mannon Williams; 3. Luned Gwilym Williams. *Agored. Diod:* 1. Dafydd M. Roberts.

Tri Dimensiwn

Meithrin/Derbyn: 1. Owain Cynfab; 2. Anna Whiteside Thomas; Cydradd 3. Leisa Gwenllian a Guto Whiteside Thomas.

Blwyddyn 1 a 2: 1. Ryan Robinson; Cydradd 2. Aled Rhun Williams a Catrin Smith; Cydradd 3. Beca Llwyd a Teleri Medi Jones.

Blwyddyn 3 a 4: 1. Math Roberts; Cydradd 2. Holly Smith ac Osian Edwards; Cydradd 3. Owain Gibbard a Robbyn Birnie.

Blwyddyn 5 a 6: 1. Emma Smith; 2. Rhun Meirion Williams; Cydradd 3. Tomos Alun Jones a Hanna Huws Tulliver.

Uwchradd: 1. Elain Roberts; 2. Deian Williams.

Tecstiliau

Adran Babanod: Cydradd 1. Gethin Wyn Jones a Siôn Eifion Land; 2. Llinos Elin Roberts; Cydradd 3. Ffion Haf Roberts a Guto Whiteside Thomas.

Adran Iau: 1. Anna Wyn Jones; 2. Mari Elin Gibbard.

Uwchradd: 1. Ffion Roberts.

Agored: 1. Julie Jones.

Ffotograffiaeth

Agored: 1. Guto Whiteside Thomas; 2. Irfon Jones; Cydradd 3. Bethan Jones ac Irfon Jones.

Gosod Blodau

Agored: 1. M. Parry; 2. Meirwen Lloyd; 3. Cheryl Williams.

Rhestr Tlysau 2006

Cadair yr Eisteddfod a £20. I'r cynnyrch llenyddol gorau, Blwyddyn 10 a 13: Cai Dyfan.

Tlws yr Ifanc a £10 i'r cyntaf a £5 i'r ail. I'r cynnyrch llenyddol gorau, Blwyddyn 3 i 9: Llywelyn Williams.

Cwpan Emma Bernard. I'r arlunydd gorau yn adran yr ysgolion (i'w chadw am flwyddyn): Siôn Eifion Land.

Tlws. Perfformiad Offerynnol gorau: Math Roberts.

Tlws. Unigolyn gorau yn y cystadlaethau canu ac adrodd (Cynradd): Anna Wyn Jones.

Cadair Lowri. Enillydd yr Unawd Blwyddyn 1 a 2 (i'w chadw am flwyddyn): Lleucu Brookes.

GWASANAETH LLEOL AR GYFER
PARTÏON • PRIODASAU
PEN-BLWYDD
BEDYDD • DAWNS • GWYLIAU

RHOSTIO MOCHYN
AR GYFER
POB ACHLYSUR

* Cig o ffermydd lleol
* Partïon rhwng 40 a 400!
* Gyda saws afal a stwffin mewn rholiau
* Efo salad hefyd os dymunwch

DEWCS, MAE O'N FLASUS!
Cysylltwch â
JOHN BRYNAFON
LLANRUG
Y DYN CIG ar 675190 / 673188
Ffôn symudol: 07798 718788
wefan: www.ydyncig.co.uk

Fframia **Gwasanaeth Fframio Lluniau**

Arbenigwyr ar fframio gwaith edau a nodwydd

Nifer helaeth o luniau ar werth • Dewis eang yn cynnwys:
WILLIAM SELWYN • KEITH ANDREW
KEITH BOWEN • ROB PIERCY

PARC PADARN, LLANBERIS (870922)
(Ar gau dydd Sul a dydd Llun yn ystod y gaeaf)

BRYNREFAIL

Mrs Lowri Prys Roberts-Williams, Godre'r Coed. Ffôn: 870580

PROFEDIGAETH. Diridau cyn y Nadolig daeth y newydd trist am ymadawiad Blodwen Hughes, 12 Trem Eilian, yn Ysbyty Eryri yn 89 mlwydd oed. Roedd y brofedigaeth hon yr ail i'r teulu o fewn llai na mis, gan mai ar 6 Rhagfyr y bu farw ei phriod, y diweddar Dafydd Huw Hughes.

Roedd Blodwen yn hanu o'r pentref ac wedi cyfnod o fyw yn y Felinheli a Thanycoed, dychwelodd i Frynrefail lle'r oedd nifer helaeth o'i theulu wedi ymgartrefu ac, yn ei blynyddoedd olaf, bu eu gofal yn fawr ohoni. Bu ei hangladd cyhoeddus yn Eglwys Sant Mihangel, Llanrug, ddydd Gwener, 29 Rhagfyr, ac yn dilyn yn y fynwent.

Cydymdeimlwn fel ardal yn ddwys iawn â'i phlant Pat, Allan, Geraint a Carol a'u teuluoedd yn eu profedigaeth, ynghyd â'i chwaer, Grace Ellen Pritchard, sydd yn cartrefu yng Nghartref Nyrsio Penisarwaun.

YR EGLWYS BRESBYTERAIDD.

Gwasanaeth Noswyl Nadolig. Cafwyd oedfa foreol ar 24 Rhagfyr i ddathlu Gŵyl y Geni yn Ystafell Gynhadledd y Caban. Daeth cynulliad da ynghyd ac roedd yn bleser cael yr ieuenctid gyda ni yn bresennol i gymryd rhan.

Roedd yn gyfarfod eithaf anarferol gan fod y gynulleidfa yn eistedd o gwmpas y bwrdd hir lle'r oedd eitemau perthnasol i Noswyl Nadolig, Dydd Nadolig a Gŵyl San Steffan wedi eu harddangos. Ymhlith rhai o'r cyfraniadau amrywiol soniwyd am arwyddocad elfennau fel y goeden Nadolig a'i goleuadau, y canhwyllau, y celyn, yr eiddew a'r uchelwydd, traddodiad y canu carolau a chyflwyno anrhegion – arferion paganaidd ar un cyfnod ond wedi eu mabwysiadu gan Gristnogion yn ddiweddarach. Cafwyd darlleniadau o'r Ysgrythur, gweddïau, a chanwyd carolau cynulleidfaol i gyd-fynd â'r gwahanol themâu.

I gloi'r gwasanaeth ar thema Gŵyl San Steffan roedd y pwyslais ar anghenion ein byd heddiw ac ar Apêl yr Eglwys Bresbyteraidd yn 2007 i gynorthwyo trigolion Sierra Leone – gwlad dlotaf ein byd.

Cymerwyd rhan gan Lowri Roberts Williams, Rhian George, Norman Williams, Anna George, Jennie Angharad Roberts, Ifanwy Jones, Gwyn Hefin Jones, Dafydd Ellis, Verna Jones, Richard Wyn Evans, Ellen George, Nia George, John McBryde ac Emyr Williams. Talwyd gair o ddiolchgarwch cynnes gan Gwyn Hefin Jones i bawb am eu cyfraniad i oedfa unigryw, am naws arbennig y gwasanaeth ac i lywydd y mis, Lowri Roberts Williams, am baratoi'r sgript ar lluniaeth ar y terfyn.

OEDFAON CHWEFROR

4: 5.30. Parchg Gwilym Parry, Llanfairfechan.
11: 5.30. Parchg Harri Parri, Caernarfon
Gweinyddir y Sacrament o Swper yr Arglwydd
18: 5.30. Mr Robert M. Morris, Penygroes
25: 5.30. Mr Glyn Owen, Llanwnda.

MWY O LANRUG

Eryl Roberts, 3 Bryn Moelyn. Ffôn: (01286) 675384

DIOLCHIADAU. Dymuna Cledwyn Jones, Peris, 56 Glanffynnon, ddiolch i'w deulu a ffrindiau yn Llanrug a Llanberis a'r cylch am y cardiau, rhoddion a galwadau ffôn. Mawr ei ddiolch i Staff Ward Glyder, Ysbyty Gwynedd, am eu gofal diflino a diolch yn arbennig i Dr Robin Parry am ei ofal ac i hogiau'r Ambiwlans sydd wedi gwneud llawer galwad yma yn ystod y misoedd diwethaf.

PEN-BLWYDD ARBENNIG. Llongyfarchiadau a phob dymuniad da i Mrs Mary Jones o Gartref y Foelas (Caernarfon gynt) ar ddathlu ei phen-blwydd yn 90 oed ar 29 Ionawr. Daw'r cyfarchion oddi wrth Doug ac Avril, 14 Minffordd a'r teulu oll.

MARWOLAETHAU. Bu farw Mrs Violet Jones, Parc gynt, mewn cartref preswyl yng Nghaernarfon ac ôl gwaeledd hir. Gweddw Robert Jones a mam annwyl Sheila a Terrence. Bu Mr a Mrs Jones yn cadw busnes am flynyddoedd yn y siop fach ar waelod gallt Pontrhythallt ac yn fawr iawn eu parch. Cydymdeimlwn â'r teulu a ffrindiau.

Yn sydyn, wedi gwaeledd byr, bu farw Mr Eddie Owen, Ferndale, Ffordd Glanffynnon. Gweddw Ceri a thad annwyl Iawn i Gwyndaf a Glenda, Dafydd ac Einir a thaid annwyl y plant. Roedd yn ŵr tawel ac addfwyn bob amser. Bydd yn golled fawr i chi fel teulu ac i'w ffrindiau a chymdogion ac i'r capel.

Cydymdeimlwn â Sheila Williams a Donald Pritchard a'r teulu yn eu profedigaeth o golli eu chwaer, Jennie Oliver, yn Lloegr yn ddiweddar. Profedigaeth sydyn eto ar ôl colli eu brawd yn ddiweddar.

HAFAN ELAN. Ar ddydd Iau yn y Ganolfan, bydd y trigolion a'u ffrindiau yn ymgynnull i gael paned, sgwrs a gêm o Fingo. Mrs Joan Williams fydd yn trefnu a Mr Gordon Carter, Didfa, yn galw. Mae pawb yn helpu drwy'i gilydd ac mae'n bleser bod yno yn eu mysg.

Cafwyd te Nadolig ac roedd Mrs Joan Williams wedi coginio dwsinau o gacennau, sgons a bara brith a Gordon wedi gwneud y brechdannau. Roedd anrheg raffl i bawb a chafwyd prynhawn bendigedig.

PARTI NADOLIG HAFAN ELAN. Trefnwyd y Parti Nadolig gan Gwilym Rees Parry, Moranedd, a Mark Roberts, Tan y Coed. Roedd y fwydlen yn cynnwys dewis o gawl, melon neu paté i gychwyn. Cinio Nadolig efo twrci a'r cwbwl sy'n mynd gydag o ac yna pwdin Dolig, te neu goffi, mins peis, gwin gwyn a choch!!. Gwledd! Roedd y bwyd i gyd wedi ei ddarparu a'i goginio yng nghartrefi'r ddau – 4 twrci i gyd!

Cafwyd adloniant gan Ray John, Llanberis, ac enillydd y brif raffl oedd Gordon Carter, sef twrci wedi ei goginio. Roedd sawl gwobr arall hefyd ac fe hoffai'r trefnwyr ddiolch yn arbennig i Bryn, Siop Gig; Gareth Price, Rheolwr Londis; Pat ac Edgar, y Post; Polly, Siop y Sgwâr, a Cliff ac Elinor Williams, Rhes Rhythallt, ac i sawl un arall a gyfrannodd at lwyddiant ysgubol y noson: fel Robin Williams yr Ysgol Gynradd am fenthyg y byrddau, Dylan's Prifysgol Bangor am fenthyg y llestri a'r gwydrau – drwy Mark Roberts. I Gareth Williams am fod yn Siôn Corn; i Carys, Gwyneth a Tracey (Oswalds) am brynu 50 o wobrau raffl ynghyd â Gwilym a Mark, a'u lapio i gyd. Daeth y tair yno i helpu i rannu'r bwyd hefyd. Ac i Dora Roberts am ei chymorth hithau.

Diolch o galon i Gwilym a Mark am y cwbwl. Cymerodd ddau ddiwrnod llawn i ddarparu'r wledd.

ADREF O'R YSBYTY. Da yw deall fod Mrs Mai Jones, Hafan Elan (Ogwen gynt) wedi dod adref o'r ysbyty ac wedi mynd i'w chartref yn dilyn ysbaid gyda Beryl a'r teulu.

CYFARFOD CYHOEDDUS. Cynhaliwyd cyfarfod cyhoeddus yn y Sefydliad Coffa nos Fercher, 17 Ionawr. Trafododd Dafydd Wigley y prif newidiadau fydd yn digwydd yn y Cynulliad ym mis Mai, pan gaiff Llywodraeth Cymru yr hawl i lunio deddfau. Bydd hyn yn rhoi llawer mwy o bwysau ar aelodau'r Cynulliad ond bydd yn gam pendant tuag at Senedd go iawn, ac yn sicr yn fanteisiol i bobl Cymru. Cafwyd amryw o gwestiynau o'r llawr ynglŷn â chyfraith a threfn, addysg a'r drefn newydd a ddaw i rym ymhen ychydig fisoedd.

DIOLCH. Dymuna Mrs Buddug Hughes, Isallt, ddiolch o galon i bawb a fu'n garedig wrthi yn ystod ei chyfnod yn yr ysbyty ac ar ôl dod adref. Diolch yn fawr am y cardiau, y llythyrau a'r galwadau ffôn a dderbyniodd.

HAFAN ELAN. Dymuna trefnwyr y Parti Nadolig ddiolch yn fawr i Llinos Jones, y Warden, am bob cefnogaeth.

Siôn Corn ym mharti Nadolig Hafan Elan.

Mrs Joyce Ransom yn cyflwyno anrhegion a geiriau o ddiolch i'r ddau am eu gwasanaeth diflino drwy'r flwyddyn.

Y criw yn mwynhau'r pnawn.



Un o'r byrddau wedi ei addurno.

R.M. (DIC) PARRY

PEINTIWR AC ADDURNWR

PRISIAU RHESYMOL

TAWELFA, PENISARWAUN
Ffôn: (01286) 870846

MWY O LANRUG

Eryl Roberts, 3 Bryn Moelyn. Ffôn: (01286) 675384

DYMUNA Bet Lloyd Jones, Lyndale, Ffordd yr Orsaf, ddioch i bawb am eu caredigrwydd tuag ati dros dymor y Nadolig a hefyd ar achlysur ei phen-blwydd yn ddiweddar.

SEFYDLIAD COFFA. Enillwyr Clwb 100 am fis Rhagfyr 2006 oedd: £20: G. Davies, Bod Awel; £7: A.V. Owen, 4 Rhosrug; £5: Mrs M. Jones, Tai Minffordd. Enillwyr Ionawr 2007 oedd: £20: Mrs B. Roberts, Glanfa; £7: Mrs S. Williams, Glyn Afon; £5: M. Parry, Wenllys.

PLAID CYMRU. Bydd Cangen Llanrug o Blaid Cymru yn dathlu Gŵyl Ddewi eleni gyda gwledd o Gawl a Chân yn y Sefydliad Coffa Nos Fercher, Chwefror 28 am 7.30 o'r gloch.

Croeso cynnes iawn i bawb.

MERCHED Y WAWR. Nos Fawrth, 9 Ionawr, estynnwyd croeso i nifer dda o aelodau a ddaeth i'r Llyfrgell yng Nghaernarfon gan y Llywydd, Nan Humphreys. Llongyfarchwyd Menna ar ei pen-blwydd arbennig a dymunwyd yn dda i Megan a Gareth ar eu Priodas Ruddem. Atfgoffwyd ni ei bod ofynnol i'r Llyfr Lloffion fod yn barod erbyn 29 Ionawr.

Derbyniwyd llythyr o ddiolch gan Eirlys Pierce am gefnogaeth y gangen ac unigolion yn ei noddi tuag at waith Ymchwil Ward Alaw. Casglwyd y swm enfawr o £5,185 drwy iddi gerdded 125 milltir. Anfonwyd ein cofion gorau at Eirlys a llongyfarchwyd hi am ei hymroddiad a'i dewrder.

Gwesteion y noson oedd y Llyfrgellwyr, Nia a Rhiannon. Er bod y 'Dolig bron yn hanes bellach, roedd gweld ac arogli'r siocledi, y bisgedi a'r cnau ynghyd â'r gwin coch a gwyn yn rhoi gwên ar wyneb pawb – ac roedd rheswm arbennig am y danteithion. Swydd Nia a Rhiannon yw hyrwyddo darllen mewn plant ac oedolion drwy drafod a darllen llyfrau newydd, gan godi archwaeth at ddarllen.

Yn sicr, fe godwyd archwaeth at ddarllen ar y noson trwy ddarllen rhannau o bedwar llyfr newydd sydd ar silffoedd ein siopau a'n llyfrgelloedd.

I gydfynd â stori ysgafn, ffres 'sparclyd' cafwyd gwydraid o Cava tra bod rhan o *Y Ddraig Goch*, Emlyn Roberts yn cael ei darllen. Llyfr llawn hiwmor ac ymadroddion slic.

Yna cafwyd gwydraid o win coch 'juicy' i weddu â llyfr Bethan Gwanas, *Hi oedd fy ffrind*, dilyniant i *Hi yw fy ffrind*. Hanes difyr Nia a Non, y ddwy mor gyferbyniol.

Savignon Blanc, California a flaswyd wedyn pan fwynhawyd rhan o *Pwy Ydw i?* gan Huw Ceredig. Darllenwyd darn teimladwy a darn doniol ac fe ddaeth drosodd fel llyfr hawdd a difyr i'w ddarllen.

Rhoces Fawr gan Marged Lloyd Jones a ddarllenwyd i orffen y noson. A hithau yn 94 oed, llwyddodd yr awdur i olrhain hanes merch bedair ar ddeg oed yn colli'i mam, a ailbriododd. Mae'n gadael cartref i fyw at ei thad. Cafwyd portread manwl o'r cyfnod.

Erbyn diwedd y noson roedd y siocledi, y bysgedi y cnau a'r gwin coch a gwyn wedi gorffen a chafwyd noson hynod o ddifyr a chartrefol, a phawb yn dyheu am fynd ati i ddarllen y llyfrau a drafodwyd. Diolchwyd i Nia a Rhiannon am noson hynod o ddifyr. Enillydd y raffl oedd Ann Ifans.

Nos Fawrth, 13 Chwefror, yn y Sefydliad Coffa am 7.30, ceir hanes 'Byd a Bywyd Caradog Prichard' gan Elwyn Hughes, Bethel.

YSGOL LLANRUG.

Cyngherddau Nadolig. Bu prysurdeb mawr yn arwain at y cyngherddau. Da iawn chi, blant, am ddysgu'ch gwaith mor dda.

Cinio Nadolig. Diolch i staff y gegin am ginio Nadolig blasus iawn eto eleni.

Canu Carolau. Bu criw o'r Adran Iau yn diddanu cwsmeriaid Morrison, Caernarfon, drwy ganu carolau yn y brif fynedfa.

Hud a Lledrith. Diolch i Mr Howard Hughes am ddod draw atom cyn y Nadolig i'n diddanu efo'i driciau. Roedd pawb wedi gwirioni.

Blwyddyn Newydd Dda. Ar ddechrau blwyddyn dymunwn flwyddyn newydd dda i bawb a chroesawn pawb yn ôl i'r ysgol ar ôl y gwyliau.

Priodas. Llongyfarchiadau mawr i Miss Llinos Haf Williams ar ei phriodas â Mr Einion Evans yng Nghapel Gosen, Trefor, ar 30 Rhagfyr 2006. Dymunwn yn dda iddynt i'r dyfodol

Estyn Croeso. Rydym yn estyn croeso i ddwy fyfyrwraig o Brifysgol Bangor, sef Stephanie ac Elin, a fydd gyda ni am dair wythnos.

Diolch i'r Parchedig Robert Townsend am ddod atom i gynnal gwasanaeth boreol. Rydym yn edrych ymlaen at gael eich cwmni eto yn y dyfodol agos.

CAPEL Y RHOS (am 10 o'r gloch) Dyma drefn yr oedfaon ar gyfer mis Chwefror:

4: Mr Robert Morris;
11: Parch. Athro Euros W. Jones;
18: Mr Dave Roberts;
25: Parch. Eifion W. Williams.

Cyflwynwyd gwasanaeth yr Adfent wythnos cyn y Nadolig pan oleuwyd tair cannwyll, un ar gyfer pob darlleniad.

Ar Noswyl Nadolig, cafwyd pregeth amserol a grymus dan arweiniad y Parch. Harri Parri gyda chymun i ddilyn. Mwynhawyd mins pei a phaned yn y festri wedyn.

Yn y gwasanaeth ar fore'r Nadolig cawsom olwg ar yn ŵyl drwy lygaid y beirdd. Roedd dros ugain o blant a phobl ifanc yn bresennol – pob un wedi dod ag anrheg a dderbyniwyd gan Siôn Corn.

Cyfarfod gweddi oedd gennym ar y Sul olaf o'r flwyddyn ac ar y Sul cyntaf o'r flwyddyn newydd. Trefnwyd y cyfan hwn gan yr aelodau a diolchir yn gynnes iawn i bawb a gyfrannodd.

Rydym yn anfon ein cofion anwylaf at Mrs Megan Williams yng Nghaerdydd ac yn dymuno blwyddyn newydd da iddi. Gobeithio y cawn ei chroesawu'n ôl yn ei chartref yn fuan.

RYGARUG. Cafodd tair aelod o Rygarug wireddu breuddwyd ddechrau mis Rhagfyr pan gawson nhw ganu lleisiau cefndir i Meinir Gwilym ar raglen *Noson Lawen* arbennig ar gyfer y Nadolig ar S4C.

Llinos Haf Williams ac Einion Evans a briodwyd ar 30 Rhagfyr 2006.

CEFNOGWCH EIN HYSBYSEBWYR!

CEFNOGWCH FUSNESAU LEOL

www.ceircymru.com

Bethel (01248) 670451

(Hefyd yng Ngherrig-y-Drudion)

Fel cwmni hoffem ddiolch i'r cannoedd o gwsmeriaid a gefnogodd ein busnes dros yr 17 mlynedd diwethaf. Rydym yn fusnes Cymreig sy'n amcanu i roi gwasanaeth ceir proffesiynol ac i werthu ceir am brisiau di-guro. Mae gennym brynwyr proffesiynol yn teithio dwy fil o filltiroedd yr wythnos i chwilio am y ceir gorau am y prisiau isaf.

Dymuniadau gorau ar gyfer 2007 i ddarllenwyr *Eco'r Wyddfa* ac ystyriwch hon fel adduned blwyddyn newydd: **'Rhowch gyfle i fusnesau Cymreig lleol ddangos eu gwerth yn hytrach na chwmnïau dyfod ac archfarchnadoedd Seisnig!'**

Anna Wyn Jones, Mari Gibbard a Hanna Tulliver – gyda Meinir Gwilym tu ôl i'r llwyfan yn stiwdio Barcud yng Nghaernarfon. Dywedodd y tair eu bod wedi cael diwrnod bythgofiadwy!

JONES

DYMUNA Rhiannon, Sharon, Gwyn ac Arwel a theulu y diweddar Hugh John, 5 Ffordd Marchlyn, Caernarfon, (Maes Gwylfa gynt) ddiolch o galon i'w perthnasau a ffrindiau am bob arwydd o gydymdeimlad tuag atynt yn eu profedigaeth o golli gŵr, tad, tad-yng-nghyfraith a thaid annwyl iawn.

Diolch am yr ymweliadau, cardiau a galwadau ffôn a'r rhoddion er cof am Hugh.

Diolch i'r Parchedig John Pritchard am y gwasanaeth teimladwy ac i Gwynfor Jones o E.W. Pritchard, Llanberis, am eu trefniadau trylwyr a theimladwy.

Parti Clychau'r Grug

MAE'R AELODAU yn cael seibiant bach ar ddechrau'r flwyddyn cyn mwynhau eu swper blynyddol yn y Country Manor, Y Felinheli.

Diddanu preswylwyr dau gartref i'r Henoed oedd yr orchwyl gyntaf ym mis Mawrth y llynedd, a hynny yn Willow Hall, Caernarfon, a Chartref Nyrsio Penisarwaun. Ym mis Ebrill, cymerwyd rhan mewn Gwasanaeth Nos Iau Cablyd yng Nghapel Shiloh, Tregarth, dan ofal y Parchedig Gwynfor Williams.

Fel bo'r haf yn agosáu daeth yn amser i ddiddanu'r ymwelwyr gyda rhaglen o adloniant Cymraeg yng Ngwesty'r Victoria, Llanberis. Mae'r croeso bob amser yn un gwresog a braf yw cael cyfle i sgwrsio gyda'r ymwelwyr ar ddiwedd y noson. Cymerwyd rhan yng Ngŵyl Gorawl Eryri yn Eglwys Crist, Llandinorwig, gyda Glenys yn arwain y canu cynulleidfaol.

Fel cynlyniad i werthu raffl yn y Victoria, cyflwynwyd arian yn ôl yr arfer i bedair elusen eleni, sef Cyfeillion Ysbyty Gwynedd, Stargats Macular Disease, Cyfeillion Ysbyty Eryri a Cronfa 0G08, sef Ymchwil Canser Gynecolegol, Adran Dewi Sant Ysbyty Gwynedd: ymgyrch Eirlys Pierce, Llanrug.

Ar ddiwedd Tachwedd, cyflwynwyd noson Nadoligaidd i'r ymwelwyr ar wyliau 'Turkey a Tinsel' yng Ngwesty'r Victoria. Yno hefyd roedd Haf Thomas, ac fe aeth elw'r raffl y noson honno i elusen Haf, sef Cronfa Ysgol Pendalar.

Gyda'r Nadolig ar y trothwy braf oedd cael cyflwyno eitemau Nadoligaidd yng nghyngerdd blynyddol Eglwys Crist, Llandinorwig, ac hefyd yng Nghymdeithas Lenyddol Rhostryfan.

Os oes unrhyw Gymdeithas neu Sefydliad angen adloniant i gynnal noson, cysylltwch ag aelod o'r parti neu Glenys Griffiths ar (01248) 670102.

0 G 0 8

Eirlys Pierce yn cyflwyno siec o £5,080 i Mr Simon Leeson, Ymgynghorydd Gynecolegol a Dr Glynne Roberts, Rheolwr Cyffredinol, Gwasanaethau Merched a Theuluoedd Ysbyty Gwynedd (tuag at waith ymchwil i ganser gynecolegol). Daeth £125 arall i law ers hynny.

AR ÔL CWBLHAU'R daith o amgylch arfordir Môn (125 milltir) dymuna Eirlys Pierce ddiolch yn ddiffuant iawn am bob cyfraniad gan unigolion.

Hoffai hefyd gydnabod yn ddiolchgar gefnogaeth y canlynol: Capel y Rhos; Clwb Nofio Caernarfon a'r nofwyr: Gethin Llŷr Jones, Bethel; Gwion Roberts, Llanrug; Anni Williams, Penygroes a Bethan Humphries, Caernarfon; Côr Clychau'r Grug; Cymdeithas Golffwyr 'Slics', Bangor ac Ogwen; Elaine's; Katie Evans, Sling; Ffrindiau Yoga; Edwina Jones, Llanfairpwll; Mrs Ellen Jones a thrigolion Hafan Elan; Merched y Wawr, Llanrug; Parabl Cyf., Bedw Gwynion; Kathy Rothwell; Wil Rowlands, Cemlyn; Olwen a Norman Williams; Ysgol Bethel ac Ysgol Dolbadarn.

Diolcha'n arbennig i'r casglyddion: Lyn Brassington, Gwilym Davies, Maureen Doncaster, Nan Humphreys, Elen Huws, Nan Huws-Roberts, Carys ac Arwel Jones, Carys Jones, Bethel a Dylan Parry a chasglyddion y nofio noddedig, Eirlys Jones, Rhian a Dafydd Arfon Jones, Theresa Morgans, Morfydd a Glyn Owen ac Ian Pierce.

Gwerthfawroga gefnogaeth anrhydeddus trigolion yr ardal a thu hwnt tuag at achos mor deilwng.

Briwsion Byd Natur

Dafydd Guto

A Fu Rhai Adar yn Swil?

Canlyniadau arolwg adar talgylch Eco'r Wyddfa, 2006

FEL Y COFIWCH yn burion rhoddwyd sialens i chwi mis Medi y flwyddyn 2006 i ymgymryd â'r gwaith o wylio a chofnodi adar a berthyn i deulu'r *brain*, sef *'sgrechod coed, pïod, brain coesgoch, jac doäid, cigfranod, brain tyddyn, brain llwyd* ac *ydfranod*, a hefyd teulu'r *drudwy*. Cyfnod yr Arolwg oedd mis Medi hyd ddiwedd mis Tachwedd 2006.

Bu ymateb da sobr, a llawer o ddiolch i chwi am wylio a mynd ati i gofnodi. Danfonwyd taflenni, rhestrau llyfrau adar ac amlenni hunangyfeiriedig i'r ysgolion Cynradd yn nalgylch *Eco'r Wyddfa* ac at adran Gymraeg Ysgol Uwchradd Brynrefail, a hynny er mwyn dychwelyd ataf wybodaeth ynghylch pa *frain* a *drudwy* a welwyd. O'r naw ysgol fe ymatebodd pump ohonynt. Da iawn chwi bobl ieuainc a'r athrawon sydd yn gofalu amdanoch.

Ymhlith y taflenni a ddychwelwyd gwelwyd mai'r *jac doäid* oedd y mwyaf lluosog ran nifer, a chafwyd sawl cyfeiriad at *gigfrain*, ond yr un sôn am *frain coesgoch, pïod, sgrechod coed, brain tyddyn, ydfranod* na'r un *ddrudwen*!

Y tro cyntaf i mi weld y *frân lwyd* oedd yng ngardd Crud yr Awel, Bethel, sef cartref Seiriol a Bet Owen, a hynny rai blynyddoedd yn ôl! Hir y pery'r cof! Rhai o'r enwau eraill arni ydyw'r *Frân Glan y môr, y Lludw*, neu'r *Iwerddon*. Ceir cryn lwydni yn perthyn i'w phlu.

Ar yr wythfed o fis Hydref y flwyddyn 2006 mi roeddwn yn loetran ar lan afon yn Enis Corthi, yr Iwerddon Rydd, a dyna, am 12.47 o'r gloch, daro ar *frân lwyd*, a hynny cyn imi flasu'r hen Guinness, sef gwin y galon! Sylwch, da chwi, ar drefn pethau! Ym mis Hydref 2005 cerddais ar hyd un o strydoedd Warsaw, Gwlad Pwyl, a hynny hefo Linda, fy nghymar, wrth fy ochr, a gwelwyd dros hanner dwsin o'r *brain llwydion* yn pigo bwyd ar y glaswellt. Dyna'r agosaf y bu inni erioed fod at ymyl *brân lwyd*! Ac am y *frân wen*, naw wfft i honno!

Diolchiadau lu yn ogystal i'r canlynol o blith yr oedolion am gofnodi nifer yr adar a welwyd: J. ac E. Jones, Llanberis; H. H., Nant Peris; I. L. Morgan, G. Jones ac S. Ifans, Waunfawr; T. ac L. ac hefyd M. Edwards, Dinorwig; teulu M. Deiniolen; N., Penisarwaun; P .P., Bethel; J. L., Seion a T. T. ac L. T., Ceunant, Llanrug. Fel gyda'r ieuenctid, yr hen *jac do*'n bendifaddau oedd ar ben y rhestr! Cafwyd hefyd gyfeiriadau at *ddrudwy*, sef y rhai *'a welwyd tra'n teithio i Landudno ddiwadd mis Tachwedd'*, a'r adar *yn hedfan mewn cwmwl du uwchben yr afon Conwy*,' ond ni chafwyd gofnod o weld rhai yn y gerddi a'r meysydd perthynol i ddalgylch *Eco'r Wyddfa*. Ac i ble yr aeth y *'sgrechod coed*? A ydynt wedi prinhau?

Da dweud bod nifer ohonoch wedi gweld *pïod*; adar prydferth ran lliwiau eu plu, wedi eu beio ar gam, neu'n gymwys, gyda'r blynyddoedd am hyn ac arall. 10.25 y bore, 19 Hydref 2006, rhwng cae top Tŷ'r Rajar, cyn dyfod at Dan Gaer ac Allt Riwth, bu imi weld chwe *phioden* yn hedfan tuag at Lanrug, gan adael *pioden* arall yn llechu ym mrigau coeden. Saith ydyw'r mwyaf erioed ran nifer, gyda'i gilydd, imi eu gweld o'r teulu hwn. Deallaf fod y *pïod* ar gynnydd.

A fu i'r gwanwyn a'r hydref hwyrach nag arfer gymryd ei effaith ar adar yn y flwyddyn 2006, ran y mynd a'r dyfod yn eu hanes, neu a oedd y llynedd yn digwydd bod damaid yn wahanol i'r arfer ran tywydd? Do, bu'n ddiwedd blwyddyn tra mwyn ar brydiau, hefo digon o leithder, a'r caws llyfant ar gael hyd ddechrau mis Rhagfyr a rhai coed coll-ddail yn parhau hefo'u dail, ac mi roedd y blodau yn dal ati i flodeuo yn y gerddi a'r meysydd. A bu rhai adar yn rhyfeddol o swil!

Fodd bynnag, llawer o ddiolch i bawb ohonoch am gydweithredu â'm cais yn y flwyddyn 2006. Drwy eich cymorth parod,cafwyd cipolwg ffwrdd bwt â hi o'r adar niferus a berthyn i deulu'r *brain* a'r *drudwy*, a hynny yn nalgylch yr Eco. Gan obeithio mis Medi eleni y ceir cyfle arall i ffurfio Arolwg o adar ein hafonydd, neu dylwyth pulog y gerddi.

Beth am daro gair ataf er mwyn datgelu pa arolwg a fyddai'n rhygnu eich bodd?

Y mis nesaf: Hanes llyffant rhyfeddol Llanberis.

Cefnogwch ein Hysbysebwyr

Cyngor Cymuned Llanrug

Cynhaliwyd y cyfarfod diwethaf yn sefydliad Coffa Llanrug ar Ragfyr 19eg 2006. Croesawodd y Cyngh. D. Whiteside Thomas bawb i'r cyfarfod, yn arbennig y Cyngh. D. Alan Pritchard o Gwm y Glo. Dyma ei gyfarfod cyntaf fel cynghorydd dros Cwm y Glo. Ef hefyd fydd cynrychiolydd y Cyngor Cymuned ar fwrdd Llywodraethol Ysgol Cwm y Glo o hyn ymlaen.

Yn y cyfarfod hefyd roedd Mr Martin Kressman o Gwm y Glo. Mae ef yn awyddus i osod cofeb yn y pentref i gofio am drychineb Ffrwydrad y Powdwr Oil. Mae'r trafodaethau yn mynd ymlaen ar gyfer hyn.

Croesawyd y Parch. Robert Townsend yno hefyd ar gyfer trafod y gwaith o dorri gwair ym mynwent yr eglwys. Gobeithir denu tendr ar gyfer y ddwy fynwent ar y cyd eleni. Trafodir hyn yng nghyfarfod mis Ionawr.

Cadarnhawyd cofnodion mis Tachwedd yn gywir.

Deliwyd â materion cynllunio fel a ganlyn: Dim gwrthwynebiad i estyniad yn Gwynfryn, Ceunant; estyniad yn 16 Nant y Glyn nac i greu mynedfa newydd yn Fferm Pandy, Llanrug. Doedd dim gwrthwynebiad chwaith i godi modurdy domestig ym Maes y Bryn, Pontrug, ond teimlid fod y dyluniad a'r deunyddiau ar gyfer y garej yn anaddas i gefn gwlad.

Gwrthwynebwyd y cais i drosi ysgubor bresennol i uned gwyliau yn Fferm Dol Helyg Cwm y Glo – am fod y safle tu allan i'r ffin ddatblygu a bod gor-ddatblygu yma gan mai hwn fyddai'r trydydd annedd ar y safle hwn. Ni ellir chwaith fonitro'r defnydd o'r unedau gwyliau.

Cynhaliwyd cyfarfod o Awdurdod Heddlu Gogledd Cymru yng Nghaernarfon ddiwedd mis Tachwedd, gyda'r Clerc yn cynrychioli'r cyngor. Mae pryder mawr ynglŷn â'r toriadau arfaethedig yng nghyllideb yr Heddlu ar gyfer y flwyddyn ariannol nesaf.

Paratowyd y cyfrifon gan y Cyngh. Goronwy Hughes a diolchwyd iddo gan y cadeirydd. Bydd angen trafod Praesept 2006/07 yn y cyfarfod nesaf.

Daeth cynnig gan Mr Huw Williams i wneud hysbysfwrdd newydd ar gyfer y fynwent. Anfonwyd gair o ddiolch iddo am ei garedigrwydd.

Gofynnwyd i'r clerc ohebu ynglŷn â diflaniad y blwch postio o groesffordd Bryngwyn. Ni hysbysebwyd neb ynglŷn â hyn. Dyma enghraifft arall o golli mwy a mwy o wasanaethau cefn gwlad.

Trafodwyd y gwyriad arfaethedig i Lwybr cyhoeddus 15 yng Nghwm y Glo. Doedd dim gwrthwynebiad i hyn ond teimlid y byddai'n fwy synhwyrol i gael y llwybr yn uwch i fyny. Y clerc i drefnu cyfarfod ar y safle gyda'r swyddog perthnasol.

Mae trigolion stad Glanffynnon ac Afon Rhos yn pryderu'n fawr am fod traffig yn gyrru'n ormodol i mewn i'r stad. Mae nifer fawr o blantos bach yn chwarae yma. Gofynnwyd am gefnogaeth y Cyngor Cymuned i'w deiseb. Cytunwyd mewn egwyddor a gofynnwyd i'r clerc ohebu a gofyn i Gyngor Gwynedd am osod arwyddion perthnasol ym mhen uchaf y stad.

Mae'r ffordd o Glyntwrog i fyny at y Bryngwyn wedi gwella'n sylweddol ar ôl trin y ffos a'r palmant ar un ochr. Y clerc i anfon gair i ddiolch am hyn a hefyd holi pa bryd y bwriedir gwneud yr ochr arall, gan fod y cerrig a roddwyd i lenwi'r ffos wedi suddo erbyn hyn.

Bydd y cyfarfod nesaf yn Ysgol Cwm y Glo am 7 o'r gloch, nos Fawrth Ionawr 16eg 2007

CYNGOR CYMUNED LLANDDEINIOLEN

Cyfarfu'r Cyngor ar yr 2il o Ionawr.

Llywyddwyd y cyfarfod gan Elspeth Mitcheson a dymunodd flwyddyn newydd dda i'r aelodau

Gweddi. Offrymwyd y weddi agoriadol gan Richard Ll. Jones. Cyfeiriwyd at brofedigaeth arall i deulu'r Cadeirydd, Pat Jones, a phenderfynwyd anfon gair o gydymdeimlad ati.

Derbyniwyd cofnodion Rhagfyr fel rhai cywir.

Dwy Sedd wag. Eglurwyd bod rhaid hysbysebu yn y ffordd arferol a bod y Clerc wedi cysylltu â Mr Raymond Harvey, Swyddog Cofrestru Gwynedd.

Argau Marchlyn Mawr. Cyfeiriodd Richard Ll. Jones at fwriad First Hydro i ddyfnhau'r gronfa a'r pryder o lifogydd posibl ar hyd y dyffryn. Gofynnodd Hefin Williams a yw yswiriant y tai a lifogwyd eisioes yn uchel ac a ddylai'r ardal gael trydan rhatach fel iawndal. Awgrymodd Phyllis Ellis i'r Cyngor ofyn i FH am lechi mân am ddim i wynebu llwybrau. Penderfynwyd anfon y sylwadau yma atynt.

Cymuned. Derbyniwyd llythyr gan Cymuned a dyfynnir rhannau ohonno:

'Rydym yn galw ar Gyngor Gwynedd i ddilyn arweiniad cynghorau yn Lloegr trwy ddatgan na fyddant yn caniatáu tai preswyl newydd heb fod ar gyfer anghenion lleol ... y Cynghorau Cymuned wneud safiad clir o blaid pobl leol trwy ddatgan cefnogaeth i ymgyrch Cartrefi.com a thrwy ddatgan felly eu cefnogaeth i bobl leol sydd yn methu fforddio tai yn eu cymunedau eu hunain.'

Penderfynwyd cefnogi'r ymgyrch.

Llwybrau

Y bwriad oedd neilltuo rhan syweddol o'r cyfarfod i baratoi cynllun gwella llwybrau cyhoeddus a rhestr o flaenoriaethau.

Dywedodd Gwilym Williams nad yw llwybr 27, Clwt y Bont yn dilyn y cyfeiriad a ddangosir ar y map ers blynyddoedd lawer – gofyn am sylwadau Gwynedd.

Cyfeiriodd Phyllis Ellis at y llwybr o Lôn Cae Meta at Gapel Glasgoed, nad yw'n bosibl ei gerdded trwy'r gors o'r gât at y Lôn.

Rhannwyd:

copïau o ddogfen Gwynedd 'Cynnal a Chadw Llwybrau Cyhoeddus' sy'n amlinellu cyfrifoldeb y perchnogion tir.

Rhestr o'r llwybrau y torrir gwair arnynt ar hyn o bryd.

Awgrymodd Richard Ll. Jones i'r Cynghorwyr gategorïo llwybrau yn ôl eu defnydd:

- llwybr mewn pentref;
- llwybr yn cysylltu dwy ffordd/dau le;
- prin neb yn ei gerdded;
- *bridlepath.*

Materion Eraill

Awgrymodd Gwilym Williams ein bod yn gofyn i Wynedd a oes modd rheoli'r defnydd o dân gwyllt.

Dywedodd Hefin Williams nad yw'r peiriant sugno gwlïau o gwmpas yn ddigon aml. Mae angen sylw brys ar y gwli yn Sgwar Post, Rhiwlas, a hefyd gofyn a oes modd cael scipiau yn yr ardal yn amlach.

Cysgodfannau

Awgrymodd Elspeth Mitcheson i'r Cyngor ofyn i Wynedd, o ran egwyddor, beth fyddai'r posibilrwydd o blannu coed/llwyni fel cysgodfan. A hefyd eu cyngor ar y math o dyfiant. Penderfynwyd hefyd gofyn i Wynedd beth fuasai pris gosod un o'u cysgodfannau gwyrdd ym Mhentref Rhiwlas.

Dyddiad y cyfarfod nesaf: 6ed o Chwefror 2007.

Llwybr Rhos Wian, Penisa'rwaun. Cyflwynwyd llythyr Dafydd a Helen Owen, 7 Bryn Hyfryd, a'u lluniau yn cyfeirio at gyflwr difrifol wyneb y llwybr yno. Danfonwyd y llythyr a'r lluniau at Archwiliwr Llwybrau Gwynedd trwy ebost ar y 13eg o Ragfyr, gan apelio arno i bwyso ar yr Adran Ffyrdd i gwblhau'r gwaith a ddechreuwyd yno.

Cyd-Bwyllgor Ffordd Osgoi Bontnewydd/Caernarfon. Cynhelir cyfarfod ar y 7ed o Ionawr yn Siambr Cyngor Tref Caernarfon.

Lôn Bach Awyr, Rhiwlas. Dywedodd Elspeth Mitcheson a Hefin Williams bod yr anhawster llifogydd wedi ei ddatrys o ganlyniad i'r gwaith draenio a chodi lefel y ffordd a wnaed gan Wynedd.

Penderfynwyd anfon gair o ddiolch i'r Adran Briffyrdd.

Cynllunio

Ceisiadau a dderbyniwyd:

Tan y Foel Garage, Gallt y Foel: Newidiadau i'r gweithdy a lleoli adeiladau storio.

Dryll, Deiniolen: Adeiladu ramps, creu mannau parcio a chadw 4 cynhwysydd.

Ceisiadau a ganiatawyd gan Wynedd:

Swyddfa'r Post, Penisa'rwaun: Addasu'r adeilad i ddau dŷ, lledu'r fynedfa a chreu mannau parcio.

Llain o dir rhif 7770, Stablau: ymestyn y stablau presennol.

Cais a ganiatawyd gan Barc Cenedlaethol Eryri:

Codi crib argae Marchlyn Mawr 2.5m a'r gronfa ddŵr 3.3m.

FINE ART TRADE GUILD

ORIEL CWM

Cwm y Glo

Ffôn/Ffacs: (01286) 870882

Gwasanaeth Fframio

Lluniau o bob math

ar gael ar y safle

Prisiau Rhesymol

Arddangosfa o luniau

gwreiddiol gan

Artistiaid Lleol

Richard S. Humphreys

Plygu'r *Eco* cyn y Nadolig

Ar 21 Rhagfyr, cefais y fraint o fynd i Ysgol Brynrefail, Llanrug, i fwndelu yr *Eco*. Carwn ddiolch yn fawr i Mrs June Owen am ei charedigrwydd a'r ffordd ddiplomataidd a oedd ganddi hefo'r plant, a rhaid dweud eu bod yn gwrando arni. Diolch yn fawr i'r Prifathro am adael inni gael y bobl ifanc yma i blygu'r *Eco* ac am gael benthyg yr ysgol. Diolch am y baned a'r bisgedi. Hefyd carwn ddymuno'n dda i Mrs June Owen a oedd yn gadael yr ysgol ddiwedd y tymor ac yn dechrau ar swydd newydd yn y llyfrgell yng Nghaernarfon. Diolch yn fawr iawn i bawb o'r ysgol a gymerodd ran yn y plygu gan i bethau fynd yn hwylus iawn.

ADOLYGIADAU

Y Derwyddon: Dirgelwchyr Ogam

Llofruddiaeth ac aberth yn Oes y Seintiau. Dyma gyfrol gynta cyfres gothig iasoer wedi ei gosod yn Oes y Seintiau yn y 5ed ganrif. Mae cynnwrf ar draws tiriogaethau'r Brython, gydag Ymerodraeth Rhufain yn gwanychu a gwrthdaro rhwng pobloedd a chredoau hen a newydd. Mae gorthrwm yr Eingl-Saeson tua'r dwyrain yn sbarduno nifer o'r Brythoniaid i sefydlu gwladfa newydd Llydaw, yn Armorica, yng ngwlad Gâl. Yn cyrraedd yn eu sgil mae arweinwyr ysbrydol yr Egl
wys Geltaidd 'y mynachod Cristnogol' a'r grefydd newydd yn darogan tranc hen ffydd y Derwyddon. Ond mae'r hen draddodiadau yn parhau i ddal eu tir, a gyda hynny mae Gwynlan, Derwydd ola Llydaw, a'i ddisgybl, Taran, yn cael eu hunain yng nghanol ymgiprys milain yn erbyn mynachod yr Eglwys. Daw cyhuddiadau o lofruddiaeth, aberth dynol a dewiniaeth o bob cwr, ond mae'r hen dduwiau wrth law i gynorthwyo'r cyfiawn. Ar gyfer darllenwyr yn eu harddegau ac oedolion.

ISBN: 0 9551366 3 6; 48tt lliw llawn, clawr caled; Pris: £9.99

Llywelyn Fychan: Ysgol yr Ynfydion

Ffrindiau od ac antur hunllefus. Mae Llywelyn Fychan yn grwtyn bach â dychymyg disglair, sydd wrth ei fodd yn byw yn y wlad ar gwr y goedwig. Bob dydd mae'n cerdded i'r ysgol yn y dre gerllaw, lle, bob yn un, mae ei ffrindiau i gyd yn troi'n od – eu llygaid yn ddifynegiant a'u cof yn gwbwl wag. Tybed ai Miss Eirlys Rhoswen, y ddraig o brifathrawes, sydd ar fai, yn cynnal rhyw arbrofion ar ei disgyblion er mwyn iddyn nhw fihafio'n well yn y dosbarth? Neu oes a wnelo'r tri disgybl newydd – Llofan, Morgegog, a Cacmwri – rywbeth â'r peth? Yn sicr mae agwedd y tri yn ddigon erchyll ac mae rhywbeth o'i le o ran eu pryd a'u gwedd hefyd. Mae Llywelyn yn benderfynol o fynd i wraidd y mater ac mae ei waith ditectif yn agor y llen ar antur hunllefus yn y goedwig dywyll, lle mae diogelwch ei ffrindiau (a phawb arall yn y dre) yn y fantol. Mae Llywelyn Fychan yn arwr o blentyn sy'n edrych ar y byd o ogwydd plentyn, ac yn gymeriad annwyl ddaw â gwên i wyneb pawb. Ar gyfer darllenwyr 8–15 oed.

ISBN: 0 9551366 2 8; 46tt lliw llawn, clawr caled; Pris: £9.99

Y Triawd Amser a Môr-Ladron y Caribî

Trysor, môr-ladron a thri chrwtyn cyfrwys.

'Gofalus Gwydion!' gwaedda Gwion, 'Paid â'i gyffwrdd e!' Ond mae'n rhy hwyr! Wrth i Gwion drio mynd â Llestr Aur hynafol yr ymerawdwr Monteswma o ddwylo'i gyfaill, mae grym cyfrinachol y llestr yn dwyn y Triawd Amser – Gwydion, Gwion a Garmon – i fyd peryglus môr-ladron y Caribî. Yno mae'r chwedlonol a'r anfad Blewgi Ddu yn ysu am gael y gorau o'r fôr-ladrones gyfareddol, Anne Bonny, sy'n rheoli Tortwga, ynys y môr-ladron. Yno hefyd mae cynrychiolydd brenin Sbaen, Archimbaldo Don de la Cruz, yn ceisio'i orau glas i ddod yn ben bandit y Caribî trwy drechu'r môr-ladron a sicrhau cyfoeth digymharol iddo fe ei hunan. Gyda pheryglon o'u cwmpas ym mhobman, mae'r Triawd Amser ar ras gythryblus a chyffrous i ddod o hyd i drysorau rhyfeddol El Dorado... Tybed a fyddan nhw'n goresgyn y cyfan a dychwelyd yn ddiogel i'w cartre yn ein dyddiau ni? Mae hynny'n dibynnu ar pwy fydd y cynta i ddatrys cyfrinach y Llestr Aur ac agor y drws ar El Dorado! Ar gyfer darllenwyr 8–15 oed.

ISBN: 0 9551366 1 X; 64tt lliw llawn, clawr caled; Pris: £9.99

NEWYDDION: O fis Ionawr 07 ymlaen, bydd straeon stribed y 'Triawd Amser' yn ymddangos yng nghylchgrawn *Cip* yr Urdd hefyd!

Penbleth Dynol Ryw

'Mae'n hen bryd i ni gael llyfrau o'r fath yn y Gymraeg!'

Muuiris (trwy ebost)

'Mae'r llyfr yn ardderchog! Ma' ishe rhoi shiglad i brŵds Cymru!'

Meinir, Rhydargaeau

Dianc o'r rhigol gyda hiwmor direidus. Mae Moc yn ystyried ei hun fel tipyn o foi, felly pan mae ei gariad, Rhian, yn ei adael mae'n rhaid iddo dynnu sylw at ei hun. Ond mae hithe'n gweld drwy'r cwbwl, ac mewn gwewyr emosiynol mae ynte'n trio rhoi trefn newydd ar ei fywyd trwy ymuno â chylch o ddynion sy'n ceisio dadansoddi eu hunain (a'u botymau bol). Yno daw ar draws Cris – neu Cristîn i'w ffrindiau – sy wedi derbyn gwahoddiad i drafod sut beth yw bod yn ddyn hoyw. A dyna lle mae penbleth Moc yn dechrau! Yn y llyfr beiddgar hwn mae 'na bobol noethlymun, pobol wedi 'tarto lan', pobol strêt, pobol hoyw; dynion yn dynwared menywod, menywod yn ddirmygus o ddynion; menywod yn genfigennus, dynion yn eu byd bach eu hunain; menywod yn gwbod be maen nhw eisiau a dynion mewn dau feddwl. Gyda geirfa yn y cefn i esbonio'r termau rhywiol Cymraeg rhywiog (os oes angen esbonio arnoch chi!). Gwobrwywyd Ralf König am y Senario Orau yng Ngŵyl Gomics Ryngwladol Angoulême yn 2005. Ar gyfer ddarllenwr aeddfed, mae'r llyfr hwn yn cynnwys deunydd o natur rywiol.

ISBN: 0 9551366 0 1; 128tt du a gwyn, cloriau lliw, clawr meddal; Pris: £7.99

Fe gewch chi hyd i lyfrau Dalen mewn siopau llyfrau da, neu mae modd eu prynu gan lyfrwerthwyr ar y we, gan gynnwys www.gwales.com neu www.amazon.co.uk, neu yn uniongyrchol oddi wrth Dalen yn y cyfeiriad isod. Mae pob math o wybodaeth ychwanegol am ein llyfrau ni ar ein gwefan hefyd. Cliciwch ar www.dalenllyfrau.com, a galwch heibio!

Sicrhau Amgylchedd o Ansawdd i Wynedd

Fel rhan o brosiect 'Amgylchedd o Ansawdd', sy'n cynnwys partneriaeth o asiantaethau sy'n cydweithio i wella cymunedau lleol ac ansawdd bywyd ar gyfer pobl leol, mae Cyngor Gwynedd a Phartneriaeth Diogelwch Cymunedol y Sir wedi penderfynu ymestyn y trefniadau i gasglu nodwyddau hypodermig sydd wedi eu taflu ar diroedd agored.

Er bod y Cyngor eisoes wedi bod yn casglu eitemau o'r fath ar eiddo'r Cyngor, mae'r cynllun peilot wedi ei sefydlu i ehangu'r gwasanaeth i ymdrin â rhai tiroedd preifat hefyd.

Dywedodd Dewi Rowlands, Cyfarwyddwr Strategol – Amgylchedd Cyngor Gwynedd:

'Mae sicrhau amgylchedd o ansawdd ar gyfer trigolion Gwynedd yn flaenoriaeth gan y Cyngor. Fel rhan o'r gwaith pwysig yma, rydym wedi cyflwyno'r cynllun peilot er mwyn sicrhau y bydd nodwyddau a ddarganfyddir gan aelodau'r cyhoedd mewn unrhyw fan agored, boed yn gyhoeddus neu'n breifat, megis gerddi tai, yn cael eu casglu gan y Cyngor.'

Ni ddylai unrhyw un sy'n dod o hyd i nodwydd geisio gwaredu'r eitemau eu hunain, dylent ffonio'r gwasanaeth sydd ar gael 24 awr, saith-diwrnod-yr-wythnos. Y rhifau ffôn ar gyfer y gwasanaeth yw:

Arfon: (01286) 6790330;
Dwyfor (01758) 704090;
Meirionnydd: (01341) 424400.

Fodd bynnag, pe bai yna sefyllfa lle mae'r nodwydd yn peri bygythiad brys a bod angen ei waredu, yna dylid ystyried y mesurau diogelwch sylfaenol yma:

- os yn bosib, gwisgwch fenig rwber;
- ewch â blwch priodol i leoliad y nodwydd (potel, tun ayb);
- gafaelwch yn y nodwydd ar ochr y gasgen yn unig;
- rhowch y nodwydd yn ofalus iawn i mewn i'r bwlch a'i gau – wedyn ei roi mewn lle diogel'
- trefnwch i'r gwasanaethau uchod ddod i gasglu'r blwch.

Mae gan Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol Gwynedd hefyd ddarpariaethau ehangach i helpu'r rhai hynny sydd efo problemau cam-ddefnyddio sylweddau ac sy'n defnyddio nodwyddau. Am gymorth a help ar faterion iechyd a chwistrellu'n ddiogel, cysylltwch â 07748 788163.

Er mwyn cael at wasanaethau triniaeth am broblem cyffuriau neu alcohol, cysylltwch â'r Gwasanaeth Camddefnyddio Sylweddau ar (01248) 718030.

DEINIOLEN

Mrs Margaret Cynfi Griffith, Cynfi. Ffôn: (870394)

DYMUNA Mrs Beryl Griffith, 5 Maes Gwylfa, ddiolch yn fawr iawn i holl deulu Penpwllcoch, Penisarwaun, ac i'w merch, Mrs Joyce Evans, Sir Fôn, am eu gofal a'u caredigrwydd yn ystod y flwyddyn.

DYMUNA Mrs Eirian Jones, 11 Stryd Fawr a'r teulu, ddiolch yn ddiffuant i bawb a fu mor garedig wrthynt yn ystod eu profedigaeth fawr o golli chwaer mor sydyn. Diolch am yr ymweliadau, cardiau a'r galwadau ffôn. Diolch yn fawr i bawb.

DINORWIG

Miss Marian Jones, Minallt, 7 Bro Elidir, Dinorwig. 870292

ADREF O'R YSBYTY. Rwyf yn sicr ein bod yn falch o ddeall fod Evan Bryn Roberts, Tŷ'r Ysgol, wedi dod adref o'r ysbyty. Ddechrau'r flwyddyn fe fu rhaid iddo fynd i Ysbyty Gwynedd ac wedyn bu raid ei symud i Fanceinion, ond erbyn hyn y mae wedi cael dod adref. Ein dymuniad fel ardal ydyw, Evan, iti frysio gwella. Pob bendith ac iechyd iti i'r blynyddoedd a ddel.

MARW. Daeth y newydd trist i'r ardal ar 19 Ionawr am farwolaeth y Parch Ifor Lloyd Williams. Er mai gweinidog y Bedyddwyr ydoedd, cawsom lawer o'i gwmni pan oedd yn Llywydd Anrhydeddus y Gymdeithas Undebol am flynyddoedd yma yn Ninorwig. Er yn cartrefu ym Mangor ni fyddai byth bron yn colli cyfarfod o'r Gymdeithas a gwerthfawrogwyd ei gwmni yn fawr iawn. Cydymdeimlwn yn fawr â Mrs Wiliams, Dewi, Meurig a'r teulu oll yn eu profedigaeth.

Mae Miss Nellie Wyn Jones yn ei gofio fel cyfaill mewn rhan arall o'r rhifyn hwn o'r *Eco*.

YSGOL BRYNREFAIL

Canmoliaeth Uchel i Ysgol Brynrefail gan Arolygwyr

CYNHALIWYD arolygiad o Ysgol Brynrefail rhwng 6 a 10 o Dachwedd 2006. Fe'i cynhaliwyd gan dîm annibynnol o 13 o arolygwyr. Roedd yn ofynnol i'r tîm gyflwyno adroddiad ar y safonau a gyflawnir gan y dysgyblion, ansawdd yr addysgu a'r asesu, y cwricwlwm, y gofal a'r gefnogaeth i'r dysgyblion, yr arweinyddiaeth a'r rheolaeth, yr hunan-farnu, y rheolaeth o'r adnoddau a'r gwerth am arian. Cyhoeddwyd yr Adroddiad ar 11 Tonawr, 2007.

Cafwyd canmoliaeth uchel i waith yr ysgol. Dyma rai o brif sylwadau'r arolygwyr:

- Mae agweddau da neu dda iawn ym mhob agwedd o ddarpariaeth yr ysgol;
- Mae'r ysgol yn gymuned hapus a gofalgar ac mae parch at gyfoedion, athrawon ac eiddo yn nodwedd o fywyd yr ysgol.
- Mae cyfle cyfartal a'r gofal ar gyfer y disgyblion a'r myfyrwyr yn rhagorol.
- Mae'r safonau a gyflawna'r disgyblion yn y dosbarth yn dda neu'n rhagorol ac yn adlewyrchu'u hymddygiad a'u hagwedd at waith.
- Mae canlyniadau arholiadau ac asesiadau allanol yn cymharu'n dda neu dda iawn â rhai'r Sir a Chymru gyfan.
- Cafodd yr ysgol ei chanlyniadau TGAU gorau erioed yn 2006 ac maent yn dda iawn.
- Mae canlyniadau Safon Uwch yr ysgol wedi bod yn dda iawn dros y blynyddoedd.
- Mae'r ddarpariaeth ar gyfer disgyblion sydd ag anghenion dysgu ychwanegol yn rhagorol ac maent yn cyflawni'n dda: mae hyn yn wir hefyd am y disgyblion dawnus a thalentog.
- Mae lefel ymwybyddiaeth gymdeithasol, ddiwylliannol a moesol y disgyblion a'r myfyrwyr yn rhagorol au hymwybyddiaeth ysbrydol yn dda.
- Mae cymhwysedd dwyieithog y disgyblion a'r myfyrwyr yn rhagoriaeth.
- Mae perthynas waith dda iawn rhwng y disgyblion a'r athrawon ac mae'r awyrgylch gyfeillgar yn y dosbarth yn hyrwyddo cymhelliant y disgyblion.
- Mae gan arweinyddiaeth a rheolaeth yr ysgol lawer o nodweddion da.
- Mae'r ysgol yn defnyddio'i chyllid a'i hadnoddau'n effeithiol iawn ac yn llwyddo i roi gwerth da iawn am arian.

Dywedodd Prifathro'r Ysgol, Eifion Jones:

'Rwyf yn falch iawn bod llwyddiannau a gwaith caled a chydwybodol pawb sydd ynghlwm â'r ysgol a'i chymuned wedi cael eu cydnabod yn gyhoeddus, yn enwedig gwaith holl staff a disgyblion yr ysgol. Diolch i bawb am bob cefnogaeth i'r ysgol.'

Croesawyd yr adroddiad gan Gadeirydd Llywodraethwyr yr ysgol, Ann Pritchard Jones:

'Mae'r Corff Llywodraethu yn hynod falch o dderbyn adroddiad mor ganmoladwy ar waith a bywyd yr ysgol. Dymunwn longyfarch a diolch i'r holl staff a'r disgyblion a chydnabod cefnogaeth sylweddol ein partneriaethau yn y gymuned a'r byd addysgol yn lleol.'

Addunedau Blwyddyn Newydd

AR DDECHRAU blwyddyn newydd, mae'n gyfle i osod ychydig o dargedau personol ar gyfer y flwyddyn sydd i ddod. Buom yn holi rhai o ddisgyblion blwyddyn 9 am eu haddunedau hwy ar gyfer 2007:

'Dw i'n mynd i drio peidio gwylltio ar gae pêl-droed.'

Iwan

'Dan ni am drio bwyta'n iach a chadw'n ffit.'

Emma, Ian ac Adriyel

Rydw i am drio fy ngorau glas i beidio cnoi fy ewinedd.'

Sharon

Dw i am roi'r gorau i fwyta siocled!

Ben

'Rydw i am drio bwyta mwy o fwyd gwahanol yn lle'r un hen bethau bob tro.'

Adam

'Dwi am drio yfed mwy o ddŵr bob dydd – 8 gwydriad i fod!!'

Luke

Criw go iach sydd yma felly ym Mrynrefail ar ddechrau 2007. Tybed, os down yn ôl at y disgyblion ar ddiwedd y flwyddyn, fydd eu haddunedau wedi goroesi, ynteu fynd yn angof. Amser a ddengys!!

Disgybl y Mis yr Adran Gymraeg

LLONGYFARCHIADAU gwresog i Ilid Speake o Flwyddyn 8 ar gael ei dewis fel Disgybl y Mis gan yr Adran Gymraeg ar gyfer mis Ionawr. Mae Ilid yn byw yn y Felinheli gyda'i chwaer, Iona, sydd ym Mlwyddyn 11 a'i rhieni. Ei diddordebau yw reidio ceffylau a darllen. Cas bethau Ilid yw nadroedd!! Derbyniodd Ilid ei gwobr – sef pecyn sylweddol *Uned 5* – am ei hagwedd gydwybodol tuag at ei gwaith, a'i gwaith darllen annibynnol anhygoel! Ei hoff lyfr yw *Bywyd am Fywyd* gan Mair Wyn Hughes.

Archwilwyr Arholiadau Allanol

Rhan Amser/Achlysurol

Amser: cyn gynted â phosib

Cyflog: £10 yr awr

Mae'r newidiadau mewn amodau gwaith athrawon yn gofyn i ysgolion benodi archwilwyr allanol ar gyfer arholiadau allanol a ffug arholiadau mewnol. Bydd y rhai hynny fydd yn cael eu penodi yn cael eu defnyddio yn bennaf yn ystod cyfnodau arholiadau allanol misoedd Ionawr, Mai a Mehefin a/neu yn ystod cyfnod arholiadau ffug Blwyddyn 11 ym mis Rhagfyr. Bydd yn bosib i'r oriau fod yn hyblyg oddi fewn i amserlen yr arholiadau a bydd hyfforddiant priodol ar gael.

Manylion pellach i'w cael gan y Swyddog Gweinyddol, Mrs. Dawn Carden, Ysgol Brynrefail, Llanrug, Caernarfon, Gwynedd, LL55 4AD (01286) 672381

Gwasanaeth Nadolig yr ysgol

CYNHALIWYD gwasanaeth Nadolig yr ysgol unaith eto yn Eglwys Sant Padarn, Llanberis ar Ragfyr 18fed. Braf oedd gweld yr eglwys yn orlawn unwaith eto eleni a chafwyd gwasanaeth hyfryd, gyda'r eglwys yn ychwanegu at naws arbennig yr achlysur.

Fel sy'n arferol bellach, gwnaed casgliad yng Ngwasanaeth Nadolig yr ysgol ar gyfer Cymorth Cristnogol, a braf oedd gallu gwahodd Branwen Niclas i'r ysgol i dderbyn siec anrhydeddus am £200 tuag at goffrau'r elusen hollbwysig yma.

Y côr iau yn ymarfer.

Parti Pendalar

Dyma un o brif ddigwyddiadau calendr yr ysgol ac eleni unwaith eto mawr fu'r bwrlwm a'r prysurdeb ymhlith myfyrwyr y Chweched Dosbarth wrth drefnu diwrnod i'w gofio i'n cyfeillion yn Ysgol Pendalar. Mae'r weithgaredd hon yn un a ganmolwyd yn arw gan yr arolygwyr yn ystod eu harolygiad diweddar o'r ysgol ac yn yr adroddiad terfynol fei'i cyflwynir fel 'Arfer Ragorol'. Meddai'r adroddiad:

'Mae'r chweched dosbarth yn paratoi parti i ddisgyblion Ysgol Pendalar a hynny ers pum mlynedd ar hugain. Dair blynedd yn ôl derbyniodd yr ysgol gydnabyddiaeth am ansawdd uchel y gwaith hwn gan Gronfa Goffa Diana. Mae myfyrwyr y chweched yn casglu symiau mawr o arian, dros £2,000 yn flynyddol, trwy nawdd busnesau lleol a gweithgareddau eraill. Caiff yr arian ei ddefnyddio ar gyfer y parti ac fe gaiff pob disgybl o Ysgol Pendalar anrheg Nadolig sylweddol o'i ddewis personol ei hunan. Cedwir cofnodion manwl o bob cam o'r gwaith paratoi a mantolenni ariannol.

Mae'r chweched dosbarth yn ymateb yn rhagorol i'r ymddiriedaeth lwyr ynddynt a'r cyfrifoldeb sylweddol iawn sydd ynghlwm â'r weithgaredd hon (sic)'

Siôn Corn gyda'i helpwyr

Ffrindiau newydd

Parti da!

Pawb yn mwynhau danteithion

Parti Pendalar 2006

Dros y deufis diwethaf, bu'r Chweched Dosbarth wrthi'n brysur yn paratoi a threfnu'r parti blynyddol gyda disgyblion Ysgol Pendalar. Aeth y myfyrwyr ati'n ddyfal i gasglu arian o bob pentref yn yr ardal a hael iawn fu ymateb y busnesau a'r trigolion unwaith eto eleni. Cynhaliwyd hefyd nifer o weithgareddau i godi arian megis noson gwerthu eitemau 'virgin' yn Y Bedol, Bethel, hefyd taith gerdded a raffl.

Ar ôl codi swm sylweddol aeth grŵp dethol ati i brynu anrhegion i'r disgyblion. Yn dilyn gwahanol gynhyrfiadau gyda'r bws mini a nwyddau allan o stoc, cafwyd popeth yn ei le erbyn y dyddiad penodedig, yn barod i'w lapio gan neb llai na chorachod Santa ei hun!

Ar y diwrnod mawr roedd pawb o'r Chweched Dosbarth ynghlwm â'r bwrlwm, yn brysur yn coginio, yn addurno'r neuadd a'r ffreutur, neu'n helpu Siôn Corn gyda'r holl anrhegion. Erbyn un o'r gloch y prynhawn, chyrhaeddodd disgyblion Pendalar. Cafwyd gwestai arbennig hefyd i ddiddori'r plant, sef Edward Morris Jones, a bu cryn hwyl yn canu hen ffefrynnau Cymreig gydag ef, ac roedd hi'n amlwg i bawb fwynhau'r adloniant. Rydym yn hynod ddiolchgar i Edward Morris Jones am ei barodrwydd i ymuno yn yr hwyl unwaith eto eleni.

Ar ôl y canu a'r dawnsio, a phawb wedi magu blys, roedd gwledd yn aros yn y ffreutur. Mwyhawyd yr arlwy gan bawb – yr amrywiaeth o brydau sawrus, brechdanau, teisennau, jeli, hufen ia – yn wir, roedd rhywbeth at ddant pawb. I orffen y prynhawn, cafwyd un ymwelydd arall o bwys, ie, Siôn Corn, gyda llond sach o anrhegion diddorol i bob un o'r plant.

Oherwydd haelioni y cyhoedd a busnesau lleol, fe lwyddwyd eleni i godi swm o dros ddwy fil. Hoffwn felly ddiolch unwaith yn rhagor i bawb a gyfrannodd at ddigwyddiad hynod bwysig yng nghalendr y flwyddyn yn Ysgol Brynrefail ac Ysgol Pendalar. Isod rhestir enwau'r cwmnïau hael:

Deiniolen:
Band Pres Deiniolen; Garej Beran; Ysgol Gwaun Gyfni; Cyfeillion Tafarn y Bull; Alex Taylor Mechanic; Williams Coaches; Bingo Elidir; Siop Premier; Thomas a Jones Glazier; G.K.J. Jones; Cyfeillion Deiniolen

Bethel:
Gors Bach; Treflyn Siop; Clwb Pêl-droed Bethel; Post Bethel.

Llanrug:
Arvonia; Garej Hafod; Seiont Nurseries; Y Swyddfa Bost; Londis; Siop Premier; Ysgol Gynradd Llanrug; Wavell; Clwb Pêl-droed Llanrug; Tegfan; Caravan Parc; J.M.J. & Sons; Celtic Windows; Becws Llanrug; Glyntwrog; Elaine's.

Caernarfon:
Y Bwrdd Crwn; Cwmni Da; Banc HSBC; Cibyn Veterinary Clinic; Owain Bebb a'i gwmni.

Penisarwaun, Cwm-y-Glo, Dinorwig a Brynrefail:
Eurwyn Jones; Snowdon Classic Cars; Gareth J. Griffirths

Llanberis:
Spar; Pet Shop; Honey Farm; Côr Meibion Dyffryn Peris; First Hydro; Joe Brown; Cost Cutters; M.& R. Pritchard; Prince Of Wales.

Bangor:
Hogan; Partco.

SASHA WILLIAMS
A LOWRI HUGHES-JONES

Help Llaw

Tipyn o gamp yw cael yr *Eco* yn barod cyn y Nadolig, felly braf oedd gallu dibynnu ar rai o ddisgyblion yr ysgol i roi help llaw i ddod â'r cyfan ynghyd cyn i'r ysgol gau. Bu'r criw wrthi'n ddiflino, chwarae teg. Da iawn chi, a diolch yn fawr!!

CWM Y GLO

Mrs Iris Rowlands, Glanrafon. Ffôn: (01286) 872275

UNDEB Y MAMAU. Cafwyd gwasanaeth o garolau a llithoedd yn yr ysgol gymuned nos Lun, 4 Rhagfyr. Darllenwyd y llithoedd gan yr aelodau. Dr W. Munroe oedd y pianydd a hefyd darllenodd rai o'r gweddïau a rhoddodd y fendith. Yn dilyn y gwasanaeth cafwyd mins peis a phaned. Trafodwyd materion a godwyd ym mhwyllgor y Ddeoniaeth, a gynhaliwyd ym Mangor ar 28 Tachwedd gan Dorothy.

Enillwyd y raffls gan Gwyneth, Gwen, Meira a Hilda. Terfynwyd y noson trwy adrodd y Gras.

CYDYMDEIMLAD. Estynnwn ein cydymdeimlad dwysaf â Gwilym, Margaret, Carys, Terry a Keith yn eu profedigaeth frawychus o sydyn o golli mam a nain annwyl.

DIOLCH. Dymunwn ddiolch yn ddiffuant i'r ffyddloniaid sydd wedi gofalu am anfon newyddion i'r *Eco* drwy gydol y flwyddyn.

CYFARCHION Y TYMOR. Dymunwn Flwyddyn Newydd Dda i bawb yn y pentref ac i'r rhai sydd mewn catrefi henoed neu yn yr ysbytai.

CYDYMEIMLAD. Estynnwn ein cydymdeimlad â'r Parch a Mrs Gwynfor Wiliams a'r teulu yn eu profedigaeth o golli mam, nain a hen nain annwyl.

O SIAMBAR SELWYN

Yn dilyn sgwrs fach a gefais ar *Raglen Siân Thomas* ychydig yn ôl, pryd y gofynnwyd imi sôn am fy hoff daith a fy nghas daith, mae yna rai wedi gofyn i mi sôn ychydig mwy am Greenland, neu i roddi yr enw Cymraeg (cwbl anaddas) ar y wlad – Yr Ynys Las.

Greenland ydi'r ynys fwyaf yn y byd ac mae 85% o'r ynys ohoni dan iâ trwchus drwy gydol y flwyddyn. I chi gael rhyw syniad o faint yr ynys – mae o'r de i'r gogledd yn 1,725 o filltiroedd, ac mae ar draws o'r dwyrain i'r gorllewin, ar gyfartaledd o tua 625 milltir. Gyda llaw, mae tewder yr iâ tua 2.5 cilomedr. Poblogaeth Greenland ydi tua 55,000, gyda'r rhan fwyaf ohonynt yn byw ar arfordir y de-orllewin, oherwydd fe ellir cyrraedd y rhan honno o'r ynys gyda llongau bron drwy gydol y flwyddyn.

Mae yna ffyrdd oddi fewn i'r trefi, ond does yna ddim ffyrdd yn cysylltu amryw o'r trefydd â'i gilydd. Mae plant, hyd yn oed y plant lleiaf, yn gorfod aros yn yr ysgolion am dymor. Byddai'n gwbl amhosibl iddynt allu mynd adre bob nos, oherwydd does yna ddim ffyrdd, ac yn y gaeaf mi fyddai'n gwbl amhosibl teithio oherwydd yr eira. Mi fûm i mewn un ysgol mewn pentref o'r enw Quassiarsuk, lle roedd y plant yn byw ac yn dysgu gyda'i gilydd am wythnosau lawer heb allu mynd adref i weld eu rhieni.

Mae'r pentre hwn, gyda 85 o boblogaeth (pan oeddwn i yno) yn llecyn hanesyddol, gan mai dyma'r lle y sefydlodd yr Ewropeaid cyntaf yn y flwyddyn 982. Enw'r arweinydd oedd Erik the Red (ei enw barddon gen i fyddai Eric Cochyn). Mae gweddillion y fferm a fu'n gartref iddo, a cherrig sylfaen yr eglwys, yn weladwy heddiw. O'r llecyn hwn hefyd yn y flwyddyn 1,000 yr hwyliodd Leif Lucky, sef mab Eric Cochyn, ar fordaith enwog pryd y darganfyddodd o Ogledd America, sef Ynysoedd Newfoundland a Baffin. Cofiwn felly i Leiffi Lwcus (i roddi enw barddol iddo!) ddarganfod America cyn Mr Columbus. Lle roedd Madog 'ddewr ei fron' ysgwn i?

Prifddinas Greenland ydi Nuuk, neu Godtbaab, yn iaith y brodorion, a'i ysstyr ydi *'good hope'*. Dyma'r dref fwyaf gyda 13,000 o drigolion. Yma mae prifysgol y wlad, yr amgueddfa genedlaethol ac, wrth gwrs, y Senedd. Oddi yma hefyd y mae Santa Clôs yn anfon ei gyfarchion i holl blant bach y byd.

Mae Greenland yn dod o dan adain Denmarc, ond ers 1979, cafwyd hunanlywodraeth yno, sy'n caniatáu i'r ynyswyr wneud penderfyniadau ynglŷn â pholisïau cartref, ac hefyd i raddau helaeth, polisïau tramor. 31 o aelodau (pan oeddwn i yno) sydd yn Senedd Greenland, ac yn Senedd Denmarc mae yna ddau aelod sydd wedi cael eu hethol gan bobl Greenland. Mae ganddynt eu gorsaf deledu a'u gorsaf radio, sy'n darlledu eu rhaglenni eu hunain, yn ogystal â rhaglenni o Ddenmarc.

Yr iaith swyddogol ydi Greenlandic, ond gall y mwyafrif siarad Daeneg fel ail iaith. Mae addysg yn rhad ac am ddim yno, ac mae pob plentyn yn gorfod cael 11 mlynedd o addysg cynradd. Yna mae'r hawl ganddynt i adael yr ysgol, naill ai i ysgol uwch ac yna i goleg, neu i ddsygu crefft. Mae y rhan fwyaf sy'n graddio yn gwneud eu cwrs prifysgol yn Denmarc.

Mae gofal iechyd yn rhad ac am ddim yno hefyd. Ceir ysbytai yn y trefi mwyaf, clinigau yn y trefi llai ac mae nyrsus yn y pentrefi. Bydd hofrennydd wrth law i gludo rhai sydd mewn argyfwng i'r ysbytai agosaf. Ond os na ellir sicrhau triniaeth yn Greenland, yna fe drefnir i hedfan y claf naill ai i Ddenmarc neu i'r Ynys Iâ – Iceland.

Sut le ydi Greendland, felly? Wel, lle mawr yn sicr, ond dim ond rhan fechan iawn o'r ynys fedrwch chi ei thramwyo. Lle oer, ond yn sicr, lle diddorol, gyda bryniau ac weithiau mynyddoedd o eisbergs yn gwylio ei glannau. A hyd yn hyn does 'na fawr o dwristiaid yn hel eu pac i fynd i le mor anghysbell.

Wrth hwylio o Nuuk ar ein taith dros ran arall o Fôr Iwerydd, i gyfeiriad Newfoundland a Nofa Scotia, fe drawodd ein llong, *Black Watch*, yn erbyn eisberg a bu panig am ychydig, o gofio bod cwrs y llong ar y pryd ar yr union lwybr lle suddodd y *Titanic*. Ond fe gyrhaeddom yn ddiogel ac i lawr y St Lawrence i Quebec, taith o 1,480 o filltiroedd môr.

Ia, heb os, dyma un o fy hoff deithiau – neu fôr-deithau – i fod yn gywir.

Parcio Anghyfreithlon
Trefn Newydd i Wynedd

Bydd gyrwyr sy'n parcio eu ceir mewn mannau anghyfreithlon yng Ngwynedd yn fwy tebygol o gael eu cosbi o dan y drefn newydd a fydd yn dod i rym ym mis Ebrill 2007.

Ar hyn o bryd yr Heddlu sy'n gyfrifol nad ydy gyrwyr yn parcio mewn llefydd anghyfreithlon yng Ngwynedd, ond o dan y drefn newydd, y Cyngor fydd yn gorfodi Gorchmynion Rheoli Traffig, sef cyfyngiadau llwytho, llinellau melyn sengl a swbl.

Fel rhan o'r drefn bydd y Cyngor yn cyflogi tîm newydd o weinyddwyr parcio a fydd yn patrolio strydoedd a meysydd parcio'r Cyngor. Bydd ganddynt y gallu i roi Hysbysiad i Dalu Cosb ar gerbydau a fydd yn torri'r rheoliadau.

Bydd y drefn newydd yn gwneud ffyrdd Gwynedd yn fwy diogel ar gyfer y mwyafrif helaeth o yrwyr sy'n cadw at y rheolau heb broblem.

'Mae pobl sy'n parcio ar linellau melyn neu ar y pafin yn creu perygl i eraill,' meddai'r Cynghorydd Tomos Evans, Uwch-Arweinydd Amgylchedd Cyngor Gwynedd. 'Bydd y system newydd fydd yn cael ei rhedeg gan y Cyngor yn gwella diogelwch yn gyffredinol, yn enwedig o gwmpas ysgolion ble mae parcio anghyfreithlon yn achosi llawer o ddamweiniau. Os ydych chi'n parcio'n gyfreithlon, does dim rhaid i chi boeni. Ond, os ydych yn un o'r lleiafrif sy'n parcio ar linellau melyn neu os nad ydych yn talu yn y meysydd parcio, rydych yn fwy tebygol o gael eich cosbi o dan y drefn newydd,' ychwanegodd.

Mae'r Cyngor wedi lansio gwefan newydd sy'n rhoi mwy o wybodaeth i yrwyr am y drefn newydd ac yn rhoi atebion i'r cwestiynau a ofynnir yn aml. Ewch i www.gwynedd.gov.uk/parcio.

Cofiwch ddefnyddio
SWYDDFA POST BETHEL
(01248) 670261

ORIAU AGOR
6 a.m.–7.30 p.m.
(Llun–Sadwrn)
6 a.m.–6 p.m. (Sul)

Cewch groeso cynnes gan
CLED A SUSAN

Cofiwch am ein gwasanaeth newid pres tramor, yswiriant, talu biliau, etc., yn ogystal â gwasanaethau arferol Swyddfa'r Post.

A hefyd Paypoint, Loteri a Pheiriant Tynnu Pres (Cashback)

Sychlanhau • Altro
Ailwnïo
Gwasanaeth
Casglu a Danfon

54 Stryd Fawr
Llanberis
Ffôn: **870088**

SWIGOD A SEBON

GWASANAETH GOLCHI A SMWDDIO

COFEB

Yn y *blynyddoedd a fu roedd* codi cofeb i gofio am fawrion ein cenedl yn beth eithaf cyffredin ar hyd a lled ein gwlad, gyda chyfoeth a statws y person hwnnw'n dylanwadu ar fath a maint y gofeb. Cymerwch gofeb Lloyd George, Owain Glyndŵr neu Tomos Charles i enwi ond ychydig. Yn ddiweddar yn ardal yr *Eco*, codwyd cofeb llechen fechan yn Ninorwig i gofio yn serchog am y miloedd o chwarelwyr y fro a roesant oes o'u llafur a'u hiechyd i naddu'r graig a gwneud elw taclus i deulu'r Faenol am bron i ddwy ganrif. Bychan iawn ei maint yw y gofeb hon – oni haeddir gwell i goffáu llafur a chyfraniad y chwarelwyr a fu'n gweithio am grocbris ac o dan amodau gwaith gwarthus?

Ym mynwent Nant Peris saif un gofeb uwchlaw pob un arall. Cofeb Griffith Ellis, Hafoty, Dinorwig a oedd, yn ôl yr ysgrifen ar y garreg; yn '*Prif Oruchwyliwr Chwarelau Dinorwig*'. Oedd, roedd o'n ddyn uchel ei statws ac yn bwysig iawn ac, i wneud yn siŵr nad oedd trigolion y Nant am ei anghofio gosodwyd carreg goffa arall o farmor drudfawr ar fur Eglwys Sant Peris, rhyw 30 llath oddi wrth y gwreiddiol. Yn wir, y mae mynwent eglwys Peris Sant yn cynnwys nifer fawr o reolwyr a phwysigion y chwarel.

Un arall â'i glodforir gyda dwy gofeb hynod yn ein bro yw cyn-Arlywydd America, *Thomas Jefferson. Ai gimig i* ddenu ymwelwyr i'n bro oedd codi'r gofeb ar lan llyn Padarn a'r gofeb arall oddi fewn i furiau yr Amgueddfa Lechi yn Llanberis? Yr honiad tu ôl i'r fenter, yn ôl y sôn, yw bod mam Mr Jefferson wedi ei geni rhywle yn Eryri dros ddwy ganrif yn ôl. Nid oes unrhyw dystiolaeth ysgrifenedig i gadarnhau hyn ac ni ymwelodd y gwron erioed ag ynysoedd Prydain yn ystod ei oes, heb sôn am Gymru fach. Cadarnhawyd hyn pan gysylltwyd ag un o is-Lywyddion y Thomas Jefferson Foundation, yn America. Un ffaith bwysig am Mr Jefferson yw ei fod yn geidwad swyddogol o ddau gant o gaethweision croenddu pan oedd yn Arlywydd, er iddo bregethu yn chwyrn ar sawl achlysur i ddileu yr arferiad gwarthus a chreulon yma yn ei wlad. Ffaith arall yw ei fod wedi cael pump o blant gan un o'r caethweision, sef Sally Hemmings, er iddo eto wadu hyn ar sawl achlysur. Cyn marw rhyddhawyd aelodau o deulu Sally Hemmings o'u caethiwed am resymau digon amlwg erbyn heddiw a llwyddwyd i brofi – drwy dechnoleg DNA – mai Jefferson yn wir oedd tad y plant.

Ai dyma'r math o berson sydd yn haeddu cofeb yn ein Hamgueddfa Lechi ynteu ein cyndadau a fu'n llafurio'n galed yn naddu'r graig? Beth yw eich barn chi?

Pwy sydd yn haeddu Cofeb?

Hywel Williams
Aelod Seneddol

Alun Ffred Jones
Aelod Cynulliad

Etholaeth Caernarfon

CYMORTHFEYDD

Os oes gennych fater yr hoffech ei drafod gyda'r A.S. neu'r A.C. mewn cymhorthfa, ffoniwch **01286 672076** i wneud apwyntiad

neu

ysgrifennwch atynt:

Swyddfa Etholaeth
8, Stryd y Castell, Caernarfon LL55 1SE

neu

e-bost: **williamsgw@parliment.uk**

Pryd i Bawb
Bwffe blasus o safon at bob achlysur

Priodas
Parti
Te Angladdau
Cinio Busnes

CERID MACKINNON
Plas Tirion, Llanrug, Caernarfon, Gwynedd LL55 4PY
(01286) 673190

DODREFN PERKINS
(Safle'r hen Nelson)
CAERNARFON
Ffôn: (01286) 676 040

- **Pob math o ddodrefn tŷ**
- **Cegin, 'stafell fyw, llofft**
- **Prisiau cystadleuol**
- **Carpedi, Llenni a Lloriau Pren**

Gosodwr Teils
Arbenigwr mewn waliau a lloriau

Gwaith bach neu fawr
Gwaith da bob amser

Ffoniwch Lloyd ar
01286 830 805



Ar Ben Arall y Lein

ADDEWAIS yn rhifyn y Nadolig y buaswn yn rhoi tipyn o flas i chwi ar rai o sefydliadau pysgota mwaf adanbyddus yr ynysoedd yma. Mae clodfori mawr ar gyrsiau golff mwyaf enwog y wlad, sef St. Andrews a Chwrs Brenhinol Birkdale. Er nad ydw i'n chware golff (a diolch am hynny neu ni fuaswn adref o gwbwl), mae nifer o fy ffrindiau yn olffwyr brwd a'r rhan fwyaf ohnynt wedi gwneud pererindod i chwarae ar y cyrsiau hanesyddol yma. Ac rwy'n sicr eu bod wedi cael hwyl anfarwol yno, mewn mwy nac un ystyr!

Yn yr un drefn mae gan bysgota afonydd nifer o westai sy'n diferu o hanes ac yn galw o bell arnom i ymweld – efallai dim ond un waith yn ein hoes. Felly mae hi hefo mi fodd bynnag, a thros y blynyddoedd rwyf wedi ymdrechu i ymweld â llawer o'r temlau yma. Nid wyf wedi bod mor ffodus eto i gael 'sgota ar rai o'r dyfroedd sanctaidd, ond rwyf wedi medru aros am noson neu ddwy yn y gwestai neu'r *lodges* sy'n gweinyddu'r 'sgota.

Mae pedwar mangre yn Iwerddon yr wyf wedi ymweld â hwy, sef Castell Ashford, Castell Ballynahich, Loch Inagh Lodge yn Connemara a Delphi Lodge yn Mayo. Heb os, y lle mwyaf trawiadol yw Castell Ashford, ond y Delphi a'r Ballynahich gafodd fwyaf o argraff arna i. Felly, cawn ddechrau'r siwrnai gydag ymweliad â Delphi Lodge.

Adeiladwyd Delphi yn 1845 fel llety i'r Marquis Silo. Roedd wedi byw am rai blynyddoedd yng ngwlad Groeg, ond fe'i gorfodwyd i ddod adref o'r haul oherwydd materion gweinyddol, a hefyd rheolaeth ei stad. Roedd cyn gymaint o hiraeth arno am y wlad bell fe benderfynodd adeiladu lle iddo'i hun fel y gallai o a'i gyfeillion fwynhau pysgota a hela mewn llecyn gorfoleddus.

Mae'r adeilad, neu'r gwesty fel y mae heddiw, yn cael ei redeg yn gampus gan y perchnogion, sef Peter a Jane Mantle. Mae'r holl le yn pelydru croeso a chynhesrwydd, ond nid yw hyn wedi bod yn wir erioed. Rai blynyddoedd ar ôl ei adeiladu fe ddisgynnodd y fantell ofnadwy o newyn ar y rhan yma o Iwerddon.

Yn ystod Mawrth 1847 fe ymgasglodd tyrfa fawr o drigolion newynog yn nhref Louisburgh i geisio cymorth gan y Swyddog Cynorthwyo. Fel y gallwch ddychmygu, nid oedd llawer o synnwyr i'w gael ganddo ac, fel Swyddog o'r gwasanaeth llywodraethol, ymatebodd y buasai'n rhaid gwneud y cais i Fwrdd y Gwarchodwyr. Roedd rheini i gyfarfod y diwrnod canlynol yn y Delphi, a oedd ddeng milltir i ffwrdd (does dim wedi newid dros yr holl flynyddoedd!).

Er iddynt dreulio noson yn yr awyr agored yn cerdded dros nos i'r Delphi, fe wrthododd y Bwrdd Gwarchodwyr gyfarfod â hwy nes yr oeddynt wedi gorffen eu cinio. Fe aeth y gwledda ymlaen am gryn amser ond, ar ôl gorffen, fe gytunwyd i gyfarfod â'r newynog. Y canlyniad oedd gwrthod rhoi unrhyw gymorth!

Ar eu ffordd adrref am Louisburgh drwy wlad anial a charegog fe ddaeth yn storm fawr o eira, a'r canlyniad oedd i lawer iawn golli eu bywydau. Mae'r gofgolofn i'r drychineb i'w gweld ar ochr y ffordd heddiw sy'n arwain o Leenane i Louisburgh heibio'r Llyn Du.

Mae'r pysgota yma yn fyd-enwog, gyda'r atyniad mawr o allu pysgota am eog a sewin oddi ar gwch. Mae'r tymor yn ymestyn o ddechrau Chwefror hyd at ddiwedd Medi, gyda'r misoedd gorau yn ystod yr haf. Mae cynllun ardderchog yma ble mae gelisiad eog yn cael eu magu i gynyddu'r nifer sy'n dychwelyd i'r afon – cynllun yr ydym ninnau fel cymdeithas yn ceisio'i efelychu yma ar y Seiont, gyda'r magu yn cymryd lle yn neorfa Crawia.

Os oes awydd arnoch i ymweld â'r Delphi tu allan i'r tymor pysgota, mae gwyliau byr ar gael – dau neu dri diwrnod am bris rhesymol iawn – mae'r bwyd yn ardderchog hefyd.

Cawn weld ble fu'r daith y mis nesaf!

Yn nes adref, cofiwch – aelodau tymor 2006 – godi eich tocynnau eleni cyn 1af Mawrth os am fanteisio ar ddisgownt pris aelodaeth.

HUW PRICE HUGHES

Rygarug

Newyddion o Rygarug

gan Elain a Cara

MAE'R cast i'n sioe 'Gwyrdd' wedi ei ddewis! Bu cyffro mawr yn Rygarug cyn y Nadolig pan gyhoeddwyd pwy oedd pwy! Dyma restr o pwy fydd yn chwarae pwy, ac ychydig am y cymeriad hwnnw:

Vincent Prydderch: Iestyn Owen. Vincent Prydderch ydy gŵr ffyddlon Valerie Prydderch a thad Tamsin Shan Prydderch. Mae teulu Vince yn gyfoethog ac mae o'n hoffi difetha ei wraig.

Valerie Prydderch: Heledd Anna Roberts. Valerie Prydderch ydy gwraig Vincent a mam Tamsin Shan. Mae Valerie yn snob sydd yn meddwl ei bod yn posh ac yn cael ei difetha gan ei gŵr.

Tamsin Shan Prydderch: Ilid Angharad Jones. Mae Tamsin Shan yn ferch i Vince a Val ac mae hi'n cael ei difetha yn racs gan ei rhieni ac mae hithau yn snob fel ei mam.

Idwal: Owain Glyn. Idwal ydy gwas y Prydderchs ac mae o'n gwneud ei orau i siarad Saesneg gyda nhw a'u gwesteion ond mae o'n anobeithiol.

Mrs Llywelyn: Ffion Wyn Roberts. Athrawes Daearyddiaeth barchus yw Mrs Llywelyn ac mae ganddi barch mawr at y plant a'r gymdeithas.

Tomos Ifan: Christopher Roberts. Bachgen tlawd a chlyfar ydy Tomos Ifan ac mae o'n gofalu am ei fam anabl.

Mair Ifan: Jessica Salisbury. Mam Tomos Ifan yw Mair Ifan ac mae hi mewn cadair olwyn. Mae hi'n ddynes gall ac yn ddiolgar iawn i Tomos Ifan am ofalu amdani.

Mostyn yr Ystlum: Elain Siân Roberts. Ystlum peniog iawn yw Mostyn sy'n credu ei fod yn ddoniol iawn ond tydi o ddim o gwbwl!

Nesta yr Ystlum: Ffion Cara Mitchell. Gwraig Mostyn ydy Nesta ac mae hi wrth ei bodd yn gwario yn y sêls ac yn hoff iawn o bosio.

Dafydd: Iolo Pryfdir Jones. Dafydd yw ffrind gorau Tomos Ifan ac mae'n rhoi syniadau da i Tomos Ifan.

Mr Braithwaite: Gwenno Angharad Gibbard. Cyfrifydd Vince a Val yw Mr. Braithwaite.

Y Gornel Broblemus

Rant am Everton

RYDYM ni, gefnogwyr Everton, wedi cael digon o bobl yn rhoi ein tîm i lawr! Mae gennym yr hawl i'w cefnogi ond mae rhai yn ein trin fel petaen ni'n torri'r gyfraith!!!! Mae bron pob un o fy ffrindiau yn cefnogi Lerpwl neu Manchester Utd a dim ond tua 5 i 7 o blant rwy'n nabod sydd yn cefnogi Everton! Mae pawb yn dweud fod Lerpwl yn well tîm na Everton ond yn ein gêm ddiwethaf yn eu herbyn mi wnaethom ni ei curo 3–0!!!!! Dydw i ddim yn dweud fod Everton yn well tîm na Lerpwl na Manchester Utd, ond weithiau rydym yn chwarae yn well na nhw ac weithiau mae nhw yn chwarae yn well na ni! Mae'n dibynnu ar sut siâp sydd ar y tîm a faint o ymarfer maent wedi bod yn ei wneud! Felly os ydych yn darllen hwn cofiwch roi chwarae teg i bob tîm.

FFION ERIN WILLIAMS

Cyfweliad efo Chris Roberts (Tomos Ifan)

MAE Chris Roberts yn 13 ac yn ddisgybl yn Ysgol Brynrefail. Yn 'Gwyrdd', sioe ddiweddara Rygarug mae o wedi cael y brif rhan, Tomos Ifan.

Wyt ti yn mwynhau actio a pham?
Chris: Yndw, rydw i yn mwynhau actio oherwydd ei fod yn lot o hwyl.

Wyt ti yn hapus â'r cymeriad?
Chris: Mae o yn brif gymeriad ac yn sialens enfawr i mi.

Beth yw'r peth gorau am yr rhan?
Chris: I mi, y peth gorau am y rhan ydi cael siarad gyda'r anifeiliaid, a mynd ar y daith.

Beth yw y peth gwaethaf am y rhan?
Chris: Wel, y llinellau sydd yna i'w dysgu! Ond mi fydd o werth o yn y diwedd! Mae gen i lawer o linellau, rwyf mewn 6 golygfa!

Sut mae dy berthynas gydag Ilid, sydd yn chwarae Tamsin Shan?
Chris: Mi rydan ni'n dod ymlaen yn dda. Doeddwn i erioed wedi actio gyda hi o'r blaen.

Diolch Chris. Cofiwch fynd i weld sioe 'Gwyrdd' yn Theatr Gwynedd ar y 4 a'r 5 o Ebrill 07!

FFION W ROBERTS

Beth sydd yna i'w wneud yn Llanrug?

YN LLANRUG does dim llawer o bethau i'w gwneud i blant oedran un ar ddeg i bymtheg, heblaw am Rygarug, wrth gwrs! Mae clwb ieuenctid yn yr ysgol uwchradd ond plant blwyddyn wyth ac i fyny sydd yn cael mynd yno. Dwi'n meddwl y dylid agor rhywbeth ar ôl ysgol i blant ein oedran ni yn yr ysgol uwchradd oherwydd ar y funud does na ddim lle i blant fel y fi fynd i wneud pethau efo ein ffrindiau, a dwi'n siŵr y byddai hynny'n cadw plant allan o drwbwl ac yn stopio llawer o fandaliaeth yn yr ardal.

CARA MITCHELL

Eich Nadolig: Wnaethoch chi fwynhau'r Nadolig? Pam?

FE WNES i fwynhau'r Nadolig ac roedd y twrci yn flasus hefyd. Cefais anrhegion neis. Fy hoff anrheg oedd y gêm gyfrifiadur, Sims 2 Petc. Roedd yn braf bod gyda fy nheulu ar ddiwrnod Nadolig. Es i i dy Nain am ginio Dydd Gŵyl Steffan.

SIONED ELIN GRIFFITHS

MWYNHEAIS y Nadolig oherwydd mi ges i bresantau da. Hefyd roedd fy nain yn aros noswyl Nadolig a mi gafodd ginio hefo ni. Roedd y bwyd yn neis iawn. Am 8 o'r gloch wnaethon ni edrych ar *Noson Lawen* ar y teledu oherwydd bod fy ffrinidau Mari, Hannah ac Anna arno yn canu hefo Meinir Gwilym. Roedd o yn gret!

BETHAN ROBERTS

MWYNHEAIS y Nadolig a rhoi'r addurniadau i fyny ond roedd hi'n gyffrous iawn i ddeffro i bresantau ac arogl twrci hyfryd o'r gegin. Fy hoff anrheg i oedd y ffôn, a gefais gan fy ewyrth Sion, a'r gitâr fas a gefais gan mam a dad.

HANNAH TULLIVER

Colli Cyfaill

Bu 11 Ionawr eleni yn ddiwrnod digalon i aelodau Sardis, Dinorwig, a Libanus, Clwt y Bont, pan dderbyniwyd y newydd trist am farw ein cyn-weinidog, y Parch Ifor Lloyd Williams, Bangor.

Yr oedd y cysylltiad rhyngddo ef a ninnau yn mynd yn ôl cyn belled â phum degau'r ganrif ddiwethaf, pan ddaeth yn fyfyriwr i Goleg y Bedyddwyr, Bangor, o Gwm Rhymni. Ar ddiwedd ei gwrs yno fe'i gwahoddwyd i fod yn weinidog arnom. Bu'r Cyfarfod Ordeinio yng Nghapel Sardis ar 16 Gorffennaf 1952 a'r Cyfarfod Pregethu yn dilyn gyda'r nos yng Nghapel Dinorwig, am nad oedd digon o le i'r gynulleidfa yn Sardis.

Tra'n gweinidogaethu yn ein plith llwyddodd i ennill serch a pharch ei gynulleidfa, ac yn arbennig felly y nifer fawr o bobl ifanc a fynychai'r capel bryd hynny.

Pan oedd yn cartrefu yng Nghlwt y Bont cafodd ei briod, Mrs Mary Williams, swydd fel athrawes yn Ysgol Dinorwig am beth amser. Ganed mab iddynt, ac yntau wedi dod erbyn hyn yn adnabyddus fel cyflwynydd newyddion a rhaglenni eraill ar y teledu, sef Dewi Llwyd. Yn ddiweddarach ganed Meurig Llwyd, yr ail fab, ac sydd ar hyn o bryd wedi ei benodi'n Archddiacon yr Eglwys yng Nghymru ym Mangor.

Ai hiraethu am y de yr ydoedd pan symuodd i Dreforus? Ni fu ei arhosiad yno'n hir a dychwelodd i'r gogledd a dod yn weinidog Penuel, Bangor. Cyn bo hir daethom ninnau, Sardis a Libanus, yn rhan o'r weinidogaeth honno ac yntau yn ôl yn ein mysg yn y 'topiau', fel y cyfeiriai atom.

Yr oedd y niferoedd mawr a orlenwodd yr Amlosgfa ym Mangor ddydd ei angladd yn dyst i'r parch a'r cyfeillgarwch a ennynai. Dyna dystiai ei weinidog presennol, y Parch Olaf Davies, a'r gweinidogion eraill a gymerai ran yn y gwasanaeth.

Lluniodd y Prifardd Jams Niclas gywydd ar ymddeoliad ei weinidog. Dyma un pennill ohono:

Y gwaith ydyw pregethu,
Daeth o'i lef fendith i lu.
A thrwy lef ddaeth o'r lofa
Rhannodd hwn yr hyn oedd dda.

Cefnogwch ein hysbysebwyr

WAUNFAWR

Mrs Nan Roberts, Pantafon. Ffôn: (01286) 650570

CLWB 300. Dyma enillwyr y Clwb 300 am fis Rhagfyr: £40: Mrs Gwen Otton, 4 Pant y Waun; £25: Mrs Iola Gruffydd, Tregarnedd; £10: Mr T.E. Jones, Penrhyn, Lôn Ddewi, Caernarfon.

DIOLCH. Dymuna Catherine Jones, Bryn Gwenallt, ddiolch o galon i'r teulu a'r llu o ffrindiau am yr holl anrhegion a'r cardiau a dderbyniodd ar achlysur ei phen-blwydd arbennig ym mis Tachwedd., Ymddiheuriad am fod mor hwyr yn diolch, ond fe aeth yr *Eco* i'w wely ynghynt na'r arfer ym mis Rhagfyr!

SEFYDLIAD Y MERCHED. Cynhaliwyd cyfarfod o'r Sefydliad yn festri Eglwys y Waun ar 7 Rhagfyr a chroesawyd yr aelodau gan Catherine Jones, y Llywydd. Cafwyd pnawn difyr iawn gyda'r aelodau yn siarad ac yn arddangos pethau o ddiddordeb personol iddynt hwy. Diolchodd y Llywydd i'r aelodau ac hefyd i Mair Williams a Nancy Buckley am baratoi'r te a'r meins peis da iawn!

Ar 4 Ionawr croesawodd y Llywydd dair ar ddeg o'r aelodau i Dafarn yr Afr, Glandwyfach. Cyfeiriodd Catherine at farwolaeth Mrs Margaret Brown, mam Duncan ac Allison, gan gydymdeimlo â'r teulu. Roedd Mrs Brown wedi bod yn aelod ffyddlon a gweithgar o'r Sefydliad tra'r oedd yn byw yn y Waun. Hefyd estynnodd longyfarchiadau i Rose Ann ac Eifion Hughes ar ddathlu eu Priodas Ruddem.

Eisteddodd pawb i lawr i ginio Nadolig blasus iawn a derbyniodd pob aelod anrheg yn ystod y cyfarfod.

Bydd y cyfarfod nesaf ar 1 Chwefror, a'r siaradwr gwadd fydd Dafydd Owen o'r Adran Gwasanaethau Cymdeithasol. Croeso cynnes i aelodau newydd. Rydym yn cyfarfod am 1.30 o'r gloch y dydd lau cyntaf yn y mis yn festri cefn Eglwys y Waun.

MERCHED Y WAWR. Nos lau, 7 Rhagfyr, bu'r gangen yn dathlu'r Nadolig yn y Bistro, Llanberis. Roedd y danteithion, fel arfer, yn flasus dros ben a'r llywydd, Sylvia Jones, wedi paratoi adloniant pwrpasol iawn ar ein cyfer. Iona Williams enillodd ar y llinell goll ac roedd Siôn Corn wedi gofalu bod anrheg fechan ar gyfer pawb.

Bydd y cyfarfod nesaf yn Y Ganolfan, fel arfer, am 7.30 nos lau, 25 Ionawr pryd y bydd Norman yn mynd â ni i fyd adloniant.

Ar 19 Ionawr, bydd Alma ac Irene, o bawb, yn cymryd rhan mewn Tawelwch Noddedig sy'n cael ei drefnu gan Bwyllgor yr Anabl yn y rhanbarth i godi arian tuag at Feddygaeth Amgen yn Ward Alaw, Ysbyty Gwynedd. Os ydych yn dymuno eu noddi, cysylltwch â hwy ar 650370 neu 650545.

HEL ATGOFION. Rhwng y Nadolig a'r Flwyddyn Newydd bu dipyn o edmygu ar waith John Lloyd Wiliams pan daeth â'i fws yr holl ffordd o gyffiniau Llundain i Gaernarfon. Un o fysiau cwmni Whiteways ydi'r bws a bu John (Halford House, gynt) wrthi am 24 mlynedd yn ei atgyweirio a'i adnewyddu. Addawodd i'w nith, Llinos Haf, y buasai'r bws yn barod ac yn 'ideal' i gario gwesteion ei phriodas hi ac Einion o'r gwasanaeth yng Nghapel Gosen, Trefor, i'r neithior yn Meifod, Bontnewydd. Siomwyd mohonynt. Yn sgil hyn cafodd cyn-weithwyr cwmni Whiteways a thrigolion y pentref gyfle i hel atgofion wrth gael teithio yn y bws o Gaernarfon, drwy'r Waun, i Feddgelert ac yn ôl.

PEN-BLWYDD PRIODAS. Llongyfarchiadau a phob dymuniad da i Mr a Mrs Elfed Roberts, Dwyros, ar ddathlu eu Priodas Ddiamwnt. Dymuna Doris ac Elfed ddiolch i'w teulu a ffrindiau am gofio dathliad eu priodas ar 8 Ionawr. Derbyniasant gerdyn oddi wrth y frenhines hefyd.

Dathlu eu Priodas Ruddem y bu Eifion a Rose Ann Hughes, Stad Tref Eilian. Llongyfarchiadau a phob dymuniad da i chwithau hefyd.

DATHLU PEN-BLWYDD YN DDEUNAW OED. Bu tri o bobl ifanc y pentref yn dathlu cyrraedd eu deunaw oed. Dymunwn longyfarch a dymuno'n dda i Claire Louise Davies, Stad Tref Eilian; Elen Jones, Stad Dôl Erddi a Deion Jones, Tan-y-coed, Stad Bodhyfryd. Pob hwyl ichi i'r dyfodol.

GENEDIGAETH. Llongyfarchiadau i Dr Raymond a Laura Williams, Tros-y-Gors ar ddod yn daid a nain i Megan, merch fach i'w mab, Gwyndaf, a'i wraig, Karen.

Daeth Iestyn a Brenda Jones, Tŷ Ni yn daid a nain unwaith eto. I Gwern Rhys y tro hwn, mab bach Eurig a Saran, Bryn Gloch, Betws Grmon, a brawd i Brychan Rhys. Llongyfarchiadau mawr ichi.

BEDYDDIO yng Nghapel y Waun. Fore Sul, 10 Rhagfyr, gyda'r Parch Gwenda Richards yn gweinyddu a Mrs Catherine Jones wrth yr organ, bedyddiwyd Chloe, merch fach Karen a Michael Owen, Bro Waun.

Fore Sul, 7 Ionawr, gyda'r Parch Gwilym Parry yn gweinyddu a Mrs Rhian Ellis wrth yr organ, bedyddiwyd Non Wyn, merch fach Emlyn a Iona, Garreg Fawr.

GWELLHAD BUAN. Dymunwn wellhad buan i Dylan, mab bychan Rhian a Martin, Stad Tŷ Hen, wedi iddo orfod treulio ychydig ddyddiau yn yr ysbyty.

Hefyd i Beryl Jones, Dôl-y-Coed wedi iddi wneud niwed i'w throed.

YN YR YSBYTY. Anfonwn ein cofion cynhesaf at Mrs Megan Williams, Tref Eilian, sydd yn yr ysbyty ar hyn o bryd.

RHAID LLONGYFARCH a chanmol plant ac ieuenctid y pentref fu'n cymryd rhan yng ngwasanaethau a chyngherddau Nadolig yr Ysgolion Uwchradd, yr Ysgol Gynradd a'r Ysgol Sul.

CYDYMDEIMLO. Anfonwn ein cydymdeimlad dwysaf at Mr Elfed Jones a theulu Bryn Menai yn eu profedigaeth o golli mam Elfed ddiwedd y flwyddyn ddiwethaf.

Yn dawel yn Ysbyty Gwynedd bu farw Mr Gwilym Madog Jones, Stad Bro Waun, priod annwyl Emsyl a thad Alun Rhys a David a'u teuluoedd. Roedd yn frawd i Edith Ellis, Min y Nant ac Arianwen Thomas a brawd yng nghyfraith caredig i Gareth. Cydymdeimlwn yn ddwys â chi fel teulu yn eich profedigaeth drist.

HSYBYSIAD O FARWOLAETH. Bu farw Margaret Brown yn 95 oed, gynt o Ben y Bont a Haul a Gwynt, Waunfawr, yn ddisymwth ar 27 Rhagfyr 2006 tra'n mofyn ei neges yn Sidmouth, Dyfnaint. Roedd Margaret yn weddw i'r diweddar Arthur Brown ac yn fam i Duncan ac Alison, mam-yng-nghyfraith i Gill, nain i Beca a hen nain i Leisa a Tomi. Roedd yn gyfaill i amryw ac fe'i cofir yn enwedig am ei sêl dros waith Sefydliad y Merched yn y pentref a thu hwnt. Cyfraniadau, yn ôl dymuniad, at Macmillan Cancer Care, d/o Potbury's Funeral Service, Sidmouth (ffôn 01395 515355).

Anfonwn ein cydymdeimlad dwysaf at Alison a Duncan a theulu Gwelfor yn eich colled drist.

YSGOL WAUNFAWR. Hoffai plant a staff yr ysgol ddymuno Blwyddyn Newydd Dda i holl ddarllenwyr yr *Eco*. Yn ystod y tymor diwethaf casglwyd dros naw can punt at achosion da: £557. tuag at Apêl NSPCC; £100 a £300 tuag at Plant Mewn Angen. Diolch i bawb am eu haelioni.

Bu'n ddiwedd tymor prysur fel arfer. Bu aelodau'r Côr yn canu Carolau yn y Noson Fins Peis yn yr Antur ar 24 Tachwedd. Da iawn chi, roedd pawb wedi mwynhau eich clywed yn canu.

Cafodd plant Blwyddyn 5 a 6 brofi Nadolig Fictorianaidd ym

parhad ar dudalen 20

Bws John Lloyd Williams yn 'fws priodas'.

mwthyn Highgate ac Amgueddfa Lloyd George yn Llanystumdwy ddydd Iau, 7 Rhagfyr. Cawsant gyfle i wneud pwdin Dolig, gwisgo yn nillad y cyfnod, gwneud addurn Nadolig yn ogystal â chael sesiwn farddoniaeth gyda'r bardd, Meirion Macintire Huws. Cafwyd diwrnod addysgol da iawn a phawb wedi mwynhau eu hunain.

Bu Anti Margaret ac Anti Sylvia yn ddiwyd yn paratoi cinio Nadolig blasus ar ein cyfer ddydd Iau, 14 Rhagfyr. Cafwyd cystadleuaeth het Nadolig a chawsom ymweliad gan Siôn Corn yn ystod y pnawn.

Cafwyd tair sioe Nadolig lwyddiannus iawn yn y Ganolfan. Diolch i'r plant a'r staff am eu gwaith clodwiw a diolch i'r rhieni hynny a fu'n helpu gyda'r goleuadau, y gwisgoedd a gwerthu raffl ac ati. Diolch i Steven Kington Everett am ffilmio'r sioe, bydd DVD ar werth yn fuan a bydd yr elw'n mynd tuag at greu murluniau yng nghoridor Adran y Babanod.

Dyma adroddiad Lois, bl. 6:
Roeddwn wedi bod yn edrych ymlaen at y diwrnod mawr, sef Sioe Nadolig Dr Who. Roeddem wedi bod yn ymarfer ers wythnosau, wedi colli ychydig o wersi ac roedd hynny'n beth da! A hefyd ambell i amser chwarae. Roedd rhaid gwneud yn siŵr bod y dillad yn iawn a'r sgript a'r caneuon cyn gwneud y perfformiad go iawn.

Ar ddechrau'r sioe canodd yr ysgol i gyd, 'Hei, hei, beth sy'n digwydd?' Ar ôl y gân reoddwn wedi colli fy nerfau i gyd. Roedd y dosbarthiadau i gyd yn cael mynd ar y llwyfan a pherfformio yn eu twrn. Roedd rhai o blant adran y babanod yn codi llaw ar eu rheini yn y gynulleidfa. Mrs Griffiths oedd yn chwarae'r piano dwi'n siŵr bod ei dwylo yn brifo. Roedd gweddill y staff yn gwneud yn siŵr bod y plant i gyd yn mynd yn drefnus yn eu twrn ar y llwyfan.

Pan ddaeth fy nhwrn i aeth fy mol i grynu a fy mysedd i chwysu. Canais y gân 'Shopa, shopa, shopa,' ac roedd pob dim drosodd mewn dim.

Roedd y neuadd yn orlawn o deuluoedd ond nid oeddwn yn gallu gweld fy mheulu i yn unlle. Ond roeddwn yn gwybod eu bod nhw yna, yn cynnwys fy mrawd mawr, Elgan, a oedd adre o'r coleg.

Roedd y gwisgoedd yn berffaith ac wedi cael eu gwneud gan mam Kushla. Diolch am ei gwaith caled.

Yn ystod yr wythnos bu tri pherfformiad i gyd. Ac erbyn y trydydd roeddwn wedi mwynhau fy hun yn arw. Pris mynediad oedd dwy bunt y tocyn wedi eu prynu o flaen llaw. Gwnaeth yr ysgol elw da at brynu adnoddau newydd i'r plant. Yn anffodus dwi yn mynd i'r ysgol uwchradd eleni ac felly ni chaf byth gymryd rhan mewn sioe Nadolig eto ond gobeithio y caf ddod nôl i weld sioe y flwyddyn nesaf. Diolch fy mod wedi cael cymryd rhan eleni ac i bawb am eu gwaith caled.

* * *

Daeth rheini y plant Meithrin i'r ysgol fore dydd Iau, 21 Rhagfyr i glywed y plant yn canu a chael paned a mins pei. Roedd y plant yn werth eu gweld yn eu gwisgoeddd a chyn mynd adref daeth Siôn Corn ag anrheg iddynt.

Yn ystod y tymor hwn bydd Miss Ceri Ellis, sy'n fyfyrwraig ym Mhrifysgol Bangor, yn treulio chwe wythnos yn nosbarth Miss Mandy Roberts ar gyfnod o ymarfer dysgu. Dymunwn bob llwyddiant iddi. Yr un modd dymunwn yn dda i Mr Aron Morgan sy'n arsylwi gwersi yn yr Adran Iau dros gyfnod o dair wythnos.

Dyddiadau i'w cadw mewn cof:
- Bydd y Clwb Brecwast yn cychwyn fore Llun, 22 Ionawr;
- Ni fydd ysgol dydd Llun, 5 Chwefror. Cynhelir sesiynau hyfforddiant i'r athrawon.

Cinio Nadolig yn Ysgol Waunfawr

Siôn Corn gyda blwyddyn derbyn ac un yn Ysgol Waunfawr.

CYNGOR CYMUNED LLANBERIS

Mae'r Cyngor eto eleni yn estyn gwahoddiad i fudiadau gwirfoddol lleol wneud cais am gymorth ariannol o Gronfa Cymorthdaliadau Bychan y Cyngor. Cyfyngir y ceisiadau i fudiadau lleol neu fudiadau sy'n gweithredu'n lleol.

Dylid anfon cais, yn ogystal â mantolen ariannol, at y Clerc cyn y 12fed o Chwefror, 2007.

Anfonwch at:
Clerc Cyngor Cymuned Llanberis (EW), Ty'n Twll, Nantperis, Caernarfon. LL55 4UL

SNOWDONIA PARC
WAUNFAWR
•Tŷ Rhydd • Bwyd Cartref • Prydau Plant
• Ystafell Deulu • Cinio Dydd Sul Traddodiadol
• Cerddoriaeth Fyw • Cwrw Go Iawn
Ffôn: 650218

Gorsaf Betrol Beran Deiniolen.

Golchi a ll'nau Ceir
Carwash/Vac

Ar agor 7yb - 9yh bob diwrnod
Petrol, Diesel, Nwy Calor a Glo
Loteri, Papurau Newydd
Off Licence, Bake'n Bite
Brechdanau a Diodydd Poeth

Costcutter

01286 871521

Perfformiad 'Ffordd Tangnefedd'

Braf oedd gweld cynulleidfa fawr, (dros 100 o bobl), wedi ymgynnull yn Eglwys Sant Padarn, Llanberis nos Fercher, Rhagfyr yr 20fed i wylio perfformiad o Ddrama Gerdd Newydd ar gyfer y Nadolig. 'Ffordd Tangnefedd' gan Eric Jones a Garry Owen.

Mr Gareth Jones gafodd y syniad o berfformio'r sioe er mwyn rhoi cyfle i bobl ifanc yr ardal ddangos eu doniau. Parod iawn oedd pobl y pentref i ddod ynghyd i helpu a chymryd rhan. Cwta wyth wythnos o ymarfer fu cyn y noson, a dim ond un ymarfer bob wythnos, ond bu i bopeth ddod at ei gilydd yn ardderchog gyda phawb yn cydweithio ac yn ymroddgar iawn.

Roedd y perfformiad yn llwyddiant ysgubol gyda chanmoliaeth fawr gan y gynulleidfa. Ychwanegiad at 'waw ffactor' y fenter oedd fod y cast yn pontio rhwng y Capel a'r Eglwys a bod pobl o bob oed yn cymryd rhan.

Yn dilyn poblogrwydd y sioe roedd perfformiad arall ohoni yn Eglwys Crist Llandinorwig nos Sul, Ionawr y 7fed, ac mae cynlluniau ar y gweill ar gyfer sioe tymor y Pasg yn barod!!!

Mae'r elw a wnaed o'r fenter yn mynd tuag at penodi Cydweithiwr Ieuenctid Cristnogol i Dalgylch *Eco'r Wyddfa*.

Gareth Jones: Cyfarwyddwr Cerdd; Ann Parry Jones: Rheolwr Llwyfan; Parchedig Robert Townsend: Llefarydd; Parchedig John Pritchard: Llefarydd; Sara E. Jones: Unawdydd/ Cyfeilydd/ Arweinydd; Iwan Wyn Williams: Unawdydd/Cyfeilydd /Organydd;
Elin Mai Jones: Unawdydd; Susan Williams: Unawdydd; Stephanie Welsby: Unawdydd; Tristan Thomas: Unawdydd.

Y CAST
Mair: Sara E. Jones;
Joseph: Iwan Wyn Williams;
Angel: Elin Mai Jones;
Elisabeth: Susan Williams;
Sachareias: Tristan Thomas.
Pentrefwyr:
Ralph Jones, Cyril Jones, Valerie Jones, Mared Williams, Delyth Hughes, Nancy E. Jones, Gwyneth Parry, Gwen Townsend, Huw Owen, Daniel Morris, Gwen Alaw Williams.
Tafarnwr: Bert Parry;
Tafarnwraig: Dilys Mai Roberts
Hefyd Côr o dros 30 o leisiau.

Diolch i bob un a oedd ynghlwm â'r sioe.

Caffi Caban

ar Agor
9 y bore tan 4 y pnawn - 7 diwrnod yr wythnos

Cwmni cydweithredol di-elw yw Caban Cyf. wedi ei sefydlu i hwyluso datblygiad economaidd cefn gwlad.

Nod Caban Cyf. yw rheoli gweithrediad cynaliadwy sydd yn cynhyrchu incwm drwy ei brif weithgareddau refeniw (Caffi Trwyddedig, Ystafell Cynhadledd a Gwasanaeth Argraffu a Llungopio) ac ar yr un pryd i gefnogi busnes lleol (Unedau Busnes Caban) er mwyn creu cyfleoedd gwaith.

Caban, Yr Hen Ysgol, Brynrefail
www.caban-cyf.org caban@caban-cyf.org
01286 685 500 (caffi) 01286 685 462 (swyddfa)

Caban CYF

Amgueddfa Lechi Cymru
Gilfach Ddu, Llanberis
(01286) 870630

Annwyl Ddarllenwyr,
A oedd eich tad neu eich taid yn gweithio yn y diwydiant llechi?
A oes gennych ffotograffau yn dangos chwarelwyr wrth eu gwaith.
Os oes, byddai Amgueddfa Lechi Cymru yn falch iawn o gael eu gweld gennych. Ein bwriad yw ehangu ein casgliad o ffotograffau yn ymwneud â'r diwydiant, boed hynny yn ffotgraffau o chwarelwyr wrth eu gwaith; amrywiol olygfeydd o'r chwarel, e.e. ponciau, siediau, incleiniau, peiriannau ayyb; neu yn ffotograffau sydd yn adlewyrchu'r gymdeithas a'r gymuned chwarelyddol, e.e. bandiau pres, corau, timau pêl-droed ac ati.

Byddai'r Amgueddfa yn gwerthfawrogi benthyg y ffotograffau yma gennych am gyfnod byr, creu copi digidol ohonynt ar gyfer ein harchif, ac yna eu dychwelyd yn ôl atoch. Os ydych yn gwybod enwau'r bobl sydd i'w gweld yn y ffotograffau, neu yn gwybod peth o hanes y ffotograff, e.e. dyddiad neu leoliad, byddai o fudd petaech yn gyrru'r wybodaeth yma inni yn ogystal. Edrychwn ymlaen at glywed gennych.
Yn gywir
CADI IOLEN
Curadur

GwalltGo

Stryd Goodman, Llanberis
(Tu ôl i'r Bistro)

Siop trin gwallt
Merched, Dynion
a Phlant

Cysylltwch â Dilys neu Ffion
01286 872414

Oriau agor:
Mawrth – Iau: 9am – 5.30pm
Gwener: 9am – 7.30pm
Sadwrn: 9am – 4pm

Talent Lleol yn Llwyddo

MAE DARLLENWYR Bro'r *Eco* yn gyfarwydd iawn ag Elin Mai ac wedi bod yn gefnogol a balch iawn ohoni yn ei llwyddiant mewn cystadlaethau lleisiol yn yr eisteddfodau lleol, Cenedlaethol (Meifod 2003) a Rhyngwladol (Llangollen 2002).

Roedd 2006 yn flwyddyn brysur a llwyddiannus i Elin Mai. Nid yn unig llwyddodd i gipio sawl gwobr gyntaf ar yr Unawd dan 25, Unawd Cymraeg Agored a Phrif Unawd mewn eisteddfodau o amgylch gogledd a chanolbarth Cymru; llwyddodd hefyd i ennill cystadleuaeth Cerddor Ifanc Rotari Caernarfon 2006, a Cherddor Ifanc Eisteddfod Aelhaearn 2006 am yr eilwaith. Cipiodd hefyd Ysgoloriaeth Eisteddfod Treuddyn.

Roedd hi'n anrhydedd i Elin gael cynnig ymuno â Chôr Seiriol ym mis Medi llynedd wedi iddi gymryd rhan fel unawdydd gwadd efo nhw mewn cyngerdd yn Abergele. Mae hi wedi ymuno â sawl côr fel unawdydd gwadd bellach, gan gynnwys Côr Meibion Dolgellau, Côr Meibion Dwyfor, Côr Meibion Dyffryn Peris, Côr Meibion Betws y Rhos, Côr y Traeth a Chôr Traeth Lafan. Bydd yn perfformio efo Côr y Penrhyn yn Llandudno ym mis Mehefin.

Mae 2007 yn addo bod yn brysur hefyd gan iddi gael ei dewis i fod yn aelod o Gôr Ieuenctid Cenedlaethol Cymru am yr ail flwyddyn yn olynol. Bydd y Côr eleni yn perfformio yn y Proms yn Llundain. Hefyd mae hi'n aelod o Opera Ieuenctid Cenedlaethol Cymru am 2007, a byddant yn cyflwyno opera newydd sbon ym mis Gorffennaf yng Nghanolfan y Mileniwm, Caerdydd.

Ar hyn o bryd mae hi'n astudio llais efo J. Brian Hughes, Gresford, ar ôl astudio am wyth mlynedd cyn hynny gyda Siân Wyn Gibson. Gobeithia, yn y dyfodol, astudio llais yn un o golegau cerdd Llundain.

Mae Elin wedi derbyn sawl ymholiad a oes CD o'i llais ar gael ac, o'r diwedd, mae wedi gallu rhoi rhai o'i hoff ganeuon, i gyfeiliant Annette Bryn Parri, ar ddisg label Gwynfryn Cymunedol, gan obeithio y daw â mwynhad i'r gwrandawyr. Mae'r ddisg yn cynnwys ffefrynnau fel 'Blodau ger y Drws' a 'Cartref', a chaneuon Cymraeg cyfoes fel yr 'Elyrch' a 'Cilfan y Coed'.

Bydd Lansiad y CD nos Iau, 1 Mawrth, yn Eglwys Sant Padarn Llanberis am 7:30 yr hwyr. Yn cadw cwmni i Elin yng nghyngerdd y lansiad bydd Côr Meibion Dwyfor, Côr Seiriol, Lois Eifion, Elen Gwenllian a Barry Gwiliam. Bydd elw'r Noson yn mynd at Apêl Ysgol Pendalar. Pris mynediad fydd £3, ac mae'r tocynnau ar gael yn Formag, Llanberis a Palas Print Caernarfon, neu drwy ffonio'r rhifau ffôn isod.

Bydd albwm cyntaf Elin Mai ar gael ar y noson am bris gostyngol.

Os ydych eisiau archebu copi ar gyfer y noson ffoniwch unai:

(01286) 871101

neu

(01286) 872655

Gwesty

Dolbadarn

LLANBERIS Ffôn: 870277

Am groeso cartrefol Cymreig bob amser Aneuryn Jones a'r staff

E. W. Pritchard

CENTRAL GARAGE

Llanberis

Ffôn: (01286) 870202

TREFNWYR ANGLADDAU

CEIR AR GYFER PRIODASAU

Byddwch yn llawer gwell allan hefo Ni!

AUDI SEAT PORSCHE VOLKSWAGEN

SKODA BMW PEUGEOT

IMPORTS GERMAN SWEDISH

Y Dewis arall Dibynadwy i Wasanaeth Y Prif Ddeliwr. Beth bynnag rydych yn ei yrru, o Audi i VW...

Shell HELIX

MOT

Ceir Benthyg AM DDIM

Cibyn Ind. Est., Caernarfon, Gwynedd LL55 2BD

(01286) 673559 www.a-v-w.co.uk

FIAT VOLVO MERCEDES SAAB

AVW Car Service

BOSCH Service

Am gymorth:

- i gychwyn prosiect
- i gael hyfforddiant
- i geisio am grant
- i redeg mudiad
- i wirfoddoli

cysylltwch â Mantell Gwynedd

– yn cefnogi grwpiau gwirfoddol a chymunedol

ymholiadau@mantellgwynedd.com www.mantellgwynedd.com

01286 672626 neu 01341 422575

MANTELL GWYNEDD

Yn cefnogi grwpiau gwirfoddol a chymunedol

Supporting voluntary and community groups

Elusen Gofrestredig 1068851 • Cofrestrwyd yng Nghymru • Cwmni Cyfynedig drwy Warant 3420271

Problem gyda'ch cyfrifiadur?

Am wasanaeth cyfeillgar i ddatrys a gwella eich cyfrifiadur cysylltwch

â Gomer Roberts

Ffôn : 01286 870462

Symudol : 07962 712368

Cymorth a hyfforddiant amyneddgar i bob oedran er mwyn i chi fedru mwynhau defnyddio eich cyfrifiadur!

MWY O FETHEL

Cyfarfod Nadolig Plant Ysgol Sul Capel Bethel, 17 Rhagfyr 2006

Mair: Moli Roberts; Joseff: Dyfan Hughes.
Angylion: Ffion Hâf Evans, Anya Hughes, Eleri Duston, Betsan Williams.
Bugeiliaid: Nathan Hughes, Iolo Roberts, Ben Evans.
Doethion: Sian Emlyn Parry, Cai Hughes, Iolo Hari Owen.
Darlleniadau: Ffion Bond, Gwenno Parry, Lowri Huws, Fflur Huws.

CLWB BRO BETHEL. Richard Llwyd Jones oedd y gŵr gwadd yng nghyfarfod mis Ionawr ac, yn absenoldeb y Llywydd, Goronwy Jones, croesawyd y siaradwr a phawb arall gan Jenkin Griffiths.

Testun y sgwrs oedd 'Geiriau' a dangosodd Richard, drwy nifer o enghreifftiau sut yr oedd y gair wedi dylanwadu ar awduron a beirdd. Dyfynnodd hefyd amryw o ddarnau llenyddol oedd wedi creu argraff arno dros y blynyddoedd. Yng nghyfarfod mis Chwefror, Gari Wyn fydd yn annerch yr aelodau.

DIOLCH. Diolch o galon i Goronwy Jones, Tan y Ffordd, am ei wasanaeth fel dosbarthwr yr *Eco* ers y rhifyn cyntaf un. Mae Goronwy wedi penderfynu rhoi'r gorau i'w gylch, sydd yn cynnwys rhai ffermydd ychydig yn ddiarffordd, ond gobeithir gwneud trefniadau i barhau i ddosbarthu i'r cartrefi yma. Diolch o galon i Goronwy am ei wasanaeth a dymunir pob iechyd iddo yn y dyfodol.

MERCHED Y WAWR. Dathlodd y gangen y Nadolig eleni yn y Country Manor, Y Felinheli, a chafwyd pryd i'w gofio a chwmnïaeth hapus. Yn dilyn, cafwyd adloniant a drefnwyd gan y Llywydd, Anne Elis. Yr oedd Geraint Lloyd Owen, Bontnewydd, yn garedig wedi gosod tasgau o linell goll a dwy linrig ar ein cyfer a dyfarnodd Anne fod Margaret Druce a Rita yn fuddugol. Dymunwyd gwellhad buan i Gareth Hughes, gŵr Rhian, oedd wedi cael damwain, a llongyfarchwyd Enid Huws, merch Gwyneth Price, ar ei phenodiad yn Bennaeth Cynorthwyol yn Ysgol Dyffryn Nantlle. Dymunwyd yn dda i Glenys, Rita a J. Elwyn Hughes ar dderbyn swydd blaenor yn eglwys y Cysegr. Enillwyr y rafflau, yn rhoddedig gan chwe aelod o'r pwyllgor, oedd Joyce, Mair Read, Ellen, Gwyneth Jones, Rhian ac Alys.

* * *

Croesawodd y Llywydd, Anne Elis, yr aelodau i gyfarfod cynta'r flwyddyn 2007 a dymunodd yn dda i bawb. Ein gŵr gwadd oedd Dylan Parry, dirprwy bennaeth Ysgol Bethel. Trwy gyfrrwng lluniau a fideo cawsom noson ddifyr ac addysgiadol yn dilyn ei ymweliad â Lepae yn ardal Semonkong, Lesotho. Yn sicr, mae plant yr ysgol wedi elwa o weld a chlywed am brofiadau eu hathro yng nnhwmni plant Lepae a gwneud i bawb sylweddoli mor braf yw hi arnom yn byw yng Nghymru. Mae plant y ddwy ysgol yn dal i gadw mewn cysylltiad â'i gilydd drwy lythyrau. Glenys Griffiths fynegodd ddiolch i Mr Parry am noson arbennig iawn. Merched y te oedd Sheila Roberts a Gwyneth Jones. Enillwyd y raffl gan Megan Jones.

Dymunwyd gwellhad buan i Mr Parry, tad Delyth, oedd yn Ysbyty Eryri a da oedd deall am lwyddiant pellach Huw Llywelyn, mab Alys, ym myd yr opera. Bydd rhai o'r aelodau a ffrindiau yn mynd i Theatr Gwynedd i weld *Cysgod y Cryman* a bu tîm o'r gangen yn ein cynrychioli yng nghystadleuaeth Bowlio Deg y rhanbarth ym Mharc Glasfryn.

Dethlir 'Diwrnod y Llyfr' ar 1 Mawrth a bydd Anne, Rita a Nora yn derbyn llyfrau, Cymraeg neu Saesneg, i'w rhannu i siopau elusennau. Diolchwyd i'r Cynghorydd H.P. Hughes am ei rodd garedig i'r gangen.

Bydd ein cyfarfod nesaf ar 14 Chwefror yng nghwmni Nia Povey o Lanfrothen a fydd yn arlunio gyda'r aelodau. Gofynnir yn garedig am £1 gan bob aelod tuag at gostau paent ayb. Byddwn yn cefnogi 'Pobi dros Bopath', elusen sy'n cynnig therapi arbenigol i blant Cymru gyda pharlys yr ymenydd. Bydd bwrdd i werthu a phrynu cacennau (a thaffi) wedi cael ei drefnu ar gyfer y noson.

YSGOL BETHEL.

Llongyfarchiadau. Llwyddodd Glesni Parry a Mari Tachwedd, blwyddyn 5, i basio arholiad gradd 1 efo'r ffliwt. Llongyfarchiadau hefyd i Fflur Huwsd, blwyddyn 6, ar basio gradd 2 clarinet efo theilingdod. Da iawn, enethod, edrychwn ymlaen i'ch clywed yn perfformio yn yr ysgol y n fuan iawn.

Bws Hysbys. Daeth bws Hysbys i'r ysgol ddechrau'r tymor ac fe gafodd disgyblion blwyddyn 5 a 6 gyfle i gyfanosddi cerddi ar y thema Teithio' efo'r awdur, Gwion Hallam, a ddefnyddiodd ddrwm Affricanaidd – Djembe i ddarllen barddoniaeth a darllen cerddi a ysgrifennwyd gyda'r disgyblion am deithio mewn bws.

Ar ddiwedd y dydd daeth y tri grŵp at ei gilydd i glywed cerddi naill grŵp a'r llall. Roedd Gwion Hallam wedi mwynhau ei hun a'r disgyblion wedi elwa o'r gweithdy. Mae Hysbys yn bartneriaeth rhwng Ysgol Dysgu Gydol Oes, Prifysgol Cymru Bangor, BBC Cymru a Bwrdd yr Iaith Gymraeg. Mae'r bws yn teithio ledled gogledd Cymru yn ymweld â threfi, pentrefi a chymunedau ac yn rhoi cyfle i blant ysgol gymryd rhan mewn gweithdai ysgrifennu creadigol.

Diolch yn fawr iawn i bawb am hwyluso'r trefnidau ar gyfer y digwyddiad. Dyma'r 3 cerdd ysgrifennodd y plant.

Clywch sŵn y bws yn closio
Ceg ingian eto'n rhuo
Nes cau ei geg wrth stopio
A'r drws fel neidr flin.
(SSSSSSSSSSSS)

Peiriant tocynnau'n tician
I'r sedd mewn chwinciad chwannen
Beltiau'n cael eu clecian
A'r ceir yn canu eu cyrn
(Bib Bib Bib Bib Bib Bib)

Olwynion fel melinau gwynt
Yn troi a throi a throi ynghynt
A'r bws yn brysio ar ei hynt
A rownd a rownd y byd
Ymlaen a mlaen o hyd.
(Disgyblion Bl. 5 Mrs Griffith)

Clywch ddrysau'r bws yn tisian
A sgidiau plant yn gwichian,
A'r dreifar yn tanio'r injan
A beltiau'r clician clecian.

Sŵn cegau'n crensian creision
Rhai'n canu eu hoff ganeuon
A rhai yn chwarae'n wirion
Nes bod y bws yn stopio'n
Stond!

Ond dyma gychwyn eto
A'r bws yn dechra bownsio,
Y plant i gyd sy'n cwyno
A'u bolia bron â ffrwydro.
(Disgyblion Bl5. Mr Parry)

Clyw sŵn y traed yn stompio
A drysau'r bws yn hisio
Ar plant i gyd yn gwthio
Fel ninjas gwyllt yn cwffio.

Mae'r athrawon i gyd yn gwylltio
A'r plant yn gwrthod gwrando
A'r brecs yn sgrechian crio
Nes fod y bws yn stopio.

Ond dyma'r plant yn callio
Gwregys pawb yn clicio
Rhag ofn i rywun frifo
A'r injan eto'n tanio
(Disgyblion Bl.6)

HAMDDENA

Ewch am Dro

Beth am gynyddu eich ymarfer corff trwy gerdded ar fynyddoedd Eryri?

Ar ddydd Sadwrn, 17 Chwefror, bydd gan Glwb Mynydda Cymru (www.clwbmynyddacymru.com) daith gerdded i'r Moelydd o Lanberis. Pawb i gyfarfod ym maes parcio'r Mynydd Gwefru, ger Llyn Padarn. Bydd y daith yn cyrraedd Moel Eilio, Moel Gron ac, efallai, Moel Cynghorion. Ceir manylion pellach gan Alun Roberts (01286 677 208; alungelli@ onetel.net).

Cofiwch wisgo'n addas a dod â phecyn bwyd maethlon efo chi. Croeso i bawb.

Y BWTHYN TÉ
pen y ceunant isaf
LLWYBR YR WYDDFA LLANBERIS

PEN Y CEUNANT ISAF-
BWTHYN A ADEILADWYD AR WAELODION LLWYBR YR WYDDFA (O LLANBERIS)
YN YSTOD Y 18ed. GANRIF
CEWCH GROESO ARBENNIG
, YMA, YN OGYSTAL A
GOLYGFEYDD GWYCH DROS
LLYN PADARN A DYFFRYN PERIS

AR AGOR 9am.- 9pm. BOB DYDD DRWY'R FLWYDDYN
DIODYDD GYDA SCON NEU DEISEN (Dim prydiau o gwbwl)
MAN PARCIO O FLAEN Y BWTHYN • YN ADDAS I'R ANABL
Oriel arbennig o luniau Syr Kyffin Williams
a llu o arlunwyr Cymreig eraill
(01286)872606 www.ceunant.co.uk steven@ceunant.co.uk

Silver STAR
GWYLIAU SEREN ARIAN
- PECYNNAU GWYLIAU YM MHRYDAIN, EWROP AC YMHELLACH.
- TEITHIAU I GYNGHERDDAU A THEATRAU.
- TREFNU PECYNNAU GWYLIAU I GRWPIAU A MUDIADAU AM BRISIAU RHESYMOL.
- BWSIAU MODERN A MOETHUS
- GWESTAI O SAFON
- CWMNI TEULUOL
- MANNAU CODI YN CYNNWYS: LLANBERIS, CWM Y GLO A LLANRUG.

Am fwy o fanylion am ein teithiau, ffoniwch
ein swyddfa ar y Maes yn Nghaernarfon ar 01286 672333

CYNGOR CYMUNED LLANBERIS

COFNODION IONAWR 2007
Cofnodion cyfarfod nos Iau y 18fed o Ionawr, 2007.

PRESENNOL ac YMDDIHEURIADAU:
Ward Padarn:, Gavin Allsup, Emlyn Baylis, Elwyn Davies, Olwen Gwilym, Derek Jones, Fred Owen, Douglas Pritchard, Helen Sharp (Cadeirydd),
Ward Peris: Iola Owen, Gwenda Roberts.
Ymddiheuriadau: Neb

DATGAN BUDDIANT:
DJ ei fod yn perthyn i BD (gweler nodyn 5).

CADARNHAU COFNODION:
Cadarnhawyd cofnodion cyfarfod nos Iau'r 14eg o Ragfyr, 2006.
Cynnig ac eilio: FO / GA

MATERION YN CODI O'R COFNODION:
• Adroddwyd fod hysbyseb wedi ei osod ar gyfer holi am arian o Gronfa Cymorthdaliadau Bychan y Cyngor. Dyddiad cau, Chwefror 12fed.

CYNLLUNIO:
Cyngor Gwynedd:
• C06A/0833/15/LL: Dileu Amod 4 o ganiatâd C02A/0585/15/LL – Dol Peris Lodge, Stryd Fawr, Llanberis. Cafwyd adroddiad gan FO iddo dderbyn copi o lythyr oddi wrth swyddog cynllunio gyda CG a anfonwyd at berchnogion yr eiddo uchod. Dywed y llythyr fod yr Awdurdod Cynllunio lleol am gadw'r cysylltiad rhwng y Loj a'r Gwesty, ac nad oedd am weld dileu hwnnw rhag creu dau gwrtil. Roedd y llythyr yn egluro na fyddai'r tŷ/loj wedi cael caniatâd cynllunio fel arall gan fod y safle'n rhy gyfyngedig. Serch hynny roedd yr Awdurdod yn fodlon ystyried newid yr amod i gynnwys perchnogion y gwesty yn hytrach na'r 'Rheolwr', a gallai'r amod gyfeirio at 'Reolwr neu berchennog' yn hytrach na 'rheolwr'. Fyddai hynny ddim yn golygu y byddai hawl i osod y tŷ, gan y byddai hynny'n golygu 'newid defnydd', a byddai angen caniatâd cynllunio arall ar gyfer hynny, ac unwaith eto byddai angen ystyried mwynderau lleol a materion ynglŷn â pharcio.
• C06A/0906/15/LL: Codi un tŷ – 9 Llain Wen Uchaf, Llanberis. Dim gwrthwynebiad ond nodwyd fod Llwybr Cyhoeddus Rhif 20 gerllaw, ac fe holwyd a oedd na ddigon o le i barcio car/ceir yno?
• C06A/0861/15/LL: Adeiladu tŷ fforddiadwy, llain o dir cyfagos i – 1 Gadlys Cottage, Llanberis
Dim sylw.
• C06A/0873/15/LL: Estyniad un llawr a chreu man parcio – 4 Stryd Warden, Llanberis. Dim sylw

Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri (APCE):
NP3/15/22G: Dymchwel garej yng nghefn y G&B, codi 2 dŷ pâr. Adnewyddu a throsi G&B yn dŷ 4 ystafell wely a siop – Glyn Peris, Nantperis. Dim pellach i'w adrodd, credir y bydd y mater yma'n cael ei ystyried ym Mhwyllgor Cynllunio nesa'r Awdurdod ar y 24ain o Ionawr.

WEDI EU CANIATÁU: CG:
C06A/0792/15/LL: Estyniadau – 7 Maes Padarn, Llanberis.

APCE: Dim

GOHEBIAETH:
• CG – Cais am anfoneb gwaith llwybrau a wnaed gan y Cyngor yma.
• CG – Cais am Praesept 2007/8 oddi wrth Gyngor Gwynedd. (gweler Nodyn 9)
• CG – Casgliad gwastraff gwyrdd. Llythyr yn nodi fod y Cyngor i ddechrau casglu gwastraff gwyrdd mewn rhai ardaloedd yn Arfon, gwastraff gardd fyddai hwn a fyddai'n addas ar gyfer gwneud compost. Eisoes gwnaed treial cyffelyb yn Nwyfor gan atal 2,500 tunnell o wastraff rhag mynd i safleoedd tirlenwi. Mae gofyn i CG, ar gyfarwyddid y Cynulliad, ailgylchu 40% o'r gwastraff yma erbyn 2010. Doedd dim yn dweud fod Llanberis yn rhan o'r cynllun. Bydd angen holi ymhellach.
• 2 lythyr oddi wrth Alun Ffred Jones AC – Copi o atebion oddi wrth yr heddlu (Prif Uwch-arolygydd Gareth Pritchard) a CG (Aled Davies, Pennaeth Cynllunio a Thrafnidiaeth) yn ymateb i gau y ffordd rhwng Llanberis a Penllyn adeg damwain ddrwg. Pur annerbyniol yw'r atebion, does neb yn cymryd cyfrifoldeb am ystyried cynllun i ddatrys y dagfa. Mae CG yn cydnabod mai'r heddlu sy'n rheoli trafnidiaeth dros Clegyr, ond dim sôn am y posibilrwydd o sicrhau y gallai moduron fynd ar hyd y Lôn Las.

Mae na hefyd gyfeirio at Lwybr Nant Ucha', o'r Nant i gyfeiriad y Gromlech a sôn y bydd na drafod hyn gyda'r Cyngor yma yn fuan,

Doedd dim cydnabyddiaeth yn llythyr yr Heddlu fod cau'r ffordd am amser hir, pan nad oedd y ddamwain yn angheuol, yn achosi trafferthion difrifol. Hefyd daeth copi o lythyr oddi wrth CG (Gwyn M. Jones, Pennaeth Gwasanaethau Priffyrdd a Bwrdeistrefol) yn manylu am wasanaeth glanhau a phigo sbwriel ynghyd â gwagio biniau sbwriel. Cafwyd addewid am gysylltiad pellach â'r Cyngor yma.

parhad ar dudalen 27

CORNEL BWRLWM ERYRI

BWRLWM ERYRI

Marged uch Ifan, dynes a hanner!

Yn ôl y sôn, roedd Marged uch Ifan yn glamp o ddynes. Roedd hi'n byw yng nghyffiniau Drws y Coed ac yna yng Nghwm y Glo flynyddoedd maith yn ôl.

Efallai dy fod wedi clywed am y mwynfeydd copr ar lethrau'r Wyddfa? Wel erstalwm, er mwyn cario'r copr o un pen i Lyn Padarn i'r llall roedd yn rhaid cael cwch. Fel roedd hi'n digwydd, roedd Marged yn medru saernïo cychod, a doedd rhwyfo cwch llawn copr trwm yn ddim trafferth iddi chwaith.

Ond nid trin cychod oedd ei hunig ddawn. Roedd hi'n bencampwraig hela, yn medru canu'r delyn, yn gallu gwneud gwaith gof a chrydd a theiliwr. Ar un adeg bu'n cadw tafarn yn Nrws y Coed, a gallai gyfansoddi a barddoni, a hyd yn oed ymladd efo dynion cryf!

Un diwrnod, cytunodd Marged i roi pás ar draws Llyn Peris i ddyn o'r ardal, yn un o'i chychod. Pan oedden nhw hanner ffordd ar draws y llyn, mi ddywedodd y dyn rywbeth digywilydd iawn ac mi wylltiodd Marged yn gaclwm. Cydiodd yn ei war a dal blaen ei drwyn yn y dŵr nes i'r creadur ymddiheuro - a do, mi fihafiodd ei hun wedyn nes cyrraedd y lan.

Ie, dynes a hanner oedd Marged, ac os hoffet ti wybod mwy amdani, gelli ddarllen rhagor yn *Gawn ni Stori?* gan John Owen Huws, yn *Straeon Gwydion* gan Dewi Tomos, ac ar wefan www.nantlle.com. Mi 'sgrifennodd dyn o'r enw Thomas Pennant amdani hefyd yn ei lyfr *A Tour in Wales.*



Rhwng tannau'r delyn mae hanner dwsin o'r pethau y gallai Marged eu gwneud. Fedri di eu ffeindio?

saernïo cwch	**rhwyfo**
hela	**cyfansoddi**
barddoni	**ymladd**

Mae gan Farged Fwyn uch Ifan
Delyn fawr a thelyn fechan,
Un i ganu'n nhre Caernarfon
A'r llall i gadw'r gŵr yn fodlon.

Mae gan Farged Fwyn uch Ifan
Grafanc fawr a chrafanc fechan,
Un i dynnu'r cŵn o'r gongl
A'r llall i dorri esgyrn pobol!

Mi fedri wrando ar y penillion traddodiadol yma yn cael eu canu gan Arfon Gwilym ar y CD *Proc i'r Tân.*

Wyddost ti ragor am Farged, neu am gymeriad hynod arall o'th ardal di? Os gwyddost ti, gad i mi wybod!

Elin Alaw, Swyddog Bwrlwm Eryri
01766 772 532 / elin.alaw@eryri-npa.gov.uk

Mae Bwrlwm Eryri yn bybu treftadaeth ddiwylliannol ac fe'i cefnogir gan:

Cymdeithas Llafar Gwlad

LLANBERIS

Gwyneth ac Eifion Roberts, Sŵn-y-Gwynt. Ffôn: 870740

DYMUNA Amanda Welsby ddiolch i'r llu cymdogion a chyfeillion a fu'n gefnogol iddi yn dilyn y dinistr a achoswyd i'w thŷ gan storm ganol lonawr.

DYMUNA Garry ac Elin Wakeham ddiolch yn fawr iawn i'r teulu a ffrindiau am yr anrhegion ac arian a dderbyniodd eu mab, Guto Siôn, yn ystod y Nadolig. Diolch yn fawr iawn i bawb.

CYMDEITHAS LENYDDOL UNDEBOL LLANBERIS. Nos Fawrth, 5 Rhagfyr, cafwyd noson o ddarlleniadau a chanu Carolau yn festri Capel Coch am 7 o'r gloch, dan arweiniad y Parchedig John Pritchard. Diolch i bawb a gymerodd ran yn y gwasanaeth. Diolch hefyd i'r rhai a wnaeth y baned, y bara brith a'r mins peis ac i'r rhai a gliriodd yr ystafell a golchi'r llestri wedyn. Gwnaed casgliad o £56.50 at Gronfa 'Cynllun Ieuenctid Cylch Eco'r Wyddfa'.

Nos Fawrth, 9 Ionawr, am 7 o'r gloch yn y festri cafwyd Oedfa Dechrau'r Flwyddyn dan arweiniad Mrs Susan Williams, Ceunant, Llanrug. Cawsom rywfaint o'i hanes a'i phrofiad ysbrydol mewn perthynas â Christ, drwy lafar a chân. Diolch iddi am noson arbennig iawn. Traddodwyd y Fendith gan y Parchedig John Pritchard ar ddiwedd y gwasanaeth.

Nos Fawrth, 6 Chwefror am 7 o'r gloch yn festri Capel Coch cawn gwmni Mr Geraint George, Brynrefail. Testun ei sgwrs fydd 'Tirlun, Tirwedd a Phobl'.

Croeso cynnes i'r aelodau hen a newydd i'r cyfarfod.

CANGEN ELUSENNOL LLANBERIS. Ar y dydd Gwener cyntaf o bob mis drwy'r flwyddyn 2006 bu'r Gangen yn cynnal Boreau Coffi er budd achosion brawdgarol a theilwng.

Drwy gyfrwng y Boreau Coffi llwyddwyd i gasglu cyfanswm anrhydeddus o £1,451.50c i wahanol fudiadau.

Dymuna Mattie a Delyth Hughes, y trefnyddion, ddatgan eu gwerthfawrogiad diffuantaf am y gefnogaeth a dderbyniwyd drwy'r flwyddyn.

Diolch yn arbennig i Danny a Nerys Roberts am gael defnyddio'r Bistro i gynnal y cyfarfodydd, ac am eu croeso a'u caredigrwydd. Diolch hefyd i swyddogion Capel Coch am ddefnydd o'r festri am gyfnod yn yr haf.

Ac, wrth gwrs, diolch i bawb a fu'n hael ac yn hynod ffyddlon i bob Bore.

PEN-BLWYDD HAPUS IAWN i Grêt Nain Elizabeth Humphreys ar ddathlu ei phen-blwydd yn 85 mlwydd oed ar 3 Chwefror.

Cariad mawr oddi wrth ei gorŵyr George, a'r teulu i gyd.

LLONGYFARCHIADAU i Iwan Wyn Williams, Carlinig, Ffordd Tŷ Du, ar lwyddo yn ei arholiad piano gradd 6. Da iawn chdi. Mam, Dad a Caryl.

LLONGYFARCHIADAU i Alice a John (Beddgelert) ar ddathlu eu Priodas Ruddem ar 10 Rhagfyr. Pob dymuniad da oddi wrth Mam, Alan, Angela a'r teulu oll.

Lleisiau Lliwedd

Bu tymor yr hydref 2006 yn gyfnod prysur iawn i'r Côr. Bu'r aelodau'n diddanu'r ymwelwyr yng Ngwesty'r Quality yn Llanberis ac hefyd yng Ngwesty'r Afr, Beddgelert, ar sawl achlysur.

Ar 10 Hydref, bu'r Côr yn canu yng Nghapel Moriah, Llangefni, ac ar 27 o'r un mis treuliwyd noson ddifyr yng nghwmni aelodau cymdeithas Capel Seilo, Llandudno. Braf iawn oedd gweld wynebau cyfarwydd yn y ddau gyfarfod!

Yn ystod y tymor mwynhaodd criw o'r Côr seibiant yn Durham, wedi ei drefnu gan gwmni Arfonia. Cafwyd cyfle i ymweld â'r Eglwys Gadeiriol, y castell a phentref enwog Beamish, yn ogystal â chael cyfle i siopa di-ben-draw.

Ar 7 Rhagfyr, ymwelodd y Côr â Phlas Gwilym ym Mhenygroes ac, yn ôl traddodiad, mwynhawyd noson o Garolau yng nghwmni preswylwyr Plas Pen Gwaith a Phlas Garnedd, Llanberis. Diolch am y croeso yn y tri chartref.

Uchafbwynt y tymor oedd cymryd rhan yn y cyngerdd mawreddog a gynhaliwyd yn Ysgol Brynrefail ar 24 Tachwedd, yng nghwmni disgyblion 'ddoe a heddiw', i ddathlu hanner can mlwyddiant yr ysgol. Noson i'w chofio, yn wir!

Ar ddiwedd y tymor, trosglwyddwyd awennau a chyfrifoldeb y swydd o fod yn ysgrifenyddes i'r Côr i Mrs Ann Roberts. Pob lwc iddi yn y swydd bwysig hon. Hoffai aelodau'r Côr ddiolch yn ddiffuant i Dilys Mai Williams am ei gwaith trylwyr a diflino ar hyd y blynyddoedd.

Daeth yr holl weithgareddau i ben gyda chinio Nadolig yng Ngwesty'r Quality, Llanberis, ar 2 Rhagfyr.

Yn olaf dymuna aelodau'r Côr flwyddyn newydd dda i'w holl ffrindiau yn 2007.

NANT PERIS

Llinos Jones, 6 Nant Ffynnon
Ffôn: (01286) 871820

DYMUNA Amanda Welsby ddiolch i'r llu cymdogion a chyfeillion a fu'n gefnogol iddi yn dilyn y dinistr a achoswyd i'w thŷ gan storm ganol lonawr.

PEN-BLWYDD HAPUS i Gwen Mererid, Ty'n Twll a Jaco Mullane, Cae Gwyn, a fu'n dathlu eu pen-blwyddi yn ddeunaw oed ddechrau'r flwyddyn.

DRAENOG

Clywais hanes gŵr adnabyddus iawn o Lanrug a chynt o Lanberis a gafodd anffawd go hegar yn ddiweddar. Wedi mynd i'r ystafell ymolchi yr oedd Wil, fel bob bore, ac wedi ymolchi fe chwiliodd am y gel i'w roi ar ei wallt. Daeth o hyd i'r chwistrellwr gwallt, yn ôl ei dyb ef, yng nghefn pellaf y cwpwrdd. Chwistrellodd y stwff dros ei ben ac yna aeth am dro i'r pentref. Ymhen awr neu ddwy sylweddolodd fod ei wallt yn disgyn o'i ben mewn clympiau. Edrychodd yn y drych ac fe welodd fod ganddo ddarnau moel. Aeth yn syth yn ôl i'r ystafell ymolchi ac yno fe welodd mai nid gel gwallt yr oedd wedi'i chwistrellu ar ei ben OND NAIR HAIR REMOVER ei wraig. Dim syndod fod Wil Korea wedi bod yn cerdded o gwmpas y pentref gyda chap gwlân ar ei ben!!



I drin a thrwsio pob math o beiriannau gwnïo

MENAI SEWING MACHINE CENTRE

21 Stryd Fawr
PORTHAETHWY

Ffôn: **(01248) 714043**
neu **Caernarfon**
Ffôn: **(01286) 674520**

Edau, Nodwyddau ac ati mewn stoc

Perchnogion Newydd!
yn parhau'r traddodiad gwych

WAVELL'S
Bryn ac Angela Williams

London House, LLANRUG
Ffôn:
(01286) 673574

PEN CIGYDDION Y FRO

Yr ŵyn lleol mwyaf blasus,
Selsig cartref
Cigoedd parod i'w bwyta
Archebion ar gyfer y rhewgist

MYNNWCH Y GORAU
DEWCH ATOM NI!

Y Bistro
LLANBERIS
Ffôn 871278
www.ybistro.co.uk
Perchnogion: Danny a Nerys Roberts

COFIWCH!

Y RHIFYN NESAF
Deunydd i law'r golygyddion perthnasol
NOS LUN,
19 CHWEFROR
Os gwelwch yn dda
Daw'r rhifyn nesaf o'r wasg
NOS IAU,
1 Mawrth

CDH

Ymgynghorwyr Ariannol Annibynnol

27 Stryd y Bont, Caernarfon
(01286) 672727

a hefyd ein swyddfa newydd
8 Llys Onnen, Ffordd y Llyn, Parc Menai, Bangor
(01248) 355055

Dewch atom am gyngor ynghylch yswiriant a materion ariannol

Awdurdodir a rheolir gan yr Awdurdod Gwasanaethau Ariannol

CHWILOTA

Ffotographydd o Lanberis... ...A Medalau Militaraidd

Fel y tyfodd pentref Llanberis yn ganolfan dwristaidd, ac fel y datblygodd y gwahanol ddulliau o dynnu lluniau â chamera, a'r dulliau o'u datgelu; nid yw'n syndod darganfod nifer o ffotograffwyr yn sefydlu yno ac yn agor stiwdio. 'Pobol ddŵad' oedd nifer o'r ffotograffwyr hyn, ond yr oedd gan John Henry Sugden gysylltiadau lleol. Yr oedd yn briod â Rebecca Huxley o 24 Chapel Street, Caernarfon, a rhwng 1924 ac 1929 roeddent yn byw yn 11 Stryd Ceunant, Llanberis. Yno hefyd, mae'n debyg yr oedd Jack Sugden yn datgelu y lluniau a dynnai'n lleol ac a werthai fel cardiau post.

Yn ystod y Rhyfel Byd Cyntaf enillodd nifer o anrhydeddau tra'n aelod o'r 1/10th Battalion o'r Manchester Regiment, gan gynnwys y DCM, 1914–15 Star, British War Medal 1914–20, Allied Victory Medal 1914–20. Ym mis Mehefin 1917 enillodd y Military Medal tra'n sarjant gyda'i fataliwn. Dyfarnwyd y MM i ddau filwr cyffredin arall a oedd gydag ef ar y diwrnod. Mae'r digwyddiad wedi ei gofnodi, a dyma fras gyfieithiad ohono:

'Ar yr ail ar hugain o Fehefin 1917 gadawodd Sarjant Sugden a'r milwyr, Macnamara a Cooke, ein ffosydd ddwywaith ar wyliadwriaeth y dydd. Ar yr ail achlysur, llusgodd y tri ar eu boliau am ddau can llath oddi wrthym tuag at linell y gelyn. Yno, daliodd Sarjant Sugden un o'r Almaenwyr a'i orfodi i ildio. Daeth dau Almaenwr arall i'r golwg, ond daliwyd y ddau rheini hefyd. Roedd pedwerydd Almaenwr yn barod i ymladd, ond fe'i gorchfygwyd heb golli gwaed gan y tri. Daethpwyd â'r pedwar Almaenwr yn ôl i'n gofal yn garcharorion.'

Bron i ddeugain mlynedd wedi'r digwyddiad hwn, defnyddiwyd yr hanes fel sail i stori mewn papur newydd yn ne Lloegr a enillodd y wobr gyntaf i un o'r darllenwyr mewn cystadleuaeth. Teitl y stori oedd *'Dangerous Mission: Sergeant Bluffed the Germans.'*

Wedi'r rhyfel daeth Jack Sugden i'r ardal hon a phriodi geneth leol. Ganwyd i Jack a Rebecca Sugden un mab, Victor. Yn od iawn, fe'i ganwyd yn ne Ffrainc, a'r gred yn y teulu yw fod Jack Sugden bryd hynny yn ffotograffydd swyddogol ar un o longau pleser Môr y Canoldir.

Roedd perthnasau i Rebecca Sugden yn byw yn Llanberis hefyd, sef George Huxley Thomas a Willie Huxley Thomas, a oeddd yn byw yn 35 Stryd Newton.

Rwy'n ddiolchgar i Reg Chambers Jones o Gaeathro am yr wybodaeth uchod, ac am fenthyg y llun o Jack Sugden. Roedd Rebecca Sugden yn chwaer i fam Reg. Ac wrth ddiolch i Reg am y wybodaeth, addas iawn yw cyfeirio at ei gyfrol ddiweddaraf sydd o ddiddordeb arbennig i ardal yr *Eco*. Cyhoeddwyd *Dinorwic – the Llanberis Slate Quarry*, ychydig cyn y Nadolig gan Gyhoeddiadau Bridge Books, Wrecsam – a dyna gyddigwyddiad arall, gan fod Alastair Williams, perchennog Bridge Books yn hannu o Lanrug; yn un o hogia teulu fferm Plastirion. Bu ei rieni am gyfnod yn cadw siop ar Sgwâr Llanrug, a byddai Alastair yn falch o dderbyn gwybodaeth am y siop neu luniau ohoni, yn enwedig cyn cyfnod ei rieni yno yn fuan wedi'r Ail Ryfel Byd.

Jack Sugden gyda'r medalau a enillodd yn ystod y Rhyfel Byd Cyntaf.

Cartref i fechgyn ym Metws Garmon

Er na ddaeth unrhyw ymateb i hanes y cartref hwn ym Metws Garmon, deuthum ar draws cofnod arall am y tŷ mewn cyfnod fymryn cynharach. Roedd Tan y Garreg a'r tir oedd yn gysylltiedig ag ef (bron i 150 o aceri) yn cael ei roi ar ocsiwn yng Ngwesty'r Sportsman, Caernarfon, ar yr ugeinfed o Fehefin 1896. Yn ôl y catalog arwerthiant, rhywun o'r enw Major Yates oedd yn byw yno ar y pryd, ond nid oes sicrwydd mai ef oedd y perchennog. Disgrifiwyd yr eiddo fel tŷ addas ar gyfer teulu bonheddig, gyda'r posibilrwydd o ddarganfod copr, sulphur neu lechi ar y tir. Fe'i gwerthwyd (ond ni ddatgelwyd y pris) i'r Parch J. Parry, Plas Isa, Betws Garmon. Os mai person eglwysig oedd hwn, efallai fod yma gliw pam y daeth Tan y Garreg yn ddiweddarach yn eiddo i'r eglwys wladol.

Gyda llaw, yr enw arno heddiw yw Plas y Coed. Pryd tybed y newidiwyd yr enw?

Clogwyn Cadog

Mae'r enw yn cael ei roi ar ran o dir Tan y Garreg yn y catalog arwerthiant. Mae'n amlwg yn cyfeirio at ran o'r llethr serth sydd tu cefn i'r tŷ, a'r afon sy'n rhaeadru'n ffyrnig oddi ar ochrau Moel Eilio. Oes unrhyw un yn gallu lleoli'n union ble mae Clogwyn Cadog, a pham yr enw?

Bardd o Geredigion a Steddfod Bethel

Derbyniwyd ymholiad o gaerdydd ynglŷn â bardd o Geredigion, sef Jonnie James Jones, Bryn Hoffnant, Llandysul, a adnabyddid fel Bardd Cadair Ddu Aberporth 1951. Enillodd ddwy gadair cyn hynny, a'r ddwy yn y gogledd, sef Glanadda a Bethel, a hynny rywdro yn ystod pedwardegau'r ganrif ddiwethaf. Y gred yw iddo ennill un o'r cadeiriau hyn am ddwy soned goffa i'w wraig – ond pa un o'r ddwy? Os oes rhywun â gwybodaeth am Eisteddfod a gynhaliwyd ym Methel yn ystod y pedwardegau, yna cysylltwch ar unwaith!

Cymdeithas Hanes y Tri Llan

Dyna deitl swyddogol cymdeithas hanes plwyfi Llandwrog, Llanfaglan a Llanwnda, a lansiwyd ym mis Ionawr eleni. Daeth cynulleidfa o dros chwe deg o bobl ynghyd ar y noson agoriadol a chafwyd sesiwn o atgofion gan bump o drigolion y fro ac arddangosfa o luniau: digon o stwff i bawb fynd am adra i gnoi cil arno. Bydd y cyfarfod nesaf ar Chwefror 13eg yng Nghanolfan Bro Llanwnda, gyda Duncan Brown yn trafod 'Yn Oes yr Arth a'r Eos'.

Mae'r cyfarfod yn cychwyn am 7.30. Pris ymaelodi am flwyddyn yw £10 neu dalu £2 ar gyfer pob cyfarfod. Gwariant gwerth chweil i'ch cadw i fynd tan ddiwedd 2007.

Ymhlith y testunau i'w trafod yn ystod y flwyddyn mae hanes teulu Bodfan, Y Dyrnwr Mawr, Hanes y Coastguard yn Llandwrog, Agweddau ar y Rhyfel Cartref a hefyd ymweliadau â Glynllifon a fferm Pengwern. Cynhelir teithiau hanesyddol yn ystod misoedd yr haf. Dyna rywbeth at ddant pawb felly.

Prin iawn fu'r ymateb i destunau'r golofn yn y ddau rifyn cyn y Nadolig. Oedd pawb yn rhy swrth ar ôl bwyta i godi'r ffôn hyd yn oed? Anfonwch eich sylwadau neu ymholiadau i Dafydd Whiteside Thomas, Bron y Nant, Llanrug, Caernarfon. (Ffôn: 01286 673515)

Bechgyn Waunfawr

Dyma gerdd a ysgrifennwyd gan Menna Williams yn 1933. Does gen i ddim gwybodaeth pwy oedd Menna, ond efallai y gall rhai o'r darllenwyr roi gwybod i mi – a hefyd wybodaeth am y bechgyn a enwir yn y gerdd.

Mae bechgyn ddigon yn y Waun
Ar gyfer pob rhyw ferch,
Nid oes eu gwell yn unrhyw fan
Am sisial geiriau serch.

Wel dyma nhw, y 'gang' i gyd,
Pob un yn bisin del;
Fe haedda'r oll gael gwraig reit dda
I gadw'r tŷ yn ddel.

Harri Wyn a Gwyrfai Jones
Ac Idris mwyn, bid siŵr;
A Guto Hughes yw'r gorau oll
Am wneuthur llawer stŵr.

Willie Glyn, Wil Gray a Guto
A Hugh Lynne sydd yma'n awr;
Ac mae Robin draw o'r Ceunant
'n gweithio'n ddyddiol yn Waunfawr.

Francis deithia o Gaeathro
I gael gweithio yn Waunfawr;
Ac adnabir ef gan luoedd
Fel y llanc a fflyrtia'n fawr.

Sgwn i gafodd pob un ohonynt 'wraig reit dda'? Y syndod yw mai dim ond wyth o fechgyn oedd yn y Waunfawr yn 1933 – neu o leiaf dim ond wyth oedd yn haeddu cael gwraig, yn ôl Menna Williams! Roedd y ddau arall yn dod o Geunant a Chaeathro. Anfonwyd y gerdd gan Mrs Catherine Nolan, Manceinion (Catherine Owen, Llanrug gynt), drwy law ei chwaer, Mrs Mair W. Williams, Llanrug. Anfonodd hefyd nifer o luniau o ddisgyblion ysgol gynradd Llanrug yn ystod tridegau'r ganrif ddiwethaf, gan gynnwys adran yr Urdd a llun o Fand Llanrug. Fe gyhoeddir y lluniau yn ystod y misoedd sydd i ddod. Dyma'r cyntaf, sy'n dangos dosbarth yn 1935.

Dosbarth Ysgol Gynradd Llanrug 1935

Rhes gefn (o'r chwith i'r dde): Bertie Owen, Goronwy Davies, Tom Griffith, Elfed Jones.
Genethod: Gertie Owen, Lauara Ann Hughes, Glenys Morris, Betty Griffith, Winnie Williams, Betty Jones, Marion Foulkes, Catherine Owen.
Ail res: Rasmus Williams, Evan Wyn Evans, Cledwyn Jones, Jimmy Land, Rhys Williams.
Rhes flaen: Gwilym Jones, Joe Roberts, Hughie Jones, Meirion Williams, Henry Williams, Elwyn Jones, Griff Evans, Cledwyn ?

• Alun Ffred Jones AC – Llythyr yn nodi iddo gael ymholiad am berchnogaeth a chyflwr y ffordd sy'n arwain heibio Cae Bach Coed oddi wrth Eurwyn Thomas. Mae'r llythyr yn holi a oes gennym unrhyw wybodaeth am berchnogaeth y ffordd. Doedd dim. Wyddom ni ddim chwaith ym mherchnogaeth pwy y mae'r Cae Chwarae, er mai ni sy'n gyfrifol am ei 'gynnal a'i gadw'.

• Cymuned (Mudiad) – Llythyr oddi wrth y Prif Weithredwr, Aran Jones, yn gofyn i'r Cyngor yma gefnogi ymgyrch 'Cartrefi.com' sy'n galw am adeiladu tai fforddiadwy yn unig fel tai newydd yn y dyfodol. Ymgyrch ydi hon i gael y Cynghorau Sirol, yn cynnwys Gwynedd, i fabwysiadu'r polisi fel rhan o'r Cynllun Datblygu Lleol. Mae'r manylion ar gael ar y Wefan a gofynnwyd i bawb ddarllen y cefndir erbyn y cyfarfod nesaf.

• Pwyllgor Ymgynghorol Yr Ysgrifennydd Gwladol a'r Arglwydd Ganghellor ar Ynadon Heddwch Gwynedd a Môn (Iolo W. Thomas) – Cais am enwau ar gyfer pobl â diddordeb bod yn Ynadon, yn ogystal â gwahoddiad i unrhyw un â diddordeb i fynd i gyfarfod yng Nghaernarfon ar Ionawr y 18fed, noson y cyfarfod yma. Yn ôl y Clerc does na'r un YH yn Llanberis ar hyn o bryd, a dywedodd fod Iolo Thomas am weld cynrychiolaeth dda o wahanol ardaloedd gan bobl sy'n adlewyrchu'r gymdeithas y mae nhw yn aelodau ynddi. Gofynnwyd i'r aelodau feddwl am drigolion yn Llanberis a fyddai â diddordeb ac yn addas. Copi: Cynllun Braenaru Daearyddol Arfon ac Ynys Môn – Syndod o'i ddarllen oedd deall mai adroddiad yn ymwneud ag addysg oedd hwn, nid bod awgrym o hynny yn y teitl. Paratowyd yr adroddiad gan y Cynulliad ac mae'n ymwneud â'r rhwydwaith dysgu ôl-16. Bydd angen edrych ar rai o'r dewisiadau ac ymateb erbyn Chwefror 16eg.

PRAESEPTIAD 2007/8:
Wedi trafodaeth lawn penderfynwyd eleni fod angen codi'r dreth gymunedol. Ers blynyddoedd, oherwydd fod arian wrth gefn, chafwyd dim cynnydd yn y praesept, ond eleni credir fod hynny yn angenrheidiol er fod ychydig mwy o arian wrth gefn nag sydd ei angen ar hyn o bryd.

Yn unfrydol felly, penderfynwyd ar braeseptiad o £11,000, mil o bunnau'n fwy na'r llynedd. Mae hynny yn gyfystyr i Dreth Cyngor Band D o £15.51, sef 1.41 yn uwch na'r llynedd. Mae hynny yn cyfateb i 9.1% o gynnydd, ond yn dal yn is na'r hyn oedd bedair blynedd yn ôl. [Gyda llaw yn 2003/4 roedd y praeseptiad yn £10,890; 2004/5 yn £11,500; yn 2005/6 aeth i lawr i £10,000 a dyna oedd y swm bennwyd y llynedd, 2006/7 hefyd.] Cynnig EB / DJ.

Y FYNWENT:
Cafwyd cyflwyniad gan y Clerc o brisiau claddu mewn mynwentydd eraill yn Arfon. Yn ôl y dystiolaeth mae prisiau claddu yn Nantperis yn llawer is na'r un mynwent arall. Er mwyn gwneud tegwch â'r mater cynigiodd ED grynhoi'r prisiau erbyn y cyfarfod nesaf, i gael rhyw fath o gyfartaledd. Unwaith y bydd ED wedi gwneud y gwaith cytunwyd i'r Clerc ei ddosbarthu cyn y cyfarfod nesaf er mwyn i'r mater fod wedi cael sylw'r aelodau ymlaen llaw.

CYFARFOD NESAF:
Bydd y cyfarfod nesaf ar nos Iau y 15fed o Chwefror, 2007 am 7 yr hwyr.

Cyngerdd Gŵyl Ddewi
Ysgol Glanaethwy
Llywydd: Mari Gwilym
Nos Sul, Mawrth 11
am 7.30
Capel Salem Caernarfon
Mynediad yn £5 a £3 i blant a phensiynnwyr
Yr elw at daith Pasg Ysgol Glanaethwy i Hwngari

Mae pobl dros 50 oed yn ymddiried yng nghynhyrchion a gwasanaethau Age Concern

Yswiriant Cartref
Yswiriant Cerbydau a Diffyg ar y Modur
Yswiriant Teithio
Cynlluniau Angladd
Cyflenwadau Trydan a Nwy

Am fwy o wybodaeth ymwelwch â ni yn:
Age Concern Gwynedd a Môn
Tŷ Seiont, Ffordd Santes Helen,
Caernarfon, Gwynedd LL55 2YD
01286 678310
gan ddyfynnu'r cyfeirnod: ECO'R WYDDFA

Mae *Age Concern Enterprises Ltd* wedi ei awdurdodi a'i reoleiddio gan yr Awdurdod Gwasanaethu Ariannol (FSA) ar gyfer yswiriant cyffredinol. Mae'n gweithredu o tua 300 o Age Concern lleol ledled y DU

ARVONIA
COACH TOURISM cpt
- Gwyliau cerbyd Prydeinig a Chyfandirol.
- Rhaglen Tripiau Dyddiol.
- Cerbydau moethus ar gael ar gyfer llogi preifat.
- Cerbyd 7 ac 14 sedd ar gael ar gyfer teithwyr maes awyr ac ar gyfer llogi preifat.
- Adran teithiau grŵp – yr holl drefniadau wedi'u gwneud: archebiadau gwesty a llong, teithiau, archebiadau theatr a digwyddiadau.

Y Sgwâr, Llanrug, Caernarfon, Gwynedd LL55 4AA
Ffôn: 01286-675175 Ffacs: 01286-671126 E-bost: info@arvonia.co.uk
Gwefan: www.arvonia.co.uk

Dylan Griffith
TREFNWR ANGLADDAU ANNIBYNNOL a LLEOL
TROS-Y-WAEN, PENISARWAUN
Yn gwasanaethu'r holl ardal yn cynnwys
PENISARWAUN, DEINIOLEN, LLANRUG A LLANBERIS
Gwasanaeth teimladwy,
urddasol a phersonol.
24 awr y dydd
Ffoniwch: **Dylan (Llys) ar 871833**
Symudol: **07778127394**

HEFYD
CERBYDAU CLASUROL YR WYDDFA

Cyrhaeddwch mewn steil – mewn cerbyd *Rolls Royce* ar gyfer priodasau, pen-blwyddi ac achlysuron arbennig eraill

H. E. HUGHES
A'I FEIBION
Bwthyn Gadlys
LLANBERIS
FFôn: 870444

- Gwerthwyr Glo ac
- Olew Gwres Canolog i'ch cadw'n gynnes ac yn glyd!

- Priodasau • Dathliadau
- Achlysuron Arbennig • Cynadleddau
- Pwyllgorau • Bwydlen Bar
- Cinio Dydd Sul

Quality Hotel Llanberis
(Gwesty'r Fictoria gynt)
wrth droed yr Wyddfa
Ffôn: Llanberis (01286) 870253

CHWARAEON

Rheolwr y Mis

BRAF I UNRHYW Olygydd Chwaraeon yw cael cyfle i longyfarch llwyddiant a hynny o ongl tipyn bach yn wahanol. Dyna ddigwyddodd yn ddiweddar ym myd y dartiau.

Llwyddodd tîm tafarn Y Fic yn Felinheli i 'daflu' eu ffordd drwodd i rowndiau terfynol cystadleuaeth ledled Prydain. Yr oedd y gystadleuaeth wedi ei noddi gan gwmni Holsten Pils, ac yn agored i dimau tafarn yn rhanbarth y gogledd-orllewin (Cymru a Lloegr, wrth gwrs). Roedd ambell dîm lleol arall yno hefyd, ond mae awgrym mai 'tîm dewis' o wahanol dafarndai oedd yno. Cythraul dartiau efallai!

Cynhaliwyd y gystadleuaeth yng nghlwb ysblenydd Y Willows, cartref tîm rygbi'r gynghrair Salford. Yr oedd wyth bwrdd i gyd, sy'n rhoi syniad o'r nifer o dimau. Roedd y clwb dan ei sang ac roedd y fath awyrgylch yn brofiad ynddo'i hun i'r chwaraewyr. Nid fod tîm y Fic yn ddieithriaid i dipyn o sŵn.

Roedd trefn ddieithr i bob rownd, gyda'r timau yn herio'i gilydd mewn tair gêm 'cyntaf i 701' mewn parau, ac yna chwe gêm ungiol 'cyntaf i 501', pob gêm y gorau o dair cymal. Cafwyd cryn gnoi ewinedd cyn blasu'r fuddugliaeth.

Yn y rownd gyntaf herio tafarn yr Union o St. Helens. Tipyn o nerfau a'r Fic 3–0 i lawr wedi'r 'dyblau'. Yna tipyn o 'eiriau tanllyd' gan Aled 'Salad' Williams o Fethel, y rheolwr. Bygwth rhoi *free transfer* iddyn nhw i gyd i dîm y Bedol! Sôn am newid! Ennill y pum gêm sengl ar y trot! Ymlaen i'r ail rownd.

Tîm tafarn y George, Caer, oedd yn herio. Dechrau gwell y tro yma, a 2–1 ar y blaen yn erbyn tîm yn cynnwys dau chwaraewr o safon sirol. Yna'r ddrama! Y sgôr yn hollol gyfartal, 4–4, ac un cymal yr un yn y gêm olaf. 'Down the wire' chwedl Sid Waddell. Cadwodd Dafydd 'Bybs' Jones ei nerfau, saeth i ganol dwbwl 5 a'r Fic yn dathlu. Ymlaen rŵan i'r Rowndiau Terfynol Prydeinig ym Mirmingham ar 24 Chwefror. Mae'r wên ar wyneb y rheolwr byth!

Ymysg y garfan lwyddiannus roedd dau o'r fro, sef Elwyn Lôn Glai (Llanrug bellach) ac arch Sgowsar y fro, sef Andrew Williams. Eisoes mae'n breuddwydio am y dwbwl – ennill y gystadleuaeth hon ac, fel is-reolwr tîm Bethel, ennill y Junior Cup unwaith eto. (Wn i ddim am y trebl – efallai y byddant yn ail tu ôl i'r Cochion eraill).

Wedi'r fuddugoliaeth roedd yn rhaid dychwelyd i fara menyn y gêm gynghrair yn y Bedol. Roedd 'Salad' wedi gaddo stîd go-iawn i hogia Bethel. Tîm gwaelod y gynghrair yn erbyn 'National Qualifiers'. Pa obaith i hogia bach y wlad? Sôn am godi gêm. 4–4 ar ddiwedd y noson a'r uchafbwynt oedd Cled Post yn curo Andrew Cefn 2–0.

Yn amlwg rhaid cadw'r Swyddfa Bost ar agor. Mae'r codi'n fore wedi gwneud byd o ddaioni i Cled!

Diogi'r Sadwrn

DYNA FU'R HANES yn ddiweddar rhaid cyfaddef, er fod y tywydd gwlyb yn rhoi stop ar unrhyw grwydro. At y lloeren â hi, a dilyn cystadleuaeth rygbi Heineken. Cafwyd gwledd o chwarae a chyflwyniad deheuig yn helpu cynnal y tensiwn. Am unwaith, roedd 'rhywbeth' ar bob gêm fel petai.

Roedd camp y Scarlets – ein rhanbarth ni – yn ennill eu chwe gêm yn anhygoel, ac mae cryn edrych y mlaen yn barod i'r gêm go-gyn-derfynol ar y Strade yn erbyn y deiliaid, Munster. Diwrnod i'r Celtiaid yn wir ac, os rhywbeth, y Scarlets yn ffefrynnau ar eu tomen eu hunain.

Y mae hyfforddwr y Scarlets, Phil Davies, i'w ganmol am gynnal dull Carwyn o'r chwarae agored cyflym. Mae'n gofyn am lefel uchel o ffitrwydd – elfen nad oedd yn nodweddiadol o dimau Cymnreig yn y tymhorau diweddar. Agwedd bwysig arall yw fod pob chwaraewr yn gwybod bod cystadleuaeth am bob safle yn y tîm cenedlaethol erbyn hyn. Daw hyn ac awch a hunanddisgyblaeth yn ôl.

Tybed a yw Gareth Jenkins wedi llwyddo i berswadio hyfforddwyr y timau rhanbarthol i chwarae'r dull cenedlaethol. Cawn wybod a'r gêm heriol yn erbyn Iwerddon ar ein gwarthau.

Boddi yn ymyl y lan wnaeth y Gweilch – tîm llawn doniau ond efallai heb y gallu i ennill y gemau pwysig ar hyn o bryd. Serch hynny, yno mae'r seren, sef James Hook. Y fath gydbwysedd a hyder. Gobeithio y gwelwn ef yn herio'r dewin, Brian O'Driscoll.

Gyda Lloegr gartref a'r timau glas – Ffrainc, Yr Alban a'r Eidal i ffwrdd – mae'n allweddol ein bod yn ennill y gêm gyntaf, a hynny heb y dewin bach, Shane Williams. Eisoes rwyf wedi llogi fy lle ym Mharis, gan obeithio gweld cystal gêm a chanlyniad ac a gafwyd ddwy flynedd yn ôl. A sôn am stadiwm! Y Stade de France. Dim ond un broblem. Oes gan rhywun docyn?

Canmol Port – Er eu Cosbi

CODODD Y PWNC o hiliaeth llafarog ei ben ar sawl achlysur yn ddiweddar – o'r Brawd Mawr i Gynghrair Genedlaethol Cymru.

Cafodd tîm pêl-droed Porthmadog ddirwy drom yn dilyn ymddygiad annerbyniol un o'u 'cefnogwyr'. Mae hyn yn dangos agwedd bositif gan yr FAW, ond a yw hi'n deg ar glwb Port?

Wedi ymchwilio, daethpwyd o hyd i'r sawl oedd yn gyfrifol, ac mae eisoes wedi ei wahardd o'r Traeth. Anodd gwybod beth arall allai'r clwb fod wedi ei wneud.

Yr hyn sy'n cael ei amlygu yw'r diffyg cysondeb. Mae Cadeirydd Cynghrair Criced y gogledd, yn ei adroddiad blynyddol, yn cyfeirio at y cynnydd mewn ymddygiad bygythiol yn ystod y gemau. Gwendid y sefyllfa yw fod rhai dyfarnwyr yn penderfynu gwneud safiad ac eraill yn 'clywed dim, gwneud dim'. Mae hyn yn rhoi'r argraff fod yr awdurdodau yn wan yn yr elfen yma. Gwnaeth Port bob dim posibl ac eto maent yn cael eu cosbi. Yr hyn sy'n galonogol yw mai carfan o gefnogwyr Port a dynnodd sylw swyddogion y clwb at yr achos. Dyna i mi yw bod â 'theimlad' i'r clwb. Nid ydym yn gwneud unrhyw ffafr i'n clybiau trwy fod yn 'llygaid mud'.

Tamaid i aros pryd

MAE MEILYR EMRYS yn enw cyfarwydd i ni fel prif leisydd y grŵp, Vanta. Erbyn hyn gallwn ei gyfarch fel Meilir Emrys MA. Yn ddiweddar cwblhaodd ei draethawd hir ym Mhrifysgol Aberystwyth a dyfarnwyd y radd iddo.

I fyd y campau y trodd am ysbrydoliaeth a chafwyd traethawd penigamp ganddo ar hanes datblygiad pêl-droed yng ngogledd-orllewin Cymru hyd at y Rhyfel Byd Cyntaf. Rhoddir cryn sylw i'r datblygiad yn ardal y chwareli.

Mae Meilir wedi cytuno i gyflwyno ysgrif fer fel rhyw flas ar ei waith. Rwyf wedi cael golwg ar y traethawd gorffenedig ac, yn sicr, o'i addasus tipyn bach gellid yn hawdd ei droi'n lyfryn hynod o apelgar.

J.M. JONES A'I FEIBION
GWAITH CERRIG BEDDAU

Y Sgwâr Llanrug
Crefftwyr gwaith llaw traddodiadol
Cerrig o bob math ar gael –
Ffôn: (01286) 672898 (dydd)
676285 (nos)

LLEUFER O. ac N. PRITCHARD
CANOLFAN CARPEDI
WAUNFAWR
Ffôn/Ffacs: (01286) 650291
Dewis eang o Welyau a *3P/Suites*.
Llenni *Venetian* a Llenni *Roler*.
5,000 llathen sgwâr o garpedi mewn stoc – allwch chi fforddio prynu o batrymau?
Ar Agor 9-7 pm
9-5 pm Sadwrn
Ar Gau Sul a Mercher
GLANHAU CARPEDI GYDA STIMVAK

Am Offer Tŷ a Gardd...
FORMAG
41A STRYD FAWR, LLANBERIS
Ffôn: (01286) 872501